



# Canllaw ar gyfer y Gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd Mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol: Egwyddorion craidd i sicrhau'r defnydd gorau posibl o'r gweithlu

## Rhagair



**Ruth Crowder MSc (Econ), Dip COT.**  
**Prif Gynghorydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru**  
**Llywodraeth Cymru**

Mae fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru (2019) yn nodi'n glir bod yn rhaid i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ddefnyddio gweithlu'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn fwy effeithiol i helpu i drawsnewid iechyd a gofal cymdeithasol fel sy'n ofynnol yn yr 21ain ganrif. Yn rhy aml, ni all pobl sydd angen arbenigedd un neu fwy o'r 13 o weithwyr proffesiynol iechyd creadigol unigryw hyn gael mynediad uniongyrchol atynt yn ddigon buan i wneud y gorau o'u hiechyd a'u llesiant neu i wella eu hadferiad. Ar hyn o bryd, mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cael eu tanddefnyddio'n sylweddol mewn gwaith atal, ym maes iechyd y cyhoedd ac mewn lleoliadau gofal iechyd sylfaenol lle y gallent wneud mwy i helpu pobl i fyw mor annibynnol â phosibl cyhyd ag y bo modd, yn eu cartrefi eu hunain. Nid oes digon o'r gweithwyr hyn yn gweithio yn ein gwasanaethau sylfaenol a chymunedol a gall gymryd gormod o amser i gael gafael ar eu harbenigedd.

Mae yna lawer o enghreifftiau gwych o wasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd arloesol, sy'n darparu mynediad uniongyrchol, ymyrraeth gynnar, trefniadau gweithio hyblyg, gwasanaeth adsefydlu ac ail-alluogi yn y gymuned, a thriniaethau cymhleth mewn lleoliadau iechyd a gofal. Fodd bynnag, nid yw'r rhain ar gael eto ar ffurf gwasanaethau cyson a chynhwysfawr i ddiwallu anghenion yr holl ddinasyddion.

Mae'r canllaw hwn gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn disgrifio'n berffaith y newidiadau sydd eu hangen arnom i sicrhau bod mynediad da, teg ac effeithiol i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn gofal sylfaenol a chymunedol. Bydd gwneud hyn yn iawn, gan ddefnyddio Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd o system gyfan sydd wedi'i hintegreiddio'n dda yn darparu'r gwasanaethau gwerth uchel o ansawdd uchel y mae dinasyddion Cymru eu hangen ac yn eu haeddu.



**Fiona Jenkins MBE PhD FCSP**  
**Cyfarwyddwr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd**  
**Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro**

Fel Cadeirydd grŵp cymheiriaid Cyfarwyddwyr Therapiau a Gwyddor Iechyd, rwyf hefyd yn falch o gefnogi'r canllawiau hyn gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol sy'n cefnogi uchelgais y fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd.

Cyhoeddwyd y fframwaith cyn y pandemig, ac rydym bellach yn barod i fabwysiadu'r fframwaith hwn fel y strategaeth gyffredinol ar gyfer gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru. Mae'r rhaglen weithredu yn cael ei pherchnogi ar y cyd gan Gyfarwyddwyr Gweithredol Therapiau a Gwyddor Iechyd, Addysg a Gwellu Iechyd Cymru (AaGIC) a Llywodraeth Cymru.

Mae'r "Canllawiau ar gyfer Gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol - egwyddorion craidd i wneud y defnydd gorau posibl o'r gweithlu" yn un o'r themâu allweddol ar gyfer y fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd gan mai'r gweithlu yw ein cyfraniad unigryw a chan mai gofal sylfaenol a chymunedol yw'r prif sbardun i gyflawni dyheadau "Cymru Iachach". Rydym yn edrych ymlaen at weld y cynnydd hwn a sicrhau bod gweithlu'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn fedrus a bod ganddo lwybrau gyrfa sy'n darparu gofal rhagorol i'n poblogaeth.



**Andy Swinburn QAM, FCPara, MSc.**  
**Cyfarwyddwr Cyswllt Parafeddygaeth**  
**Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlaens Cymru**

Anrhydedd i mi yw cyfrannu'r rhagair ar gyfer y cyhoeddiad hwn, sy'n garreg filltir hollbwysig.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cynnig set unigryw o sgiliau clinigol sydd wedi dangos dro ar ôl tro eu bod yn cyfoethogi gofal cleifion ac yn gwella gofal clinigol. At hynny, mae gan Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd dull deinamig, arloesol sy'n canolbwyntio ar ddefnyddwyr gwasanaethau o gyflawni dyheadau Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol, gan sicrhau y gellir darparu gofal yn agosach at y cartref, yn y lleoliad sydd fwyaf priodol i'r unigolyn.

Wrth i ni symud ymlaen â'r ffrydiau gwaith amrywiol hyn, mae'n hanfodol ein bod ni fel sefydliadau, yn cydweithio i ymchwilio i gynlluniau'r gweithlu sy'n sicrhau bod ein holl anghenion yn cael eu hystyried ar sail 'system gyfan' ac yn datblygu'r cynlluniau hynny, yn rhannu ein cronfa dalent, ac yn creu ffyrdd o ddenu, cadw a datblygu ein gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn modd sy'n creu gyrfaoedd uchelgeisiol i'n pobl, gan fynd i'r afael ag anghenion gwasanaeth pobl ar yr un pryd.

O ran fy mhroffesiwn fy hun, rydym wedi llwyddo i ddatblygu'r dull cydweithredol hwn drwy nifer o gamau peilot ac rydym yn awyddus i greu partneriaeth â darparwyr eraill er mwyn hwyluso'r datblygiadau cyffrous hyn i sicrhau ein bod yn creu modelau cyflenwi cynaliadwy sy'n cefnogi rhanddeiliaid niferus, ac yn bwysicaf oll pobl Cymru.



**Lisa Llewelyn**  
**Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol**  
**Addysg a Gwella Iechyd Cymru**

Fel Cyfarwyddwr Addysg Nyrsio a Gweithwyr Iechyd Proffesiynol Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC), mae'n bleser gennyf gefnogi "Canllawiau ar gyfer y Gweithlu Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol - egwyddorion craidd i wneud y defnydd gorau posibl o'r

gweithlu"

Mae'r Canllawiau hyn yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ei wneud; a'u rôl hollbwysig o ran gweithio gyda chydweithwyr yn y meysydd atal, iechyd cyhoeddus a gofal sylfaenol, er mwyn galluogi pobl i fyw mor annibynnol â phosibl yn eu cartrefi eu hunain. Mae hefyd yn ategu uchelgais "Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru: Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd"; ac mae'n cynnig dull o arwain, gwella sgiliau a datblygu rolau a gyrfaoedd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd er mwyn cyflawn uchelgeisiau "Cymru Iachach".

Bydd trawsnewid sut a ble y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gweithio a gwneud y gorau o werth eu hadnodd, yn ysgogi, yn grymuso ac yn galluogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i gydweithio'n effeithiol ag eraill; cadw'r arferion gorau presennol; gwella gwelliannau i wasanaethau er mwyn gwneud newidiadau systemig; a chefnogi'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd i gyflawni ei lawn botensial.

Mae AaGIC yn edrych ymlaen at weithio gyda Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a'u cyflogwyr i ddatblygu, trawsnewid, ehangu a gwella eu cyfleoedd gyrfa.

---

Llwybr System Gyfan

---

Gweithgaredd Proffesiynau Perthynol i Iechyd wedi'i drefnu ar draws ardaloedd daearyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol

---

Ffrydiau cyllid wedi'u cysoni ag amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Model Gofal Sylfaenol

---

Arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd cryfach sy'n cwmpasu'r system gyfan

---

Cytundeb cydweithredol a threfnu adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws lleoliadau

---

Haenu adnoddau'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd o ran gweithgaredd a'r set sgiliau ofynnol

---

Cynllunio a darparu ar sail Ardal / Clwstwr Cyfan

---

Cytuno ar fframwaith cyfathrebu a modelau Tîm

---

Model cyflogaeth a llywodraethu 'cyflogi i ddefnyddio'

---

## Crynodeb Gweithredol

Clefyd y coronafeirws 2019 (COVID-19) yw'r her fwyaf y mae'r system iechyd a gofal wedi'i hwynebu o fewn cof ac mae'n cael effaith sylweddol ar fywydau pob un ohonom. Gyda chynnydd mewn bregusrwydd ac anghenion, mae'n hollbwysig bod gwasanaethau adfer ac adsefydlu ledled Cymru wedi'u gwreiddio yn y gymuned, ac yn gweithredu fel system gyfan.

Rhaid gwneud ymdrech i ganolbwyntio ar gydweithio a gwytnwch cymunedol, yn seiliedig ar anghenion ein poblogaeth, yng nghyd-destun yr effaith ar eu bywydau a'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn rhan hanfodol o ddatblygu modelau a thimau i ddarparu gofal o'r ansawdd uchaf a gwella canlyniadau iechyd.

Mae arbenigedd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn hollbwysig i gyflawni'r newid sylfaenol o orddibyniaeth ar ofal mewn ysbyty ac ymyriadau proffesiynol. Hynny yw, cefnogi dull llwybr system gyfan ataliol, rhagweithiol tuag at adferiad ac adsefydlu, sy'n blaenoriaethu darparu gwasanaethau gartref neu'n agos at y cartref ac sy'n galluogi dinasyddion ledled Cymru i fyw mor annibynnol â phosibl, cyhyd ag y bo modd.

Mae gwneud y gorau o'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig a hygyrchedd ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol o'r pwys mwyaf i fynd i'r afael ag anghenion sydd heb eu diwallu / a ragwelir.

Mae angen egwyddorion craidd ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd er mwyn cyflawni'r uchelgais hon.

Dysgu a datblygu wedi'u llywio gan flaenoriaethau rhanbarthol a gwaith clwstwr, gyda chefnogaeth Academiâu Gofal Sylfaenol / Hybiau Hyfforddi Ardal

Rhaid i'r rhain ddarparu'r cydbwysedd cywir rhwng datrysiadau rhanbarthol sy'n mynd i'r afael ag anghenion cymhleth (y mae angen ei gynllunio a'i drefnu'n effeithiol dros ardal fwy na 'lle'), ochr yn ochr ag atebion lleol ac arloesi, sy'n lleihau amrywioldeb.

Mae'r papur hwn gan y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn alwad i weithredu ar gyfer y system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan i roi'r egwyddorion craidd a argymhellir ar waith sy'n ofynnol i wneud y defnydd gorau o'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Yn unol â Strategaethau a Chanllawiau Cenedlaethol, mae'r canllawiau hyn yn benllanw misoedd lawer o ymgysylltu a thrafodaeth sylweddol gyda'r holl randdeiliaid. Mae'n defnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r gorffennol a'r presennol i ddisgrifio sut y gall gwell defnydd o wybodaeth a sgiliau unigryw Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gefnogi Gofal Sylfaenol a Chymunedol i ddarparu system gyfan ar gyfer adferiad a'r math o wasanaethau sydd o bwys i bobl.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn wynebu heriau sylweddol o ran cael adnodd staff gyda'r capasiti a'r sgiliau i reoli'r galw cynyddol ar draws pob maes. Heb ddefnydd clir a chyson o ganllaw ar gyfer cynllunio'r gweithlu, mae risg uchel y bydd Cymru'n creu 'marchnad fewnol', lle mae sefydliadau'n cystadlu i gyflogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd cyfyngedig a medrus iawn.

Rydym eisiau gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd o'r maint cywir, gyda'r sgiliau cywir, wedi'u trefnu yn y ffordd iawn, ac sy'n darparu gwasanaethau er mwyn darparu'r gofal gorau posibl i'n poblogaeth. Mae'r canllawiau hyn a'i argymhellion yn ein rhoi ar y trywydd iawn i gyflawni hyn.

## Crynodeb Gweithredol: Y Camau sydd eu Hangen

<b>YR EGWYDDORION CRAIDD SYDD EU HANGEN I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O'R GWEITHLU PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD MEWN GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL</b>	
<b>Themâu</b>	<b>Camau i'w Cymryd:</b>
<p>Llwybrau tameidiog ar ffurf seilos ar draws lleoliadau</p> <p>Blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd am adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws y <u>4 prif grŵp poblogaeth</u> <a href="https://gov.wales/rehabilitation-framework-continuity-and-recovery-2020-2021.html"> &lt;https://gov.wales/rehabilitation-framework-continuity-and-recovery-2020-2021.html&gt;</a> o ran ailosod ac adfer</p> <p>Diffyg cyfatebiaeth rhwng rolau a set sgiliau ag anghenion y boblogaeth</p> <p>Absenoldeb trefniadau ymarferol ar gyfer datblygu'r gweithlu</p>	<p><b>Llwybr System Gyfan</b></p> <p>Arweinwyr system i ddod ynghyd i oresgyn y rhwystrau sy'n atal y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd</p> <p>Darparu cydlyniant ar raddfa fawr i gefnogi rhoi mwy o ffocws ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Wasanaeth iechyd a llesiant di-dor</li> <li>• Gwasanaethau adfer ac adsefydlu wedi'u gwreiddio yn y gymuned ac yn gweithredu fel cyfanwaith</li> <li>• Datblygu a chefnogi strategaeth 'un gweithlu'</li> <li>• Defnydd mwy effeithiol o adnodd Proffesiynau Perthynol i Iechyd gan gynnwys cymorth clinigol a gwasanaethau corfforaethol</li> <li>• Mesur y canlyniadau iechyd a llesiant sydd o bwys i bobl</li> <li>• Gwneud y defnydd gorau o set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd i sicrhau gwell canlyniadau a gwell gwerth er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn hytrach na diwallu'r galw</li> <li>• Gwella iechyd y boblogaeth</li> <li>• Cefnogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch gofalu amdanynt hwy eu hunain ac aros yn annibynnol.</li> </ul>
<p>Mynediad tameidiog ac anghyfartal at Broffesiynau Perthynol i Iechyd a defnydd tameidiog ac anghyfartal ohonynt</p> <p>Anghenion cymhleth y gellir ond cynllunio ar eu cyfer a'u trefnu'n effeithiol drwy gontinwrm o ddarpariaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd, dros ardal sy'n fwy na 'lle'</p>	<p><b>Trefnu gweithgaredd Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws ardaloedd daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol</b></p> <p>Cydnabod y bydd y gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd, o safbwynt gweithredol, yn dod o wahanol sefydliadau o fewn ôl troed daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a'i bod yn ofynnol i arweinwyr system:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gydweithio rhwng darparwyr ar ôl troed mwy i alluogi dull gweithredu unfurf a chydgyssylltiedig gyda gwaith cynllunio a chyflawni Lleol / Ar Drows Clystyrau yn seiliedig ar anghenion ac amrywiad</li> </ul>

<b>YR EGWYDDORION CRAIDD SYDD EU HANGEN I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O'R GWEITHLU PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD MEWN GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL</b>	
<b>Themâu</b>	<b>Camau i'w Cymryd:</b>
	<ul style="list-style-type: none"> <li>Darparu'r cydbwysedd cywir rhwng datrysiadau rhanbarthol a diwallu anghenion cymhleth (y mae angen eu cynllunio a'u trefnu'n effeithiol dros ardal fwy na 'lle'), ochr yn ochr ag atebion lleol ac arloesi, sy'n lleihau amrywioldeb</li> </ul>
<p>Ffrydiau cyllido llwybr diagnostig gofal eilaidd Proffesiynau Perthynol i lechyd hanesyddol, gan greu annhegwch a rhwystrau i lwybrau mwy integredig</p> <p>Cyfleoedd cyfredol am gyllid trawsnewid tymor byr sy'n arwain at:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Cystadleuaeth gynhennus am adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd</li> <li>Modelau cyflogaeth uniongyrchol ac anghydnewid</li> <li>Cyfaddawdu'r gallu i arloesi a thrawsnewid</li> <li>Canlyniadau sy'n cael eu pennu gan ffynhonnell gyllido a strategaeth ymadael gysylltiedig</li> </ul>	<p><b>Cysoni ffrydiau cyllid ag amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Model Gofal Sylfaenol</b></p> <p>Mae angen cynllunio rhanbarthol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar arweinwyr system sydd y tu hwnt i'w ffiniau sefydliadol traddodiadol. Mae hyn yn hollbwysig i ddefnyddio Proffesiynau Perthynol i lechyd cynaliadwy a bydd yn galluogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>Blaenoriaethu modelau capasiti a chyflawni i ddiwallu anghenion y boblogaeth</li> <li>Dyrannu adnoddau i ymyriadau gwerth uwch</li> </ul>
<p>Diffyg cynrychiolaeth o arweinwyr Proffesiynau Perthynol i lechyd gweithredol a chryf mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a chynllunio a chyflawni cydweithredol mewn Ardaloedd / Clystyrau</p>	<p><b>Arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i lechyd cryfach sy'n cwmpasu'r system gyfan</b></p> <p>Mae'n ofynnol i arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i lechyd gwmpasu'r system gyfan, bod yn bresennol, cael ei chryfhau, ei chefnogi a'i datblygu: mae hyn yn hanfodol i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd, llywio blaenoriaethau a dyrannu adnoddau'n ddarvoudus</p> <p>Rhaid dangos gwerth ac effaith gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i lechyd mewn ffordd gyson i helpu i alinio amcanion strategol sefydliadol a chefnogi cynaliadwyedd a pharhad ar draws gwasanaethau</p> <p>Rhaid cydnabod bod modelau a dulliau Proffesiynau Perthynol i lechyd newydd yn gofyn am drawsnewid y ffordd yr ydym yn trefnu gwasanaethau, yn lle dim ond darparu'r un gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i lechyd mewn lleoliadau newydd, gan ehangu'r gweithlu</p>

<b>YR EGWYDDORION CRAIDD SYDD EU HANGEN I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O'R GWEITHLU PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD MEWN GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL</b>	
<b>Themâu</b>	<b>Camau i'w Cymryd:</b>
	Proffesiynau Perthynol i lechyd, ar y cyd â datblygu sgiliau a'r ystod o wasanaethau a gynigir
Ffocws cyfredol ar leoliadau rôl benodol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd gyda sgiliau ymarfer clinigol uwch yn hytrach na thrawsnewid continwmm gwasanaethau'r Proffesiynau Perthynol i lechyd	<p><b>Cytundeb cydweithredol a threfnu adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd ar draws lleoliadau</b></p> <p>Rhaid i arweinwyr system gynllunio'r gweithlu mewn ffordd barhaus ac ymatebol, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rolau a defnyddio sgiliau i ddiwallu anghenion y boblogaeth a blaenoriaethau rhanbarthol, yn hytrach nag ar deitlau swyddi a llwybrau gyrfa</p>
<p>Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yn gweithio'n dameidiog ac mewn seilos gydag absenoldeb cysylltiedig, annhegwch a dyblygu posibl o ran y defnydd o adnoddau</p> <p>Dealltwriaeth wael o set sgiliau Proffesiynau Perthynol i lechyd. Pwysigrwydd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yn cymhwyso eu set sgiliau i anghenion pobl, i nodi symptomau a thrin, cynghori, cyfeirio neu atgyfeirio yn ôl yr angen neu fel y bo'n briodol</p>	<p><b>Haenu adnodd Proffesiynau Perthynol i lechyd o ran ymyriadau gofynnol a'r set sgiliau angenrheidiol</b></p> <p>Rhaid i arweinwyr system drefnu adnodd Proffesiynau Perthynol i lechyd o ran ymyriadau gofynnol a'u haenu yn erbyn y set sgiliau angenrheidiol, gan alluogi mwy o gydweithredu a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan sicrhau defnydd doeth a'r defnydd gorau posibl o Broffesiynau Perthynol i lechyd</p> <p>Bydd y dull hwn hefyd yn datgelu lle mae bylchau yn y ddarpariaeth Proffesiynau Perthynol i lechyd a lle mae angen adnoddau ychwanegol</p>
Cyllid ad hoc, amrywiad mewn modelau ymarfer a defnydd anghyfartal o adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd	<p><b>Dull gweithredu unffurf sy'n cael ei ddefnyddio'n lleol i gefnogi gwaith cynllunio a chyflawni dan arweiniad clwstwr</b></p> <p>Arweinwyr systemau i sicrhau dull gweithredu unffurf gan ei ddefnyddio'n lleol ar gyfer gwaith cynllunio a chyflawni dan arweiniad clwstwr. Gall y cydgyssylltiad ehangach hwn gefnogi:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwella'r cynnig Proffesiynau Perthynol i lechyd drwy ddarparu gwasanaethau mwy cynaliadwy o ansawdd uwch</li> <li>• Lleihau amrywiad heb gyfiawnhad mewn ymarfer a chanlyniadau clinigol</li> <li>• Lleihau anghydraddoldebau iechyd, gyda mynediad teg a chyfartal ar draws safleoedd</li> <li>• Cynllunio'r gweithlu yn well</li> </ul>



<b>YR EGWYDDORION CRAIDD SYDD EU HANGEN I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O'R GWEITHLU PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD MEWN GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL</b>	
<b>Themâu</b>	<b>Camau i'w Cymryd:</b>
<p>Modelau tîm yn cael eu datblygu yn seiliedig ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Anhawster cael gafael ar gymorth gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd</li> <li>• Datblygu llwybr Gofal Sylfaenol mewn seilos</li> <li>• Canolbwyntio ar arbenigedd ac ymarferwyr clinigol uwch yn lle trawsnewidiad ehangach</li> <li>• Canolbwyntio ar leoliad, gan ddarparu'r un gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn lleoliadau newydd yn lle trawsnewid gweithgaredd yn ehangach a gwneud defnydd ehangach ohonynt</li> </ul>	<p><b>Cytuno ar fframwaith cyfathrebu a modelau tîm</b></p> <p>Gan gydnabod na fydd un model Tîm a fydd yn addas i bawb, rhaid i arweinwyr system sicrhau:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynediad uniongyrchol at ystod ehangach o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a rolau Ymarferydd Therapi Cynorthwyol medrus, fel rhan o gontinwmm Gofal Sylfaenol a Chymunedol</li> <li>• Dull 'arbenigwr cyffredinol' gyda mwy o wybodaeth arbenigol yn y gweithlu ehangach, nid rolau arbenigol yn unig</li> <li>• Cymhwyso fframwaith 'Team Tetris' sy'n cynnwys: Aelodau Gwybodus, Medrus, Ychwanegol ac Arbenigol y gellir eu mapio yn erbyn anghenion Iechyd y boblogaeth leol</li> <li>• Defnydd digidol i gefnogi cydweithio a chyfathrebu amlbroffesiwn ar sail unigolyn a grŵp</li> </ul>
<p>Risgiau gyda'r trefniadau cyflogaeth cyffredol:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cystadleuaeth ymrannol am adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd</li> <li>• Modelau cyflogaeth uniongyrchol ac anghydnaws</li> <li>• Problemau llywodraethu</li> <li>• Diffyg cyfatebiaeth rhwng y defnydd o Broffesiynau Perthynol i Iechyd ac anghenion y boblogaeth</li> <li>• Absenoldeb trefniadau ymarferol ar gyfer datblygu'r gweithlu, symudedd gyrfa a rheoli o ddydd i ddydd fel pobl i weithio tra bydd eraill ar wyliau neu'n absennol</li> </ul>	<p><b>Model cyflogaeth a llywodraethu 'cyflogi i ddefnyddio'</b></p> <p>Dylai arweinwyr system gymhwyso model cyflogaeth a llywodraethu 'cyflogi i ddefnyddio'</p> <p>Ac felly:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Mynd i'r afael â risgiau cysylltiedig megis absenoldeb arweinyddiaeth, datblygu llwybrau mewn seilos, absenoldeb trefniadau llywodraethu clinigol a gostyngiad cysylltiedig yn safon y gymorth gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd a phrofiad y defnyddiwr</li> <li>• Osgoi datblygu marchnad lafur dameidiog a chystadleuol ar gyfer adnodd gweithlu gwerthfawr</li> </ul> <p>Bydd hyn yn cefnogi gwaith cynllunio gweithlu effeithiol ar y cyd â phartneriaid, i ddatblygu a thyfu gofynion Proffesiynau Perthynol i Iechyd gan edrych i'r dyfodol a rhagweld anghenion y boblogaeth</p> <p>Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu model cyllido a chyflogaeth cynaliadwy ar sail system gyfan, a gynhelir gan y bwrdd Iechyd priodol, awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans</p>

<b>YR EGWYDDORION CRAIDD SYDD EU HANGEN I WNEUD Y DEFNYDD GORAU O'R GWEITHLU PROFFESIYNAU PERTHYNOL I IECHYD MEWN GOFAL SYLFAENOL A CHYMUNEDOL</b>	
<b>Themâu</b>	<b>Camau i'w Cymryd:</b>
	Cymru (WAST), gyda gweithgaredd wedi'i drefnu ar y cyd ar draws ardaloedd daearyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac alinio ffrydiau cyllido drwy eu lens hwy.
<p>Pwysigrwydd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yn cymhwyso eu sgiliau i'r anghenion sy'n codi, gyda hyder a chymhwysedd i nodi symptomau a thrin, cynghori, cyfeirio neu atgyfeirio pobl at arbenigwr yn ôl yr angen / fel y bo'n briodol</p> <p>Gofyniad i feysydd datblygu sgiliau Proffesiynau Perthynol i lechyd gael eu llywio gan anghenion y boblogaeth, blaenoriaethau rhanbarthol a gwaith clwstwr er mwyn cefnogi dull 'arbenigwr cyffredinol'</p>	<p><b>Dysgu a datblygu wedi'u llywio gan flaenoriaethau rhanbarthol a gwaith clwstwr, gyda chefnogaeth Academïau Gofal Sylfaenol / Hybiau Hyfforddi Ardal gyda llwybrau hyfforddi / addysg gyson a dibynadwy</b></p> <p>Rhaid i arweinwyr system sefydlu cysylltiadau clir rhwng cynllunio'r gweithlu, addysg a hyfforddiant ynghylch meithrin gallu a'r gallu i wneud y defnydd gorau posibl o Broffesiynau Perthynol i lechyd</p> <p>Bydd hyn yn sicrhau cyflenwad o weithlu Proffesiynau Perthynol i lechyd â'r sgiliau, y cymwyseddau, y gwerthoedd a'r ymddygiadau cywir i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol</p> <p>Bydd gweithio gydag Academïau Gofal Sylfaenol / Hybiau Hyfforddi Ardal sy'n cwmpasu'r gweithlu cyfan, yn gwella addysg ryngbroffesiynol a datblygiad timau</p>

## Cynnwys

Rhagair.....	2
Crynodeb Gweithredol.....	4
Crynodeb Gweithredol: Y Camau sydd eu Hangen .....	6
1. Diben .....	13
2. Strwythur .....	13
3. Adran 1: Y Cyd-destun Cenedlaethol .....	14
3.1 Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru .....	14
3.2 Cyd-destun a Chanllawiau Strategol.....	15
3.3 Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol.....	16
3.4 Dysgu o Adferiad a Gwydnwch yn sgil COVID-19 .....	17
4. Adran 2: Cyd-destun y Proffesiynau Perthynol i Iechyd .....	18
4.1 Y Sefyllfa Bresennol .....	20
4.2 Datblygu'r Gweithlu .....	22
4.3 Cynllunio'r Gweithlu .....	24
4.4 Clefyd y coronafeirws 2019 (COVID-19) .....	25
4.5 Fframwaith adsefydlu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol 2020 i 2021 .....	25
4.6 Model adsefydlu gofal mewn camau.....	26
4.7 Blaenoriaethau sy'n Cystadlu â'i Gilydd .....	28
4.8 Cymru Iach ar Waith .....	30
5. Adran 3: Amodau sy'n ffafriol i wneud y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd .....	31
5.1 Mynediad .....	31
5.2 Cyfathrebu.....	32
5.3 Arweinyddiaeth.....	33
5.4 Datblygiad y Tîm Gofal Sylfaenol.....	34
6. Adran 4.....	37
6.1 Therapïau Celfyddydau.....	38
6.2 Seicotherapi Celf .....	39
6.3 Therapi Cerdd.....	39
6.4 Therapi Drama.....	40
6.5 Deieteg .....	40
6.6 Therapi Galwedigaethol.....	42
6.7 Orthopteg.....	46
6.8 Parafeddygon .....	47
6.9 Ffisiotherapi.....	49
6.10 Podiatreg .....	52

6.11	Prostheteg ac Orthoteg .....	53
6.12	Seicoleg .....	53
6.13	Therapi Lleferydd ac Iaith .....	54
7.	<b>Adran 5: Egwyddorion Craidd Proffesiynau Perthynol i Iechyd</b> .....	57
	<b>Camau Gofynnol i Wneud y Gorau o'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w Gynnig</b> .....	58
8.	<b>Atodiadau</b> .....	61
	Atodiad 1.....	61
	Proffesiynau Iechyd Perthynol a Reoleiddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yng Nghymru ...	61

## 1. Diben

Mae'r papur hwn yn nodi bod Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn rhan hanfodol o ddatblygu modelau a thimau i ddarparu gofal o'r ansawdd uchaf a gwella canlyniadau iechyd.

Mae'r papur hwn yn alwad i weithredu i'r system iechyd a gofal cymdeithasol gyfan o ran rhoi'r egwyddorion craidd ar waith y nodwyd eu bod yn ofynnol er mwyn gwneud y defnydd gorau o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Mae'n siarad yn uniongyrchol â chlinigwyr, rheolwyr gwasanaethau ac arweinwyr, ac â phawb arall sy'n ymwneud â chynllunio a darparu gwasanaethau clinigol.

Yn unol â Strategaethau a Chanllawiau Cenedlaethol, mae'r papur hwn yn benllanw misoedd lawer o ymgysylltu a thrafodaeth sylweddol gyda'r holl randdeiliaid. Gan ystyreid gwersi o'r gorffennol a'r presennol, mae'n disgrifio sut y gall gwell defnydd o wybodaeth a sgiliau unigryw Proffesiynau Perthynol i Iechyd gefnogi Gofal Sylfaenol a Chymunedol i ddarparu system gyfan ar gyfer adferiad a'r math o wasanaethau sy'n bwysig i bobl.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn wynebu heriau sylweddol o ran cael adnodd staff gyda'r capasiti a'r sgiliau i reoli'r galw cynyddol ar draws pob maes. At hynny, heb ddefnydd clir a chyson o ganllaw ar gyfer cynllunio'r gweithlu, mae risg fawr y bydd Cymru'n creu 'marchnad fewnol', lle mae sefydliadau'n cystadlu i gyflogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd cyfyngedig a hynod fedrus. Mae'r papur hwn yn disgrifio'r heriau ac yn gwneud awgrymiadau ar sut i fynd i'r afael â nhw.

Rydym am gael gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd yng Nghymru o'r maint cywir, gyda'r sgiliau cywir, wedi'u trefnu yn y ffordd gywir, sy'n darparu gwasanaethau er mwyn cynnig y gofal gorau posibl i'n poblogaeth. Mae'r Canllawiau Gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd hwn a'i argymhellion yn ein rhoi ar y trywydd iawn i gyflawni hyn.

## 2. Strwythur

Cyflwynir y papur hwn mewn adrannau sydd oll wedi'u cysylltu â'i gilydd mewn ffordd annatod:

Mae **Adran 1** yn gosod y cyd-destun ar gyfer y canllawiau hyn drwy ddarparu disgrifiad byr o ganllawiau cenedlaethol, a sut mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu ym mlaenoriaethau strategol a gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Mae'n amlinellu'r heriau cyfredol a'r datblygiadau diweddaraf mewn polisi cenedlaethol.

Yn **Adran 2** disgrifir pwy yw'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd, yr hyn y maent yn ei gynnig a chrynodeb byr o'r cynnydd hyd yma gan gynnwys yr heriau ar gyfer y dyfodol ac awgrymiadau ynghylch galluogwyr. Cyfeirir at fewnwelediadau yn deillio o ymgysylltu a thrafodaethau. Darperir cyd-destun pellach o ran canllawiau cenedlaethol, blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd, a chyfraniad y Proffesiynau Perthynol i Iechyd at adfer ac adsefydlu ein poblogaeth.

Mae **Adran 3** yn canolbwyntio ar yr amodau sy'n ffafriol i wneud y defnydd gorau o'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd ac yn dwyn ynghyd fewnwelediadau a gafwyd o ymgysylltu, llenyddiaeth ehangach a strategaethau cenedlaethol i gyfres o themâu allweddol sy'n arwain y dull o adeiladu a datblygu'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Ymchwilir i sut y gellir cymhwysu pob thema yn ymarferol.

Yn **Adran 4** rhoddir eglurder ynghylch yr hyn a gynnigir gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth er mwyn llywio a chefnogi galluoedd cynllunio a datblygu i ddiwallu anghenion pobl a blaenoriaethau rhanbarthol.

Mae **Adran 5** yn ystyried pob pennod ac yn darparu'r egwyddorion craidd a argymhellir sy'n ofynnol i wneud y defnydd gorau o'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

### 3. Adran 1: Y Cyd-destun Cenedlaethol

Clefyd y coronafeirws 2019 (COVID-19) yw'r her fwyaf y mae'r system iechyd a gofal wedi'i hwynebu o fewn cof ac mae'n cael effaith sylweddol ar fywydau pob un ohonom. Mae wedi tynnu sylw at y ffaith bod llawer o bobl a chanddynt anghenion gofal cymhleth yn derbyn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ar hyn o bryd gan ddarparwyr lluosog ac mewn gwahanol leoliadau gofal heb gydlyniant priodol, a heb ystyried y darlun cyfan.

Mae'r cynnydd mewn gofynion iechyd a gofal yn darparu heriau sylweddol. Ymhlith y ffactorau sy'n cyfrannu at yr her hon mae galw cynyddol a rhestrau aros hirfaith; cynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion; cynnydd yn y trothwyon ar gyfer atgyfeirio i rannau eraill o'r system iechyd a gofal cymdeithasol; yr angen i ddatblygu technoleg newydd; a phrinder gweithlu.

Yn gadarnhaol, y weledigaeth gyffredin yw llwybr system gyfan di-dor yn seiliedig ar anghenion a hoffterau'r unigolyn, fel nad yw'n gwneud gwahaniaeth pwy sy'n darparu gwasanaethau unigol. Mae'r dull hwn yn golygu mesur y canlyniadau iechyd a llesiant sy'n bwysig i bobl, a defnyddio'r wybodaeth honno i gefnogi gwelliannau a gwneud penderfyniadau gwell ar y cyd er mwyn cyflawni gwell canlyniadau a gwell gwerth am arian.

O ystyried gofynion gweithio ar sail llwybr system gyfan, effaith COVID-19 ar draws grwpiau poblogaeth a ffyrdd amgen sy'n ofynnol yn y gymuned i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol cynaliadwy o ansawdd uchel yn ystod cyfnod o alw cynyddol, ni fu erioed amser pwysicach i wneud y gorau o'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gweithio ar draws pob sector sy'n ymwneud ag iechyd a llesiant gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, iechyd, gofal cymdeithasol, tai, addysg, y sector gwirfoddol, y byd academaidd, cyfiawnder, busnes a phractis preifat. Gyda'i gilydd, mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ffurfio'r trydydd gweithlu mwyaf yn y GIG. Nid yw'n syndod bod strategaethau a chanllawiau cenedlaethol sy'n cydnabod ac yn cynnwys defnyddio Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn eu hargymhellion yn rhai eang eu cwmpas.

Mae'r strategaethau a'r canllawiau cenedlaethol a gynhwysir yn yr adran hon yn adlewyrchu blaenoriaethau strategol a gweithredol Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Maent yn amlinellu'r heriau cyfredol a'r datblygiadau mewn polisi cenedlaethol ynghylch cynllunio a chyflawni ar sail Ardal / Clwstwr Cyfan.

#### 3.1 Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru

*Y Model Gofal Sylfaenol i Gymru* yw'r dull y cytunwyd arno'n genedlaethol i gyflawni uchelgais *Cymru Iachach: Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2018)* wrth ail-gydbwysu'r system

iechyd a gofal. Mae hyn yn newid ffocws gofal o system sy'n canolbwyntio ar yr ysbyty i dull seiliedig ar le, gydag egwyddorion craidd cynllunio gofal yn lleol, mynediad teg, cynaliadwyedd, gwella ansawdd, gweithlu medrus, ac arweinyddiaeth gref yn ganolog iddo.

Mae'r Model Gofal Sylfaenol yn nodi deg egwyddor i'w hystyried. Mae hyn yn cynnwys defnyddio timau lleol wedi'u cydlynu, hyrwyddo byw'n iach drwy wneud llesiant yn rhywbeth llai meddygol, defnyddio dull rhagweithiol ac ataliol, a gofal cyfannol sy'n ymgorffori llesiant corfforol, meddyliol ac emosiynol. Mae'n amlinellu'r gofyniad i ddatblygu cymunedau cefnogol a mynediad hawdd at asedau a gwasanaethau lleol, ynghyd â defnyddio technoleg i wella mynediad at wybodaeth.

Yn nodedig, nid yw'r model yn canolbwyntio ar leoliad penodol darpariaeth, ond yn hytrach ar sut y mae iechyd a gofal cymdeithasol yn cydweithio ac yn gweithio'n agos ar lefel ranbarthol a lleol i ddarparu gofal di-dor yn seiliedig ar le gyda mynediad uniongyrchol at ystod ehangach o gymorth amlbroffesiynol ac ymarferwyr, gan gynnwys Proffesiynau Perthynol i Iechyd, fel pwynt cyswllt cyntaf.

Er mai'r Model Gofal Sylfaenol yw'r dull y cytunwyd arno o hyd i gyflawni nodau Cymru Iachach, mae angen rhoi'r gorau i ddefnyddio iaith sy'n nodi ai ymateb Gofal Sylfaenol neu Ofal Eilaidd ydyw, a symud tuag at system gyfan o wasanaeth cyhoeddus, gan ymgorffori llwybr system gyfan.

Felly, at ddibenion y papur hwn, mae'r term 'mewn Gofal Sylfaenol' yn berthnasol yn ei ystyr ehangaf, gan gwmpasu continwwm o ddarpariaeth Gofal Sylfaenol a Chymunedol fel rhan o'r llwybr system gyfan hwn.

### 3.2 Cyd-destun a Chanllawiau Strategol

Mae'r *Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru (2018)*,<sup>1</sup> yn amlinellu'r achos dros newid y ddarpariaeth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae'n disgrifio'r angen i ddod â gwasanaethau at ei gilydd yn ddi-dor, eu cynllunio ar sail anghenion unigolion, gan roi mwy o bwyslais ar gadw pobl yn iach. Cymru Iachach oedd yr ymateb i hyn ac mae'n nodi'r bwriad i greu modelau newydd o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor.

Mae clystyrau yn ganolog i'r model hwn sy'n seiliedig ar leoliad a gellir eu diffinio'n syml fel a ganlyn:

*Mae clwstwr yn dod â'r holl wasanaethau lleol sy'n gysylltiedig ag iechyd a gofal at ei gilydd ar draws ardal ddaearyddol, ardaloedd sy'n gwasanaethu poblogaeth o rhwng 25,000 a 100,000 fel arfer. Mae gweithio fel clwstwr yn sicrhau bod gofal yn cael ei gydlynu'n well i hyrwyddo llesiant unigolion a chymunedau.*

Bwriad y dull cynllunio a chyflawni 'dan arweiniad clwstwr' hwn yw peidio â chreu Llwybr Gofal Sylfaenol mewn seilo, ond yn hytrach darparu gwasanaethau iechyd a llesiant cydweithredol di-dor sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrraeth gynnar. Mae hyn yn cefnogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch gofalu am eu hunain ac aros yn annibynnol, a sicrhau bod ganddynt fynediad amserol i'r gweithiwr proffesiynol neu'r gwasanaeth gorau i ddiwallu eu hangen penodol. Mae'r canlynol yn n o'r camau gweithredu allweddol:

<sup>1</sup> [Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru \(2018\)](#)

*Bydd clystyrau yn parhau i ddatblygu modelau o waith partneriaeth lleol di-dor, gan weithio'n agos gyda'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol i hyrwyddo ffyrdd trawsnewidiol o weithio, fel eu bod yn cael eu mabwysiadu ar draws Cymru*

Er mwyn gwireddu'r uchelgais hon, mae'r *Nod Pedwarplyg* yn ganolog i Gymru Iachach. Mae hyn yn disgrifio pedair thema cydgysylltiedig sy'n helpu i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth o'r trawsnewidiad sy'n ofynnol ar draws y system gyfan a sut mae newid yn cael ei flaenoriaethu er mwyn: gwella iechyd a llesiant y boblogaeth; darparu gwasanaethau o ansawdd sy'n fwy hygyrch; cynyddu gwerth gofal a chymorth; a sicrhau gweithlu brwd a chynaliadwy.

Gan adeiladu ar Gymru Iachach, mae *Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru COVID-19: Edrych tua'r Dyfodol*<sup>2</sup> yn nodi'r pileri ar gyfer adeiladu 'system gyfan' ar gyfer adferiad. Mae'r ddogfen hon yn atgyfnerthu'r angen am Ofal Sylfaenol a Chymunedol ymatebol, di-dor ac wedi'i drefnu ar sail anghenion unigolion. Mae'n tynnu sylw at y ffaith bod ffocws ar waith atal a llesiant, ar draws iechyd corfforol a meddyliol, yn hollbwysig i'r ffordd y byddwn yn ailadeiladu gwasanaethau ac yn darparu gofal.

Yn nodedig, mae'r ddogfen hon yn nodi bod dull ambroffesiynol yn hanfodol i ddiwallu anghenion pobl, gan sicrhau eu bod yn gallu cael gafael ar y person iawn, ar yr adeg iawn yn y lle iawn. Noda fod Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn rhan hanfodol o ddatblygu modelau a thimau i ddarparu gofal o'r ansawdd uchaf a gwella canlyniadau iechyd, gan dynnu sylw at eu rôl wrth gefnogi hunanreolaeth, ymgynghoriadau o bell mewn grwpiau a mabwysiadu dull rhagweledol ataliol o ddarparu cymorth. Adleisiwyd yr argymhellion hyn yn rhaglen ymrwymadau Llywodraeth Cymru yn 2021 er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n ein hwynebu ac er mwyn gwella bywydau pobl ledled Cymru.

Ochr yn ochr â Chymru Iachach, ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru COVID-19, mae'r *Fframwaith Clinigol Cenedlaethol: System Iechyd a Gofal sy'n Dysgu*<sup>3</sup> yn gosod fframwaith i gefnogi cynllunio a darparu gwasanaethau clinigol gwydn gan ddefnyddio llwybrau sy'n seiliedig ar oes gyfan a system gyfan, gyda darpariaeth leol yn unol â nodweddion y boblogaeth a'r gweithlu. Cydnabyddir Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd fel aelodau allweddol o'r gweithlu gofynnol yn hyn o beth, gan sicrhau ymateb ambroffesiynol cydweithredol i ddiwallu anghenion a chymorth gweithredu a nodwyd.

### 3.3 Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

Mewn ymateb i Gymru Iachach a'r alwad i sicrhau bod y Model Gofal Sylfaenol i Gymru yn bwrw greiddiau'n llawn, datblygwyd y *Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol*<sup>4</sup> gydag uwch arweinwyr gofal sylfaenol mewn byrddau iechyd ac yn Llywodraeth Cymru.

Gan ganolbwyntio ar gyflawni'r Model Gofal Sylfaenol, ei nod yw dwyn ynghyd a datblygu'r holl strategaethau ac adolygiadau gofal sylfaenol blaenorol yn gyflymach ac yn ehangach, yn ogystal â mynd i'r afael â blaenoriaethau sy'n dod i'r amlwg. Gan weithio ar y cyd â rhanddeiliaid ar draws

<sup>2</sup> [Gwella iechyd a gofal cymdeithasol \(COVID-19 edrych tua'r dyfodol\) | LLYW.CYMRU](#)

<sup>3</sup> [Fframwaith clinigol cenedlaethol: system iechyd a gofal sy'n dysgu | LLYW.CYMRU](#)

<sup>4</sup> [Rhaglen Strategol ar Gyfer Gofal Sylfaenol.pdf \(wales.nhs.uk\)](#)



darparwyr iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, gan rannu mentrau, cynhyrchion ac atebion lleol, a allai ychwanegu gwerth at ddarparu gwasanaethau gofal sylfaenol ar sail 'unwaith i Gymru'.

Yn nodedig, yn ystod y pandemig, mae newid wedi digwydd mewn gofal sylfaenol a chymunedol ar gyflymder sy'n gyson â'r Model Gofal Sylfaenol i Gymru.<sup>5</sup>

### 3.4 Dysgu o Adferiad a Gwydnwch yn sgil COVID-19

Un o egwyddorion sylfaenol y Model Gofal Sylfaenol i Gymru yw datblygu gwytnwch unigolion a'r gefnogaeth y gallant ei chael gan eu cymunedau. Gan symud i 2021/22, mae *Papur The King's Fund, 'Covid-19 recovery and resilience: what can health and care learn from other disasters?'*<sup>6</sup> yn nodi bod adferiad llwyddiannus a chynaliadwy yn bosibl yn sgil buddsoddiad yng ngwytnwch cymunedau a dulliau a arweinir gan y gymuned. Mae ffocws ymwybodol ar gydweithio ar draws asiantaethau, sefydliadau a gwasanaethau, ac ar adeiladu mwy o wytnwch ac adferiad cymunedol drwy alluogi unigolion a chymunedau i gael yr iechyd gorau posibl i ymdopi â'r hyn a ddaw nesaf.

Mae hyn yn gyson â Cymru Iachach ac wrth wraidd y Model Gofal Sylfaenol ar gyfer Cymru a chynllunio a chyflawni ar sail Ardal / Clwstwr.

Yn y cyd-destun hwn, mae'r adran isod yn nodi'r egwyddorion sy'n sail i'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol yn y dyfodol:

#### Egwyddorion Sylfaenol y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol

- ❖ **Ymateb wedi'i arwain gan anghenion** - sicrhau nad ydym yn 'gor-feddyginiaethu' a bod unrhyw ymateb iechyd yn ymateb uniongyrchol i'r angen. Canolbwyntio ar anghenion yr unigolyn a'i ganlyniadau. Dylai llwybrau system gyfan nodi pwy yw'r person gorau i'w weld yn y lle iawn.
- ❖ **Gwaith atal a llesiant** - ddylai fod yn llywio popeth a wnawn. Ystyriwch yr holl ffactorau sy'n effeithio ar fywyd unigolyn, er mwyn cynyddu ei hiechyd a'i llesiant i'r eithaf.
- ❖ **Ymarfer darbodus** - O ystyried gofynion gwaith ar y llwybr cyfan, mae'n rhaid i ni wneud y mwyaf o botensial y gweithlu ehangach. Mae angen i ni wneud y gorau o'r hyn sydd gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd, y proffesiwn nyrsio, y gweithlu mewn awdurdodau lleol a'r trydydd sector a'r sector annibynnol i'w gynig.
- ❖ **Cydweithio rhwng clystyrau** - dylai'r holl wasanaethau lleol ar gyfer iechyd a llesiant - y GIG, yr awdurdod lleol a'r trydydd sector a'r sector annibynnol - gydweithio â'i gilydd a chyda gwasanaethau ysbytai i gynllunio a darparu gofal integredig yn agos at adref yn unol â *Cymru Iachach*.

<sup>5</sup> [NHS-Wales-COVID-19-innovation-transformation-study-annex-DP.pdf \(nhsconfed.org\)](#)

<sup>6</sup> [Covid-19 recovery and resilience: what can health and care learn from other disasters? \(kingsfund.org.uk\)](#)

At hynny, yn seiliedig ar y gwaith hyd yma yn y Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol a'r hyn a ddysgwyd o'r pandemig, mae'r blaenoriaethau canlynol wedi'u cymeradwyo:

### **Blaenoriaethau Strategol y Rhaglen - Gofal yn Agosach at y Cartref**

❖ Gofal Sylfaenol Brys	}	Dysgu o Covid-19
❖ Seilwaith Cymunedol		Tystiolaeth y King's Fund
❖ Llesiant Meddyliol		Cymru Iachach
❖ Datblygu Clystyrau		Model Gofal Sylfaenol i Gymru

Mae'r rhaglen datblygu clystyrau yn ceisio dod â'r rhanddeiliaid ehangach mewn clwstwr ynghyd i ystyried anghenion iechyd a llesiant y boblogaeth a'r asedau sydd ar gael, a'r rhai sy'n ofynnol, yn y gymuned leol. Gwneud y gorau o arbenigedd, gallu a photensial pobl, teuluoedd a chymunedau wrth sicrhau gwell canlyniadau a phrofiadau.

Mae'r rhaglen seilwaith cymunedol yn sail i ddatblygiad clystyrau ac yn anelu at greu trefniadau cydweithio ar draws proffesiynau, asiantaethau, sefydliadau a gwasanaethau o fewn y lleoliad seilwaith cymunedol. Meithrin mwy o wytnwch ac adferiad cymunedol drwy alluogi unigolion a chymunedau i fod mor iach â phosibl i ymdopi â'r hyn a ddaw nesaf.

Wrth i ni symud tuag at adferiad ac aildrefnu, ac wrth i gynlluniau adfer gael eu datblygu, mae'n hanfodol y gwneir y gorau o'r hyn y mae'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn ei gynnig wrth ddarparu gwasanaethau adfer ac adsefydlu ledled Cymru a bod hyn â'i wreiddiau yn y gymuned ac yn gweithredu fel system gyfan.<sup>7</sup> Rhaid gwneud ymdrech i ganolbwyntio ar gydweithio a gwytnwch cymunedol, yn seiliedig ar anghenion ein poblogaeth, yng nghyd-destun yr effaith ar eu bywydau a'r canlyniadau sy'n bwysig iddynt.

Mae angen egwyddorion craidd ar gyfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd er mwyn cyflawni'r uchelgais hon. Mae angen i'r rhain ddarparu'r cydbwysedd cywir rhwng datrysiadau rhanbarthol a diwallu anghenion cymhleth (y mae angen ei gynllunio a'i drefnu'n effeithiol dros ardal fwy na 'lle'), ochr yn ochr ag atebion lleol ac arloesi, sy'n lleihau amrywioldeb.

## **4. Adran 2: Cyd-destun y Proffesiynau Perthynol i Iechyd**

Yng Nghymru, mae'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn 13 o broffesiynau unigol sy'n cael eu rheoleiddio gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal.<sup>8</sup> Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gweithio gyda phobl o bob oed, o'u genedigaeth hyd at ddiwedd oes, gan eu grymuso a'u galluogi i reoli eu llesiant eu hunain ac atal neu leihau effaith salwch ac anabledd seicolegol a chorfforol.

<sup>7</sup> [Fframwaith cynllunio GIG Cymru 2021 i 2022 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>8</sup> Proffesiynau Perthynol i Iechyd: therapyddion celf, therapyddion drama, therapyddion cerdd, podiatryddion, deietegwyr, therapyddion galwedigaethol, orthoptyddion, prosthetyddion, orthotegwyr, parafeddygon, ffisiotherapyddion, therapyddion lleferydd ac iaith, seicolegwyr.

Yn nodedig, mae gan Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd hanes o ehangu eu cynnig clinigol, megis therapïau pigiadau a phresgripsiynu annibynnol, ac mae ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar hyn o bryd ar gynigion i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd gael mynediad mwy effeithlon ac ymatebol at feddyginiaethau. Mae cyflwyno Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sydd â gwybodaeth a sgiliau datblygedig mewn ymarfer clinigol, fel rhan o gontinwwm y cynnig Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol, yn gwella mynediad at ddiagnosis a thriniaeth gynnar, yn gwella canlyniadau sy'n bwysig i bobl, yn meithrin gallu, ac yn lleddfu pwysau ar y gweithlu, gan bontio'r bylchau yn y gweithlu ac ategu gwaith ymarferwyr cyffredinol.

Mae set sgiliau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn cwmpasu iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, gan roi ffocws ar atal ac ymyrraeth gynnar. Gall Proffesiynau Perthynol i Iechyd gefnogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch gofalu amdanynt eu hunain ac aros yn annibynnol, a sicrhau bod ganddynt fynediad amserol i'r gweithiwr proffesiynol gorau neu'r gwasanaeth gorau i ddiwallu eu hangen penodol.

Mae *Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd Cymru: Edrych Ymlaen Gyda'n Gilydd*<sup>9</sup> a gyhoeddwyd yn 2020 yn nodi ymateb strategol Proffesiynau Perthynol i Iechyd i Cymru Iachach, ac yn defnyddio'r Nod Pedwarplyg fel cysyniad creiddiol i ddisgrifio'r trawsnewidiad sy'n ofynnol yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol.

Mae Ffigur 1 yn tynnu sylw at y chwe Egwyddor Fframwaith ar gyfer Trawsnewid, sef bod yn rhaid i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd:

- ✓ gael eu defnyddio'n fwy effeithiol
- ✓ bod ar gael yn haws ac yn uniongyrchol drwy waith cynllunio system gyfan
- ✓ cyfrannu at iechyd, llesiant a gwytnwch y boblogaeth
- ✓ gweithio hyd eithaf eu gallu gydag arweinyddiaeth weladwy a thosturiol, i drawsnewid gwasanaethau a chymhwyso egwyddorion gofal iechyd darbodus.

Mae gwerth Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, fel yr amlygwyd yn Cymru Iachach a'r Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar gyfer Cymru, yn cael ei ehangu ymhellach yn fframwaith strategol iechyd cyhoeddus proffesiynau perthynol i iechyd y DU (*UK AHP Public Health Strategic Framework*<sup>10</sup>), a gyhoeddwyd yn 2019, sy'n adeiladu ar strategaeth a pholisi cenedlaethol blaenorol.<sup>11 12</sup>



Ffigur 1. Chwe Egwyddor Craidd ar gyfer Trawsnewid y Proffesiynau Perthynol i Iechyd

Mae'r dogfennau hyn i gyd yn pwysleisio rôl hanfodol Proffesiynau Perthynol i Iechyd wrth gefnogi'r trawsnewidiad gofynnol i system 'iach' sy'n anelu at gefnogi a rhagweld anghenion iechyd, atal

<sup>9</sup> Fframwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd | LLYW.CYMRU

<sup>10</sup> UK Allied Health Professions Public Health Strategic Framework 2019 - 2024

<sup>11</sup> Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

<sup>12</sup> Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol | LLYW.CYMRU

salwch a lleihau effaith iechyd gwael. Maent yn tynnu sylw at yr angen i drawsnewid y dull gweithredu o driniaeth i atal, a grymuso pobl a chymunedau i reoli eu llesiant eu hunain a meithrin gwytnwch.

#### 4.1 Y Sefyllfa Bresennol

I gydnabod y ffaith bod gwasanaethau Gofal Sylfaenol yn darparu'r pwynt gofal cyntaf, ddydd neu nos, i fwy na 90% o bobl sy'n cysylltu â'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru, mae nifer o fodolau a dulliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd newydd wedi dod i'r amlwg yn y blynyddoedd diwethaf i ddarparu dealltwriaeth o set sgiliau'r gweithwyr hyn a'r cynnig cyfatebol mewn Gofal Sylfaenol. Yn ogystal, maent yn disgrifio'r amodau sy'n ffafriol er mwyn gwneud y gorau o'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig. Mae'r rhain yn cynnwys:

- datblygu modelau cylchdro ar draws lleoliadau;
- defnyddio Uwch Ymarferwyr Clinigol ac ymarferwyr Proffesiynau Perthynol i Iechyd gyda lefelau uwch o ymarfer clinigol mewn Ymarfer Cyffredinol, mewn rhai achosion yn gweithredu fel Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf;
- cydleoili timau ambroffesiynol; a modelau mynediad uniongyrchol.

Yn cefnogi'r rhain mae nifer o ffynonellau cyllid, gan gynnwys y Rhaglen Pennu Cyfeiriad Gofal Sylfaenol Cenedlaethol<sup>13</sup>, y Gronfa Gofal Integredig<sup>14</sup>, a'r Gronfa Drawsnewid.<sup>15</sup>

Mae rhai o'r modelau hyn wedi deillio o gyd-destun lleol, gan gynnwys drwy Glystyrau Gofal Sylfaenol<sup>16</sup>, gan ddarparu gwell canlyniadau sy'n bwysig i bobl, a gellir eu hehangu i lefel ranbarthol a chenedlaethol gan fynd i'r afael ag anghenion gwahanol grwpiau, gan ymateb hefyd i ddewisiadau lleol a chyfleoedd lleol.

Cyfeirir at enghreifftiau o arfer a argymhellir ac arfer da o ran defnyddio Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol ledled Cymru yng nghanllaw adsefydlu'r Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol i wasanaethau gofal sylfaenol a chymunedol o ran y grwpiau agored i niwed hynny y nodwyd bod ganddynt risgiau uwch o ddiodeff effeithiau COVID-19.<sup>17</sup> Yn ogystal, mae enghreifftiau llwyddiannus o drawsnewid Gwasanaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd gyda modelau mynediad uniongyrchol mewn Gofal Sylfaenol fel rhan o gontinwmm darpariaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd.<sup>18 19</sup>

Fodd bynnag, mae'r prif drywydd wedi canolbwyntio'n benodol ar rolau arbenigol neu uwch, yn hytrach na'r weledigaeth hirdymor y bydd Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn dod yn gyd-destun arferol ar gyfer cyfran sylweddol o'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gyda'r ystod lawn o lefelau ymarferwyr.

<sup>13</sup> Pennu Cyfeiriad - Gofal Sylfaenol Un ([nhs.wales](https://nhs.uk))

<sup>14</sup> Cronfa gofal integredig: Canllawiau 2020 | [LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru)

<sup>15</sup> Cronfa trawsnewid iechyd a gwasanaethau cymdeithasol 2018 i 2021 | [LLYW.CYMRU](https://www.llyw.cymru)

<sup>16</sup> [Ardal Clwstwr - Gofal Sylfaenol Un \(nhs.wales\)](https://nhs.uk)

<sup>17</sup> [Canllawiau Adsefydlu ar gyfer Grwpiau Agored i Niwed y nodwyd bod ganddynt risgiau uwch o effeithiau COVID-19 | Rhaglen Strategol ar gyfer Gofal Sylfaenol](#)

<sup>18</sup> [Advancing-Healthcare-Awards-Wales-Winners-Guide-2019 \(ahawards.co.uk\)](https://www.ahawards.co.uk)

<sup>19</sup> [AHA-Winners-Guide-2020](#)

Er bod Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sydd â lefelau uwch o ymarfer clinigol yn darparu opsiwn i leihau amseroedd aros cyswllt cyntaf ar gyfer Ymarferwyr Cyffredinol, yn hollbwysig, cyfeiriad y polisi cenedlaethol yw bod lleoliadau gofal Sylfaenol a Chymunedol yn dod yn 'weithleoedd arferol' ar gyfer hyfforddiant cychwynnol, fel lleoedd cyffredin i ddechrau cyflogaeth neu i weithio drwyddynt, yn ogystal â datblygu gyrfaeodd o'u mewn. Byddai'r lleoliadau hyn yn cwmpasu staff a rolau ar bob cam gyrfa, gan gynnwys gweithwyr cymorth o brifysgolion a rhai ambroffesiynol, a fyddai oll yn aelodau allweddol o'r timau sy'n datblygu ac yn gweithredu yn y lleoliadau hyn. Byddai hyn yn galluogi dull system gyfan, hyblyg o gwrdd â gofynion y gweithlu, gan gynnwys y strwythurau llywodraethu priodol gofynnol ar gyfer gweithio ar lwybr system gyfan.

Yn arwyddocaol, mae cwmpasu ymarfer cyfredol a dysgu o'r dystiolaeth a gwerthusiadau arfer gorau yn datgelu bod y defnydd o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol yn cael ei ddylanwadu ar hyn o bryd gan argaeledd, traddodiadau ymarfer a dealltwriaeth o set sgiliau'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd o ran diwallu anghenion iechyd y boblogaeth, yn ogystal â ffynhonnell ariannu gysylltiedig.

Mae set sgiliau neu gynnig y Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn aml wedi'u teilwra yn unol â'r gwerth a'r effaith a bennir gan y ffynhonnell y daw'r cyllid ohoni, a mesuriadau proses cysylltiedig y darparwyr. Efallai na fydd hyn yn cyfateb i anghenion iechyd y boblogaeth na'r canlyniadau sydd o bwys i'r sawl sy'n derbyn gofal iechyd. Yn ogystal, mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn aml yn ei chael hi'n anodd cyfleu'n gryno yr effaith ar lefel y boblogaeth, sy'n hanfodol er mwyn pennu gwerth a llywio'r ffocws ar gynaliadwyedd a thrawsnewid.

Mae hyn wedi arwain at nifer o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol sy'n gysylltiedig â rhyddhau capasiti Ymarferwyr Cyffredinol a chynaliadwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, gan gyfyngu ar wireddu gwasanaethau'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd a chreu cystadleuaeth am adnoddau ar draws y gwasanaethau hyn. Er bod enghreifftiau o ddatblygiadau o ran llwybr Gofal Sylfaenol Proffesiynau Perthynol i Iechyd, maent yn tueddu i gael eu cychwyn ar eu pen eu hunain ac ar sail ad hoc, heb strategaeth ymadael pe bai'r cyllid yn cael ei adleoli i ganolbwyntio ar anghenion amgen.

Ar ben hynny, gellir lleihau'r defnydd o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd drwy fabwysiadu model wedi'i dargedu ar sail sesiynol, gan gyfyngu'n sylweddol ar ymyrraeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r defnydd o set sgiliau, a chyfyngu ar y cyfraniad at ddatblygiad y Tîm Gofal Sylfaenol.

Dywedir bod ffrydiau cyllido llwybr diagnostig gofal eilaidd Proffesiynau Perthynol i Iechyd presennol yn rhwystr i drawsnewid y system gyfan. Mae'r rhain yn creu annhegwch o fewn olion traed y Bwrdd Iechyd ar gyfer rhai llwybrau diagnostig, yn ogystal â'i gwneud yn anodd defnyddio adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn ddarbodus a thrawsnewid y gwasanaeth yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol. Gellir hefyd ystyried bod yr awgrym o 'gyllidebau rhithwir' yn seiliedig ar le yn rhwystr i ddefnyddio'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn ddoeth ar draws ôl troed daearyddol y bwrdd iechyd, gan ei fod yn cyfyngu ar y gallu i ymateb yn hyblyg i anghenion a galw sy'n datblygu, yn ogystal â chyfyngu ar gyfleoedd i arloesi a thrawsnewid.

Fodd bynnag, dylid nodi bod yr archwiliad arfaethedig o gyllidebau ar sail ardal wedi datblygu mewn rhai meysydd oherwydd y canfyddiad bod blaenoriaethu adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn canolbwyntio ar ofal eilaidd. Enghraifft o hyn fyddai tynnu gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol yn ôl mewn ymateb i'r pandemig COVID-19. Yn sicr, mae sgiliau

Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd fel gwneuthurwyr penderfyniadau clinigol wedi'u cydnabod o ganlyniad i'r pandemig, ac mae hyn wedi dylanwadu ar y defnydd o Broffesiynau Perthynol i Iechyd a'u defnyddio mewn Gofal Sylfaenol ynghyd â'u defnydd mewn gofal eilaidd i gefnogi 'llif cleifion'.

Gyda gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd eisoes yn gyfyngedig, ac yn aml ynghlwm wrth fesurau darparu gwasanaeth ehangach e.e. Mesur Iechyd Meddwl (Cymru),<sup>20</sup> gwelwyd bod cyllid tymor byr hefyd yn ddi-fudd o ran Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ymateb i gyfleoedd sy'n datblygu, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig lle mae'r gallu i 'ôl-lenwi' a chefnogi arloesedd drwy adleoli cysylltiedig yn cael ei gyfaddawdu'n ddifrifol. Mae ffocws ar roi'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd hynny sydd â sgiliau ymarfer clinigol uwch mewn rolau penodol mewn Gofal Sylfaenol, yn hytrach nag ar drawsnewid continwwm gwasanaeth y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gan greu risg i wasanaethau presennol, yn ogystal ag absenoldeb arweinyddiaeth ac arbenigedd o fewn gwasanaethau gofal eilaidd.

At hynny, mae'n anffodus bod cyfleoedd i archwilio ac ehangu'r defnydd o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol drwy'r Academiâu Gofal Sylfaenol sy'n datblygu yn gyfyngedig ar hyn o bryd oherwydd materion yn ymwneud â chynaliadwyedd cyllid. Fel enghraifft o hyn, mae prosiectau sy'n dibynnu ar ryddhau capasiti ymarferwyr cyffredinol a chynaliadwyedd GMS yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n cefnogi datblygu gwasanaeth iechyd a llesiant di-dor, oherwydd yr eglurder cyfredol y mae'r cyntaf yn ei ddarparu ynghylch strategaeth ymadael ar gyfer cyllid. Gall hyn arwain at ddatblygu llwybrau Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol ar ffurf seilos, yn lle continwwm system gyfan o ddarpariaeth ddi-dor yn seiliedig ar le.

O ganlyniad, mae'r gwaith o drawsnewid model y ddarpariaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol wedi'i gyfaddawdu ar hyn o bryd.

## 4.2 Datblygu'r Gweithlu

Yn 2020, cyhoeddodd Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) a Gofal Cymdeithasol Cymru *Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol*.<sup>21</sup>

Mae hyn yn darparu fframwaith strategol sy'n rhoi llesiant wrth wraidd cynlluniau ar gyfer y GIG a gweithlu Gofal Cymdeithasol. Nod y saith thema yw darparu gweithlu ymgysylltiedig, cynaliadwy, hyblyg ac ymatebol i ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol rhagorol. Mae'r themâu fel a ganlyn:

<sup>20</sup> [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\)](#)

<sup>21</sup> [Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol \(2020\)](#)

### **Saith Thema Strategaeth y Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

- ❖ **Gweithlu sy'n Ymgysylltu, yn Llawn Cymhelliant ac yn Iach**
- ❖ **Denu a Recriwtio**
- ❖ **Modelau Gweithlu Di-dor**
- ❖ **Adeiladu Gweithlu sy'n Barod yn Ddigidol**
- ❖ **Addysg a Dysgu Rhagorol**
- ❖ **Arweinyddiaeth ac Olyniaeth**
- ❖ **Cyflenwad a Siâp y Gweithlu**

Yn bwysicach, mae canllawiau AaGIC *Cynllunio gweithlu'r clwstwr gofal sylfaenol*<sup>22</sup> (wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio ar y cyd â thempled cynllunio gweithlu'r clwstwr<sup>23</sup>), yn nodi'r egwyddorion sy'n ategu'r gofynion allweddol ar gyfer cynllunio'r gweithlu yn effeithiol:

### **Egwyddorion sylfaenol canllaw cynllunio gweithlu'r clwstwr Gofal Sylfaenol**

- ❖ Sicrhau cyflenwad o weithlu sydd â'r sgiliau a'r cymhwysedd i ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth
- ❖ Datblygu cysylltiadau gweithio gwell o fewn y sefydliad a gyda'r holl bartneriaid
- ❖ Darparu ffocws ar gyfer dulliau ar y cyd o ddatblygu'r gweithlu gan gynnwys datblygu gwaith trawsffiniol a thraws-broffesiynol
- ❖ Manteisio i'r eithaf ar sgiliau presennol y staff a nodi anghenion sgiliau'r dyfodol
- ❖ Cyfrannu at ddarparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon ar draws y system gyfan
- ❖ Gwella'r broses o recriwtio a chadw staff

Yn unol â swyddogaethau statudol AaGIC yn ymwneud ag addysg a hyfforddiant, gwella'r gweithlu, strategaeth a chynllunio, gweledigaeth AaGIC ar gyfer Gofal Sylfaenol yw harneisio fframwaith addysg a hyfforddiant Gofal Sylfaenol. Bydd gofynion dysgu a datblygu'r gweithlu yn cael eu llywio gan flaenoriaethau rhanbarthol a gweithio ar ffurf clystyrau, gyda chefnogaeth Academiâu Gofal Sylfaenol / Hybiau Hyfforddi Ardal, gyda llwybrau hyfforddi / addysg cyson a dibynadwy a fydd yn cwmpasu'r gweithlu cyfan, gan gynnwys Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Bydd hyn yn gwella addysg

<sup>22</sup> [Cynllunio gweithlu clwstwr gofal sylfaenol – AaGIC \(nhs.wales\)](#)

<sup>23</sup> [HEIW primary-care-cluster-workforce-planning-template](#)

rhyngbroffesiynol a datblygiad timau; yn galluogi'r gweithlu cyfan i ddefnyddio dull cyffredin sy'n herio ymddygiad traddodiadol o ddarparu gofal, ac yn cefnogi cynllunio a datblygu'r gweithlu.

Mae'n hollbwysig sicrhau bod gan yr holl weithwyr proffesiynol wybodaeth a hyfforddiant cyfoes, sy'n eu galluogi i drawsnewid a darparu cyfundrefnau gofal newydd a chyflawni egwyddorion Cymru Iachach. Bydd cydnabod Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol yn gofyn am ddatblygu sgiliau er mwyn cefnogi darpariaeth ac ehangu'r ystod o wasanaethau a gynigir, gan eu grymuso i ymateb i her a chyfleoedd sy'n seiliedig ar anghenion y boblogaeth leol.

Ar hyn o bryd, mae ystyried yr hyn a ddysgwyd o'r dystiolaeth, cynlluniau pennu cyfeiriad Proffesiynau Perthynol i Iechyd sy'n canolbwyntio ar y gweithlu, a chydweithio â chyrff proffesiynol i gyd yn llywio gofynion dysgu Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd, ac mae hefyd yn llywio'r fframweithiau credydau proffesiynol ac ambroffesiynol priodol. Dylai pob fframwaith credadwy fynegi'r dysgu (h.y. gwybodaeth, sgiliau ac ymddygiad) y mae'n ofynnol i unigolyn a phroffesiwn ei gwblhau'n llwyddiannus, er mwyn darparu'r safon ofynnol o ymarfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol, yn ogystal ag o fewn y tîm Gofal Sylfaenol priodol.

### 4.3 Cynllunio'r Gweithlu

Mae *System Adrodd Genedlaethol Cymru ar y Gweithlu (WNWRS)*<sup>24</sup> yn galluogi Clystyrau Gofal Sylfaenol a Phractisau Cyffredinol i gael gafael ar wybodaeth am siâp eu gweithlu presennol i gefnogi cynllunio effeithiol. Er nad yw Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a gyflogir gan fyrddau Iechyd neu Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwylans Cymru (WAST), gan gynnwys y rhai a gyflogir fel rhan o Gytundeb Lefel Gwasanaeth penodol yn cael eu cynnwys yn y system hon, mae trafodaethau yn mynd rhagddynt o ran sut mae WNWRS yn cofnodi gweithlu'r Ardaloedd / Clystyrau. Yn ddefnyddiol, mae hefyd yn darparu darlun lleol yn ogystal â chenedlaethol o'r Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd hynny a gyflogir yn uniongyrchol gan Glystyrau neu Bractisau.

Mae'n werth nodi, fodd bynnag, nad yw'r model, y sgiliau a'r cymwysterau ar gyfer y Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd hyn a gyflogir yn uniongyrchol gan Glystyrau neu Bractisau ac a gynhwysir yn WNWRS o reidrwydd yn cyd-fynd â rolau cyfatebol mewn byrddau Iechyd, gofal cymdeithasol neu WAST. Mae fframweithiau llywodraethu clinigol priodol, sy'n sicrhau bod systemau a phrosesau priodol ar waith i fonitro ymarfer clinigol a diogelu gofal o ansawdd uchel, yn aneglur neu'n absennol. Mae hyn nid yn unig yn cyfyngu ar eu gallu i gyfrannu at wasanaeth Iechyd a llesiant system gyfan di-dor, ond mae hefyd yn peryglu eu cyfraniad at wella ansawdd y cymorth a ddarperir gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Mae hyn yn arwain at wrthdroi risg, dyblygu diangen, atgyfeirio amhriodol, ac arosiadau ychwanegol i'n poblogaeth.

Mae modelau Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a gyflogir o dan Gytundebau Lefel Gwasanaeth hefyd yn cyflwyno heriau o ran trawsnewid i lwybr system gyfan. Mae amserlenni cyllido yn aneglur, tra bod y ffynhonnell cyllido yn pennu'r ffocws ar gyfer defnyddio Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gan arwain at beidio â manteisio i'r eithaf ar eu sgiliau na'u cyfateb ag anghenion

<sup>24</sup> [System Adrodd Genedlaethol Cymru ar y Gweithlu](#)



iechyd y boblogaeth. Mae yna anawsterau hefyd o ran sicrhau nifer briodol o bobl i weithio yn absenoldeb eraill lle mae swydd yn gweithredu mewn seilo.

Serch hynny, dull cynllunio'r gweithlu sy'n seiliedig ar strategaeth, egwyddorion, arweiniad a gweledigaeth AaGIC, gyda gwaith tîm amlbroffesiynol, yw'r model gweithredol craidd ar gyfer Gofal Sylfaenol yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae'r model hwn yn cydnabod y bydd y gweithlu, safbwynt gweithredol, yn dod o wahanol sefydliadau o fewn ôl troed y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Mae'r olaf yn allweddol i ddarparu goruchwyliaeth a chyfatebiaeth â'r weledigaeth a ffrydiau cyllido drwy lens pob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan alluogi llwybr system gyfan o ran cynllunio a chyflawni ar sail Ardal/Clwstwr.

Yn bwysig, byddai hyn yn osgoi'r angen i gyflogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn uniongyrchol ac mewn modd anghydnaws y tu allan i fyrddau iechyd, gofal cymdeithasol a WAST.

#### 4.4 Clefyd y coronafeirws 2019 (COVID-19)

Gydag effeithiau hirdymor y pandemig ar iechyd, mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ymwybodol o drywydd presennol gweithgaredd Gofal Sylfaenol a'r galw am ei wasanaethau. O ganlyniad, mae'r holl gynlluniau adsefydlu i liniaru effeithiau'r pandemig yn cyd-fynd â'r Strategaeth Genedlaethol a chanllawiau ar ddarparu gofal cydweithredol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn mor agos i'r cartref â phosibl. Mynediad at weithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a chymunedol lleol presennol, ac atgyfeirio pobl at wasanaethau arbenigol eraill neu ofal eilaidd yn ôl yr angen, yw'r ymateb mwyaf priodol o ystyried yr effaith amrywiol iawn, a'r ystod o symptomau y gall pobl eu profi.

25

#### 4.5 Fframwaith adsefydlu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol 2020 i 2021

*Nod Fframwaith adsefydlu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol 2020 i 2021*<sup>26</sup> yw helpu sefydliadau i gynllunio gwasanaethau adfer ar draws pedwar prif grŵp poblogaeth:

<b>POBLOGAETH 1</b>	Pobl sydd wedi cael COVID-19: y rhai sy'n gwella o gyfnod estynedig mewn gofal critigol ac yn yr ysbyty, y rhai roedd eu gofal aciwt yn cael ei reoli yn y gymuned a'r rhai â symptomau hir o COVID-19 sy'n gwella yn y gymuned
<b>POBLOGAETH 2</b>	Pobl sy'n aros am ofal wedi'i gynllunio fel achosion brys ac arferol a ohiriwyd y mae eu gallu i weithredu wedi dirywio ymhellach
<b>POBLOGAETH 3</b>	Pobl sydd wedi osgoi defnyddio gwasanaethau yn ystod y pandemig ac sydd bellach yn wynebu risg o niwed e.e. anabledd ac afiechyd
<b>POBLOGAETH 4</b>	Grwpiau sy'n ynysig yn gymdeithasol neu'n gwarchod eu hunain lle mae'r cyfyngiadau symud yn arwain at lefelau is o weithgarwch a chysylltiadau cymdeithasol, arferion bwyta gwahanol, camdefnyddio sylweddau, llesiant corfforol a meddyliol dirywiedig ac felly risg gynyddol i'w hiechyd

<sup>25</sup> Management of post COVID-19 in primary care | BMJ

<sup>26</sup> Fframwaith adsefydlu gwasanaethau iechyd a chymdeithasol 2020 i 2021 | LLYW.CYMRU

Yn ogystal, mae'r *Canllawiau*,<sup>27</sup> y *Fframwaith Gwerthuso*<sup>28</sup> a'r *Adnodd Modelu*<sup>29</sup> sy'n sail i'r Fframwaith Adsefydlu i gyd wedi'u cynllunio i gynorthwyo dealltwriaeth o angen, gwerthuso'r gefnogaeth a ddarperir, a chynllunio'r gwasanaethau adsefydlu gofynnol gan ddefnyddio llwybr system gyfan.

#### **4.6 Model adsefydlu gofal mewn camau**

Defnyddir model adsefydlu gofal mewn camau yn y Canllawiau sylfaenol. Mae hyn yn cefnogi trefnu set sgiliau a gweithgaredd Proffesiynau Perthynol i lechyd fesul haen er mwyn bodloni'r elfennau adsefydlu sy'n ofynnol yn unol ag anghenion y boblogaeth leol. Gwneir y defnydd gorau o'r Proffesiynau Perthynol i lechyd pan ddarperir llwybr ataliol, rhagweithiol, system gyfan o ran darparu gwasanaeth adsefydlu.

---

<sup>27</sup> [Anghenion adsefydlu pobl y mae sefyllfa COVID-19 wedi effeithio arnynt: canllawiau | LLYW.CYMRU](#)

<sup>28</sup> [Gwerthuso effaith gwasanaethau adsefydlu ar ôl COVID-19 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>29</sup> [Modelu gwasanaethau adsefydlu COVID-19 | LLYW.CYMRU](#)

### Model adsefydlu gofal mewn camau

Cydran o'r FfC	Galluogi i mi fyw'n iach	Galluogi i mi aros yn iach a'm cynnal fy hun	Fy asesu a'm monitro'n agos	Rhoi mwy o ofal imi a'm cadw gartref	Rhoi gofal da i mi y tu allan i'm cartref fy hun	Rhoi llai o ofal i mi a galluogi i mi gyrraedd adref yn ddiogel
<b>Elfen adsefydlu</b>	<p><b>Mentrau Iechyd y Cyhoedd</b></p> <p>Yn cynnwys:</p> <p>Cynnal arferion, gweithgareddau a chydberthnasau iach sy'n bwysig i mi</p> <p>Iechyd yn y gweithle</p> <p>Cadw'n iach ac yn heini yn emosiynol ac yn gorfforol</p> <p>Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif</p> <p>Presgripsiynu Cymdeithasol</p> <p>Cyflwr Cyn-ddiabetes</p> <p>Sgiliau Maeth am Oes</p> <p>Bwyd Doeth am Oes</p> <p>Datblygiad Plant / Blynyddoedd Cynnar:</p> <p>laith a chyfathrebu</p> <p>Maeth, y twf a'r datblygiad gorau posibl</p> <p>Gweithgaredd corfforol a sgiliau echddygol</p>	<p><b>Gofal Sylfaenol a Chymunedol (iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector)</b></p> <p>Yn cynnwys:</p> <p>Cynnal arferion, gweithgareddau a chydberthnasau iach sy'n bwysig i mi</p> <p>Llesiant Meddyliol</p> <p>Mynediad Uniongyrchol i gyngor a chymorth</p> <p>Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf</p> <p>Cyflyrau Hirdymor a Chymorth i Hunanreoli Poen</p> <p>Cyflyrau Cyhyrsgerbydol</p> <p>Optimeiddio / Rhagsefydlu</p> <p>Chwarae Therapiwtig</p> <p>Adsefydlu Galwedigaethol</p> <p>Adroddiad Iechyd a Gwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd</p> <p>Iechyd Galwedigaethol</p> <p>Presgripsiynu Cymdeithasol</p> <p>Cyflwr Cyn-ddiabetes</p> <p>Sgiliau Maeth am Oes</p> <p>Gwasanaethau Asesu'r Cof / Cymorth Diagnostig</p>	<p><b>Gofal Sylfaenol a Chymunedol (iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector)</b></p> <p>Yn cynnwys:</p> <p>Rhag-gynllunio Gofal</p> <p>Mynediad Uniongyrchol i gyngor a chymorth</p> <p>Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf</p> <p>Timau Trawsddisgyblaethol</p> <p>Timau Rhyngddisgyblaethol ar gyfer Cyflyrau Penodol</p> <p>Timau Amlbroffesiwn yn yr Ardal</p> <p>Wardiau Rhithwir</p> <p>Iechyd Galwedigaethol</p> <p>Grwpiau Cymorth Cymheiriaid</p> <p>Diagnosis a rheolaeth anllawfeddygol ar anhwylderau symudiad llygaid</p>	<p><b>Gofal Sylfaenol a Chymunedol (iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector)</b></p> <p>Yn cynnwys:</p> <p>Adferiad Iechyd Meddwl</p> <p>Ailalluogi/Rhagsefydlu/Adsefydlu</p> <p>Adsefydlu arbenigol syn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflwr penodol</p> <p>Adsefydlu yn dilyn cydafiachedd: model darparu strata sy'n cwmpasu adsefydlu ar gyfer cyflyrau penodol i unigolion sydd â sawl cyflwr, sy'n ei chael hi'n anodd hunanreoli yn ogystal ag adsefydlu symptomatig (clefyd ar y galon neu'r ysgyfaint, canser, strôc, diabetes, a chwympiadau)</p> <p>Rhag-gynllunio Gofal</p> <p>Adsefydlu Gofal Lliniarol</p> <p>Cyfarpar cynorthwylol ac addasiadau i'r amgylchedd</p> <p>Adsefydlu Galwedigaethol</p> <p>Iechyd Galwedigaethol</p> <p>Grwpiau Cymorth Cymheiriaid</p> <p>Llwybr Cymunedol Maint Cywir 1</p> <p>Bwydo drwy'r ymysgaroedd gartref</p>	<p><b>Cyfleuster gwely</b></p> <p>Yn cynnwys:</p> <p>Unedau Adsefydlu</p> <p>Ysbytai Maes wedi'u haddasu'n briodol</p> <p>Cartrefi Gofal</p> <p>Ysbytai Cymunedol dan arweiniad therapi</p> <p>Cyfleuster Gofal Canolraddol sy'n cefnogi Llwybr 3</p> <p>Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu</p>	<p><b>Gofal Sylfaenol a Chymunedol (iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector)</b></p> <p>Yn cynnwys:</p> <p>Llwybrau 2 a 4 Rhyddhau i Adfer ac yna Asesu (yng nghartref yr unigolyn neu leoliad gofal canolraddol presennol), a all gynnwys unrhyw un neu gyfuniad o'r canlynol:</p> <p>Optimeiddio / Ailalluogi / Adsefydlu</p> <p>Adsefydlu arbenigol syn seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer cyflwr penodol</p> <p>Adsefydlu yn dilyn cydafiachedd: model darparu strata sy'n cwmpasu adsefydlu ar gyfer cyflyrau penodol i unigolion sydd â sawl cyflwr, sy'n ei chael hi'n anodd hunanreoli yn ogystal ag adsefydlu symptomatig (clefyd ar y galon neu'r ysgyfaint, canser, strôc, diabetes, a chwympiadau)</p> <p>Adferiad Iechyd Meddwl</p> <p>Rhag-gynllunio Gofal</p> <p>Adsefydlu Gofal Lliniarol</p> <p>Cyfarpar cynorthwylol ac addasiadau i'r amgylchedd</p> <p>Adsefydlu Galwedigaethol</p> <p>Iechyd Galwedigaethol</p>

## 4.7 Blaenoriaethau sy'n Cystadlu â'i Gilydd

Mae haenu adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd i gefnogi adferiad ac adsefydlu pawb y mae'r pandemig wedi effeithio arnynt, gan eu hatgyfeirio at wasanaethau arbenigol eraill neu ofal eilaidd yn ôl yr angen, yn galluogi dull wedi'i bersonoli. At hynny, mae'n cefnogi defnyddio dull fframwaith 'Team Tetris' sy'n mapio sgiliau yn erbyn anghenion iechyd y boblogaeth leol sy'n cynnwys gweithlu ar y lefelau ymarfer canlynol:

- Gwybodus - lefel sylfaenol yr holl staff
- Medrus - cyswllt uniongyrchol a / neu sylweddol
- Ychwanegol - darparu ymyriadau penodol a/neu gyfarwyddo/rheoli gofal a gwasanaethau
- Arbenigol - rôl arbenigol

Yn sail i hyn mae'r wybodaeth nad oes angen llawer o arbenigwyr wrth ddatblygu'r Tîm Gofal Sylfaenol. Cyffredinolwyr, sy'n gallu cynnig gwybodaeth arbenigol, yw'r elfen hanfodol a gallant gyfeirio pobl, yn ôl yr angen, at yr arbenigedd sydd fwyaf addas i'w symptomau eu hunain.

### Poblogaeth 1

Gall pobl sydd â symptomau parhaus COVID-19 a syndrom ôl-Covid-19 (COVID Hir), sy'n dod o fewn Poblogaeth 1 y fframwaith adsefydlu, fod ag ystod amrywiol o symptomau, gan gynnwys blinder, diffyg anadl, poen, a phroblemau'r galon, problemau anadlol a phroblemau niwrolegol.<sup>30</sup> Gellir diwallu eu hanghenion drwy integreiddio mynediad drwy weithwyr proffesiynol gofal sylfaenol a chymunedol lleol, a datblygu seilwaith i ddarparu gwasanaethau'n hyblyg er mwyn helpu pobl i wella ar ôl COVID-19 a'r rhai y mae'r pandemig yn effeithio'n ehangach arnynt. Cefnogir y dull hwn yn genedlaethol.<sup>31 32</sup>

Yn nodedig, argymhellir pwyslais ar hunanreoli â chymorth ac osgoi dychwelyd i fodel meddygol traddodiadol.<sup>33</sup> Mae Canllaw Cymru ar gyfer Rheoli COVID Hir yn rhan o Raglen Adferiad Llywodraeth Cymru.<sup>34</sup> Darperir tudalen lanio Genedlaethol ochr yn ochr â hyn, yn cynnwys ystod o ganllawiau a deunyddiau dysgu ategol ar gyfer rheoli COVID Hir, gan gynnwys dolenni i bwyntiau cyswllt priodol y Bwrdd Iechyd i gael cefnogaeth.<sup>35</sup> Yn ogystal, mae Ap Adferiad COVID GIG Cymru<sup>36</sup> yn cefnogi dull hunanreoli.

Mae modelau Gofal Sylfaenol sy'n darparu mynediad uniongyrchol ac arweinyddiaeth gan Weithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd yn elfennau hanfodol wrth ddarparu gofal cyfannol, amlbroffesiynol a di-dor. Mae'r dull hwn yn gwneud y defnydd gorau o set sgiliau a gweithlu'r Proffesiynau Perthynol i lechyd, ynghyd â nodi lle mae bylchau yn y gwasanaeth adsefydlu a lle mae angen adnoddau ychwanegol i ddarparu gofal a thriniaeth mewn modd amserol.

### Poblogaeth 2

Yn ddealladwy, mae ffocws cynyddol ar Boblogaeth 2 ac ar sut y mae set sgiliau'r Proffesiynau Perthynol i lechyd yn cael ei defnyddio'n effeithiol mewn ffordd integredig gydgysylltiedig i gefnogi'r

<sup>30</sup> [COVID-19: Managing the long term effects](#)

<sup>31</sup> [Helpu pobl i wella o COVID-19 \(COVID hir\) | LLYW.CYMRU](#)

<sup>32</sup> [Buddsoddi mewn gwasanaethau cymorth i'r rheini sy'n gwella o effeithiau Covid-19 | LLYW.CYMRU](#)

<sup>33</sup> [Helpu pobl i wella o COVID hir \[HTML\] | LLYW.CYMRU](#)

<sup>34</sup> [COVID-19 - Y Sefydliad Gwyddoniaeth Glinigol a Thechnoleg](#)

<sup>35</sup> [Adnoddau Syndrom Covid Hir - AaGIC \(nhs.wales\)](#)

<sup>36</sup> <https://allwales.icst.org.uk/landing/covid-recovery-app/>

unigolion hynny ar restr aros sy'n bodoli eisoes. Gellir gwella canlyniadau a phrofiad i bobl yng Nghymru drwy ddarparu continwwm adsefydlu mewn Gofal Sylfaenol sy'n cwmpasu dulliau optimeiddio, ailsefydlu a hunanreoli, a all fod yn ddewis arall mwy priodol yn lle ymyrraeth lawfeddygol mewn rhai achosion.

Yn benodol, cyflyrau Cyhyrysgerbydol sy'n effeithio ar gymalau (fel osteoarthritis, arthritis gwynegol, arthritis soriatic, gowt, spondylitis ymasiol), esgyrn (fel osteoporosis, osteopenia a thoresgyrn cysylltiedig oherwydd breuder, toriadau trawmatig), y cyhyrau (fel sarcopenia) ac asgwrn y cefn (fel poen cefn a gwddf) sy'n cael sylw mewn trafodaethau ynghylch dull haenedig o ddiwallu anghenion a chefnogi arosiadau hir ar restrau aros.

### Poblogaeth 3

Mae poblogaeth 3, sy'n cwmpasu cyflyrau hirdymor, yn faes sydd hefyd wedi cael ei effeithio'n andwyol gan y pandemig ac yn faes y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn canolbwyntio'n fawr arno o ran cefnogi hunanreolaeth, i gynorthwyo unigolion yn rhagweithiol i nodi'r wybodaeth, y sgiliau a'r hyder sydd eu hangen arnynt i reoli eu hiechyd a'u llesiant eu hunain a byw'n dda. Cynnig ymgynghoriadau grŵp a mabwysiadu dull ataliol o ddarparu cymorth. Meysydd ffocws penodol yw Cyflwr Cyn-ddiabetes<sup>37</sup> a dementia (gweler *Llwybr Safonau Gofal Dementia ar gyfer Cymru Gyfan*<sup>38</sup>). Mae adnoddau ychwanegol ar gael ar hyn o bryd ar gyfer gwella Gwasanaethau Asesu'r Cof / Cymorth Diagnostig er mwyn gwella mynediad at y cymorth iawn ar yr amser iawn, yn y ffordd iawn.

### Poblogaeth 4

At hynny, cydnabuwyd y gall defnyddio'r set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd gyda phoblogaeth 4 gynnig cyfle i liniaru effaith y pandemig, yn enwedig o ran cefnogi llesiant meddyliol.

Fodd bynnag, mae cyflyrau cyhyrysgerbydol a llesiant meddyliol hefyd yn cael eu nodi fel prif ffactorau atgyfeirio yn y prosiectau braenaru a ddatblygir gan y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys. Mae datblygu prosiectau braenaru gan y Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys yn cael ei ystyried yn estyniad o'r gwasanaeth Ymarfer Cyffredinol y Tu Allan i Oriau / gwasanaeth ffôn yn gyntaf, gan ddarparu mynediad brys i ystod o weithwyr proffesiynol Gofal Sylfaenol sy'n gallu diwallu ystod eang o gyflyrau ac anghenion. Gellir eu hystyried hefyd yn estyniad o'r gallu i Bractisau Cyffredinol lleol ddarparu apwyntiadau ar yr un diwrnod. Caiff y rôl y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ei chwarae wrth gefnogi ehangder y gwasanaethau o fewn Gofal Brys a Gofal Mewn Argyfwng a'r datganiadau ansawdd sy'n sail i'w chwe nod ei gydnabod ac maent yn creu cystadleuaeth bellach am adnodd Proffesiynau Perthynol i Iechyd.

At hynny, mae effeithiau COVID-19 wedi tynnu sylw at anghydraddoldebau iechyd presennol ac, mewn rhai achosion, wedi eu cynyddu. O ganlyniad, mae angen gwneud y gorau o set sgiliau'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd i gefnogi'r galw ychwanegol am wasanaethau adsefydlu mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol ar gyfer grwpiau sy'n agored i niwed y nodwyd bod ganddynt risg uwch o ddioddef effeithiau andwyol yn sgil

<sup>37</sup> [Buddsoddi mewn gordewdra ac i helpu pobl sydd mewn perygl o ddatblygu diabetes | LLYW.CYMRU](#)

<sup>38</sup> [Dementia Standards Pathway document 2021](#)

## 4.8 Cymru Iach ar Waith

Gyda gwaith yn cael ei gydnabod yn bwysig ar gyfer iechyd corfforol da, iechyd meddwl da a llesiant,<sup>39</sup> ni ellir goramcangyfrif effeithiau'r pandemig ar yr agenda waith. Felly, ni ellir anwybyddu'r cyfle y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn ei ddarparu mewn Gofal Sylfaenol i gefnogi pobl i ymgymryd â gwaith, aros yn eu galwedigaethau neu ddychwelyd iddynt, hyd yn oed os na allant berfformio hyd eithaf eu gallu.

Fodd bynnag, er bod adsefydlu galwedigaethol ac iechyd yn y gweithle yn rhan bresennol o'r cynnig Proffesiynau Perthynol i Iechyd, nid yw'n cael ei hyrwyddo'n benodol na'i ddeall bob amser. Felly, mae'r amgylchiadau presennol yn rhoi cyfle i dynnu sylw at y cynnig hwn a hyrwyddo ei gynnwys a'i ddefnydd mewn ymarfer Proffesiynau Perthynol i Iechyd ac yn benodol felly mewn Gofal Sylfaenol.

O ganlyniad, mae'r grŵp Gorchwyl a Gorffen Adsefydlu Cenedlaethol<sup>40</sup> a ffurfiwyd mewn ymateb i COVID-19 wedi cytuno ar ffocws ar iechyd yn y gweithle a chefnogi pobl i aros a/neu ddychwelyd i'r gwaith. Mae hyn yn cyd-fynd â Nod 5 fframwaith strategol iechyd y cyhoedd proffesiynau perthynol i iechyd y DU<sup>41</sup> sef Iechyd a Llesiant y Gweithlu: *Defnyddio arbenigedd Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i ddiogelu a gwella iechyd a llesiant y gweithlu iechyd a gofal*.

Mae defnyddio Adroddiad Iechyd a Gwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd<sup>42</sup> yn rhoi cyfle i wneud y gorau o arbenigedd y Proffesiynau Perthynol i Iechyd wrth gynorthwyo unigolion i ddychwelyd i'r gwaith neu aros mewn gwaith. Mae gwybodaeth benodol wedi'i theilwra ar gael i'r unigolyn, i'r cyflogwr ac i'r meddyg teulu am effeithiau anawsterau sy'n gysylltiedig â gwaith.<sup>43</sup> Mae hyn yn briodol ar gyfer problemau'n ymwneud ag iechyd corfforol neu feddyliol yn ymwneud â gwaith ac fe'i cynlluniwyd i gynorthwyo cyflogwyr ac ymarferwyr cyffredinol i ddeall addasiadau ymarferol a allai helpu unigolyn i barhau i weithio neu i ddychwelyd i'r gwaith, gyda manylion cyswllt i gyflogwyr er mwyn mynd ar drywydd yr argymhellion gydag ymarferwyr yn ôl yr angen.

Yn arwyddocaol, gall Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd lunio Adroddiad Iechyd a Gwaith fel dewis amgen posibl i gwblhau Datganiad Ffit i Weithio wedi'i gwblhau (a elwir yn fwy cyffredin yn 'nodyn ffitrwydd') sy'n cael ei lofnodi ar hyn o bryd gan feddygon teulu ac ymgynghorwyr.<sup>44 45</sup> Mae hyn yn darparu dewis arall credadwy mewn Gofal Sylfaenol i bobl sy'n ei chael hi'n anodd aros yn y gwaith neu ddychwelyd i'r gwaith.

Mae Rheoliad 2(1) o Reoliadau Tystiolaeth Feddygol Tâl Salwch Statudol yn nodi y dylai tystiolaeth a ddarperir at ddibenion Tâl Salwch Statudol fod ar ffurf nodyn ffitrwydd meddygol neu 'drwy unrhyw fodd arall sy'n ddigonol o dan amgylchiadau'r achos dan sylw'. Mae hyn yn golygu y gall Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ddefnyddio Adroddiad Ffit i Weithio ar gyfer tâl salwch statudol, ar yr amod bod y cyflogwr a'r gweithiwr yn cytuno ei fod yn ddigonol o dan yr amgylchiadau.

<sup>39</sup> [Cymru Iach ar Waith - Iechyd Cyhoeddus Cymru \(nhs.wales\)](https://www.nhs.uk/health-wellbeing/cymru-iach-ar-waith-lechyd-cyhoeddus-cymru)

<sup>40</sup> [Grŵp Gorchwyl a Gorffen Adsefydlu 2020 ar gyfer Cynllunio ac Ymateb i COVID-19 | GOV.WALES](https://gov.wales/gorchwyl-a-gorffen-adsefydlu-2020-ar-gyfer-cynllunio-ac-ymateb-i-covid-19)

<sup>41</sup> [UK Allied Health Professions Public Health Strategic Framework \(2019\)](https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/421123/UK-Allied-Health-Professions-Public-Health-Strategic-Framework-2019.pdf)

<sup>42</sup> [Guidance on completion of AHP Health and Work Report \(ahpf.org.uk\)](https://www.ahpf.org.uk/guidance-on-completion-of-ahp-health-and-work-report.pdf)

<sup>43</sup> [Allied Health Professions Fitness For Work Report | RCOT](https://www.rcot.org.uk/allied-health-professions-fitness-for-work-report)

<sup>44</sup> [Using occupational therapists in vocational clinics in primary care: a feasibility study | BMC Family Practice](https://www.bmc.com/content/article/10.1186/s12874-019-0800-4)

<sup>45</sup> [Advice line: AHP fitnote for patients | CSP](https://www.csp.org.uk/advice-line/ahp-fitnote-for-patients)

Fodd bynnag, o dan Adran 14 o'r Ddeddf Nawdd Cymdeithasol, ni ellir defnyddio Adroddiad Iechyd a Gwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd fel tystiolaeth ar gyfer unrhyw daliadau lles neu fudd-daliadau eraill, ac mae angen nodyn ffitrwydd o hyd. Serch hynny, mae cydnabod arbenigedd Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar Iechyd yn y gweithle yn sail i drafodaethau a chymwysterau dysgu cysylltiedig ynghylch proffesiynau ehangach fel llofnodwyr amgen posibl y nodyn ffitrwydd.<sup>46</sup>

## 5. Adran 3: Amodau sy'n ffafriol i wneud y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd

Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar yr amodau sy'n ffafriol i wneud y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd. Mae'n dwyn ynghyd yr hyn a ddysgwyd drwy ymgysylltu, drwy fodolau a dulliau gweithredu Proffesiynau Perthynol i Iechyd, drwy lenyddiaeth ehangach a strategaethau cenedlaethol a'u rhannu'n gyfres o themâu allweddol sy'n arwain y dull o adeiladu a datblygu'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Yna ymchwiliir i sut y gellir cymhwyso pob thema yn ymarferol.

### 5.1 Mynediad

Mae pa mor hawdd yw cael mynediad at Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol yn fater sy'n codi dro ar ôl tro o ran y rhwystrau yr adroddir amdanynt wrth gael gafael ar y cymorth cywir gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd o fewn amserlen briodol. Mae hyn yn cael ei ddylanwadu gan gynnydd yn nhrothwyon y meini prawf ar gyfer cael mynediad at adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd, cymhlethdod y broses atgyfeirio, pryderon ynghylch brysbennu a threfniadau llywodraethu cysylltiedig, ac anallu i ymateb mewn modd amserol gan arwain at atebion amgen ac anfodhaol yn aml, ac mewn rhai achosion gan fesuriadau proses y darparwr cysylltiedig.

O ganlyniad, mae rhai clystyrau a Phractisau Cyffredinol unigol yn defnyddio mynediad hawdd fel rhan o'u rhesymeg dros ymchwilio i gyflogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn uniongyrchol. Mae hyn yn pwysleisio'r angen am ddull cydweithredol i sicrhau mynediad hawdd i Broffesiynau Perthynol i Iechyd waeth beth fo model y ddarpariaeth, h.y. timau amlbroffesiynol Gofal Sylfaenol y mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn aelodau annatod ohonynt, neu fel rhan o'r continwmm ehangach o ddarpariaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Yn hanfodol, mae trefnu adnodd Proffesiynau Perthynol i Iechyd o ran gweithgaredd ar draws ôl troed y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, gan flaenoriaethu a haenu ar y cyd ar draws lleoliadau sy'n cefnogi gwaith cynllunio a chyflawni Ardal / Clwstwr, yn gwneud y defnydd gorau o set sgiliau'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r cynnig cyfatebol. Mae'n galluogi mynediad uniongyrchol at ystod ehangach o ymarferwyr amlbroffesiynol, gan gynnwys Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd a rolau Ymarferydd Therapi Cynorthwyol medrus, gan ategu'r gwasanaethau presennol fel rhan o'r continwmm darpariaeth Gofal Sylfaenol.

<sup>46</sup> Government response: Health is everyone's business - GOV.UK ([www.gov.uk](http://www.gov.uk))

## 5.2 Cyfathrebu

Mae deall y cynnig Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn hollbwysig er mwyn eu defnyddio'n effeithiol, ac ni ellir goramcangyfrif 'profiad bywyd' Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol o ran deall eu rôl, datblygu 'Tîm' a gwneud y gorau o'u sgiliau. Mae eu profiad, ynghyd â phrofiad bywyd timau Gofal Sylfaenol rhyngddisgyblaethol, yn dangos bod rhannu'r un gweithle neu gydleoli yn rheolaidd yn arwain at lawer o fanteision.<sup>47</sup> Mae'r rhain yn cynnwys gwella integreiddio a chydlyniant tîm, cyfathrebu mewn amser real, dealltwriaeth o set sgiliau a gwerthfawrogiad o rôl, mwy o ddysgu, datblygu ymddiriedaeth, a hwyluso rhannu gwybodaeth gan arwain at well canlyniadau gofal.

Felly, er bod y defnydd o Broffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol yn gyfyngedig ar hyn o bryd, mae'r pandemig hefyd wedi darparu cyfleoedd i fagu'r profiad bywyd hwn, lle mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd wedi cael eu defnyddio mewn Gofal Sylfaenol gan ddangos cryn werth ac effaith.<sup>48</sup> Ar gyfer yr adnodd Proffesiynau Perthynol i Iechyd presennol mewn Gofal Sylfaenol, mae'r amlygiad cynyddol i'w set sgiliau wedi bod o gymorth i ddysgu'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig ac wedi dylanwadu ar drafodaethau parhaus a datblygu cyfleoedd i liniaru effeithiau'r pandemig ar draws y pedwar prif grŵp poblogaeth.

Mae ffocws penodol wedi bod ar COVID Hir a grŵp poblogaeth 2 a sut mae'r set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn cael ei defnyddio'n effeithiol gydag unigolion ar restr aros bresennol (fel yr amlinellwyd yn gynharach). Bu ffocws hefyd ar rôl Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn y broses o ddatblygu prosiectau braenaru'r Ganolfan Gofal Sylfaenol Brys o ran cefnogi pobl sy'n profi argyfwng sy'n gysylltiedig â'u hanghenion iechyd meddwl neu gyflyrau cyhyrsgerbydol, a thrawsnewidiad ehangach gwasanaethau iechyd a llesiant meddyliol i gefnogi anghenion poblogaeth 4.

Yn nodedig, y meysydd sydd bellaf ar y blaen o ran defnyddio Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol yw'r rhai sydd wedi rhoi blaenoriaeth i ddeall yr hyn sydd gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig, ac wedi cryfhau eu perthnasoedd cydweithredol a'u hymddiriedaeth rhwng sefydliadau partner a'u harweinwyr ar bob lefel.

Fodd bynnag, heb os, mae angen dealltwriaeth bellach ar y continwmm presennol o ystâd Gofal Sylfaenol ynghylch cwmpas, cyfleoedd a rhwystrau cysylltiedig oherwydd y gofynion ychwanegol y byddai timau amlbroffesiynol wedi'u cydleoli yn eu cynnig. Rhaid cydnabod bod yr ystâd Gofal Sylfaenol yn cynnwys ystod eang o leoliadau cymunedol ac y gallai absenoldeb cydleoli olygu na fyddai manteision ffyrdd newydd o weithio'n cael eu gwireddu'n llawn. Yn ogystal â hynny mae'r ffaith bod yr ystâd gyfredol yn rhwystr posibl i weithredu fframwaith Cymru gyfan, ac mae angen i addysg, hyfforddiant a datblygiad Gofal Sylfaenol gefnogi trawsnewid y gweithlu, gyda chymorth rhwydwaith o Hybiau Hyfforddi Ardal / Academiâu Gofal Sylfaenol dan arweiniad AaGIC.

Serch hynny, nid yw'r Model Gofal Sylfaenol yn dibynnu'n llwyr ar ddarpariaeth mewn lleoliad penodol, ond yn hytrach ar sut mae gwasanaethau lleol yn cydweithredu ac yn cyfathrebu, gan weithio'n agos i ddarparu mynediad uniongyrchol i ystod ehangach o ymarferwyr amlbroffesiynol.

<sup>47</sup> [Improvement Happens: Team-Based Primary Care, an Interview with Stuart Pollack](#)

<sup>48</sup> [NHS-Wales-COVID-19-Innovation-and-Transformation-Study---Summary-of-Emerging-Themes-report.pdf \(nhsconfed.org\)](#)



Mae'r model Ward Rithwir hefyd yn enghraifft gadarnhaol o ddarparu dull rheoli achosion cydgysylltiedig a chydweithredol.<sup>49</sup>

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu, ac felly mae creu cyfleoedd ar gyfer cyfathrebu anffurfiol o'r pwys mwyaf. Y camau y dylid eu cymryd yw defnyddio sgrymiau,<sup>50</sup> cyfarfodydd tîm / ambroffesiynol rhwng yr holl bartneriaid gan gynnwys meddygon teulu, Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Nyrsys Cymunedol a Fferylliaeth, Gofal Cymdeithasol a'r trydydd sector, gweithgareddau adeiladu tîm ac atebion wedi'u galluogi gan dechnoleg.<sup>51</sup> Mae'r holl gamau hyn yn cefnogi datblygiad ymddiriedaeth a hunaniaeth tîm cryf, ac yn hyrwyddo dull tîm rhyngddisgyblaethol sy'n nodi cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth ragweithiol, hunanreolaeth ac osgoi argyfwng mewn Gofal Sylfaenol.<sup>52</sup>

Yn nodedig, mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn grŵp blaenllaw ymhlith y rhai sydd wedi defnyddio technoleg a mynediad ar-lein yn rhagweithiol lle bynnag y bo modd. Maent wedi gwneud nifer o newidiadau arloesol a thrawsnewidiol i wasanaethau a hynny'n gyflym, gan ddangos eu creadigrwydd wrth oresgyn rhwystrau a gwneud y mwyaf o'u defnydd gyda chryn weithgaredd ac effaith ar ddarparu gofal iechyd.<sup>53</sup>

Mae dulliau cyfathrebu digidol a llwyfan rhannu gwybodaeth effeithiol yn sylfaenol i lwyddiant gweithio mewn tîm. Mae datblygiadau mewn Technoleg Gwybodaeth ac Ymgynghoriadau Rhithwir oherwydd y pandemig wedi cael effaith gadarnhaol drwy gynnig cyfle i gynyddu cydweithredu a chyfathrebu ambroffesiynol ar sail unigolyn a grŵp ar draws lleoliadau a llwybrau traddodiadol.

### 5.3 Arweinyddiaeth

Mae cwmpasu ymarfer cyfredol a dysgu o'r sylfaen dystiolaeth a gwerthusiadau arfer gorau yn datgelu bod arweinyddiaeth hefyd yn ganolog i ddarparu'r Model Gofal Sylfaenol.

Er mwyn gwireddu'n llawn yr uchelgais o gael llwybr system gyfan gyda gofal ambroffesiynol integredig yn seiliedig ar le, a chyflawni fframwaith llywodraethu proffesiynol/clinigol priodol o amgylch y gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd, mae arweinyddiaeth effeithiol a phresennol mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r fforymau cynllunio a chyflawni Ardaloedd / Clystyrau yn hanfodol.

Mae hyn yn ganolog i gefnogi proses o wneud penderfyniadau ar y cyd, llywio blaenoriaethau a dyrannu adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn ddarbodus. Rhaid i arweinwyr Proffesiynau Perthynol i Iechyd fod yn bresennol, cael eu cryfhau a chael eu cefnogi yn y gwahanol fforymau hyn ac fel rhan o'r broses o drawsnewid Gofal Sylfaenol.

At hynny, mae'n hanfodol bod trawsnewidiad yn cael ei fframio yn nhermau gwella gwerth yn hytrach na lleihau costau neu ryddhau capasiti, gan bwysleisio rôl ansawdd a chanlyniadau wrth ymateb i'r heriau sydd o'n blaenau, yn ogystal â darparu'r rhethreg gywir i ymgysylltu â phawb - clinigwyr, staff a defnyddwyr gwasanaethau - i sicrhau bod newid yn digwydd. Neges allweddol yw nad yw ailgynllunio gwasanaethau i wneud y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd yn ymwneud â thynnu oddi wrth wasanaethau, ond yn hytrach ychwanegu gwerth, y bydd llawer ohono'n dod o

<sup>49</sup> [PTHB | Virtual Ward \(wales.nhs.uk\)](#)

<sup>50</sup> [Huddle up!](#)

<sup>51</sup> [TEC Cymru | Iechyd Digidol Cymru](#)

<sup>52</sup> [In search of joy in practice: a report of 23 high-functioning primary care practices](#)

<sup>53</sup> [Gwerthusiad o Wasanaeth Ymgynghori Fideo GIG Cymru bellach wedi'i gyhoeddi | Iechyd Digidol Cymru](#)

wasanaethau'n gweithio'n fwy effeithiol drwy well cydweithio a pherthnasoedd newydd er mwyn diwallu anghenion pobl yn well.

Felly mae datblygu'r sgiliau arwain sydd eu hangen i alluogi trawsnewid y gweithlu Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn hollbwysig. Yn benodol, rhaid cefnogi Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn y newid diwylliannol sy'n ofynnol i gymhwyso eu set sgiliau lawn er mwyn diwallu anghenion cleifion, yn lle defnydd mwy traddodiadol sy'n seiliedig ar rôl ganfyddedig neu ddynodedig a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo.

Yn nodedig, mae arweinyddiaeth effeithiol yn y cyd-destun hwn yn gofyn am y gwytnwch a'r sgiliau i ysbrydoli a galluogi ymddygiad sy'n rhoi pobl 'wrth galon yr hyn a wnawn',<sup>54 55</sup> er mwyn hwyluso creu rhaglenni cydweithredol a phartneriaethau ar draws proffesiynau a lleoliadau.<sup>56</sup>

Mae mabwysiadu dull arwain ar y cyd a thosturiol sy'n seiliedig ar fynychu, dealltwriaeth, empathi a helpu, ac sy'n canolbwyntio ar dimau, systemau a chynwysoldeb, wedi'i ategu gan wella ansawdd, yn hollbwysig. Mae hyn yn cwmpasu: annog a galluogi'r gweithwyr proffesiynol dan sylw i drafod a chymryd perchnogaeth o bryderon; lliniaru gwrthdaro; creu ymdeimlad o gydweledigaeth a phwrpas cyffredin; a chytuno ar gamau er mwyn sicrhau bod yr atebion gofal gorau yn cael eu darparu. Dylai fod diwylliant o gynhwysiant a diogelwch seicolegol sy'n blaenoriaethu iechyd a llesiant y gweithlu. Mae hyn yn hanfodol bwysig o ystyried y dystiolaeth glir o'r cysylltiad rhwng y ffocws ar lesiant y gweithlu ac ansawdd y gofal a'r gefnogaeth a ddarperir.<sup>57</sup>

Uchelgais Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw '*erbyn 2030, bydd arweinwyr yn y system iechyd a gofal cymdeithasol yn dangos arweinyddiaeth gyfunol a thosturiol*'. O ganlyniad, mae AaGIC wedi sicrhau cytundeb gan Lywodraeth Cymru a GIG Cymru i ymgorffori'r dull arweinyddiaeth ar y cyd a thosturiol hwn, a ddatblygwyd gan yr Athro Michael West, yn fframwaith y strategaeth arweinyddiaeth ar gyfer Cymru a phrosiectau cysylltiedig.<sup>58</sup>

Mae'r ddogfen [Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru](#)<sup>59</sup> a lanswyd yn ddiweddar yn amlinellu ystyr arweinyddiaeth dosturiol a sut mae hyn yn edrych yn ymarferol. Daw'r Egwyddorion yn fyw drwy ystod o adnoddau rhyngweithiol a phecynnau cymorth sydd ar gael ar [Gwella](#)<sup>60</sup>, Porth Arweinyddiaeth AaGIC. Mae'r adnoddau a'r pecynnau cymorth hyn ar gael am ddim ac yn cefnogi rheolwyr ac arweinwyr i ymgorffori'r egwyddorion hyn, gan greu diwyllianau tosturiol ar draws y meysydd iechyd a gofal. Bydd yr Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol hyn yn sail i bob gweithgaredd datblygu arweinyddiaeth gan greu dull cyson o arwain ar draws y system.

#### 5.4 Datblygiad y Tîm Gofal Sylfaenol

Mae gweithio mewn tîm yn sylfaenol i'r Model Gofal Sylfaenol, ac mae cysylltiad pwerus rhwng ansawdd gwaith tîm ac effeithiolrwydd ac arloesedd, ac yn ei dro perfformiad sefydliadol.<sup>61 62</sup> Mae gweithio mewn tîm yn hwyluso datblygiad diogelwch seicolegol, gwytnwch unigolion ac yn cael

<sup>54</sup> [Arweinyddiaeth - AaGIC \(nhs.wales\)](#)

<sup>55</sup> [NHS Institute for Innovation and Improvement annual report and accounts 2008 to 2009](#)

<sup>56</sup> [Clinical leadership: values, beliefs and vision | Clark 2008](#)

<sup>57</sup> [Compassionate and inclusive leadership | The King's Fund \(kingsfund.org.uk\)](#)

<sup>58</sup> [Arweinyddiaeth - AaGIC \(nhs.wales\)](#)

<sup>59</sup> [AaGIC: Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol ar gyfer Iechyd a gofal yng Nghymru](#)

<sup>60</sup> [nhs.wales/leadershipportal.heiw.wales](#)

<sup>61</sup> [The effectiveness of health care teams in the National Health Service | Borrill et al. 2000](#)

<sup>62</sup> [Team working and effectiveness in health care](#)

effaith gadarnhaol ar gadw staff. Felly mae'n hanfodol bod strwythur Gofal Sylfaenol, diwylliant a systemau cyflenwi gwasanaethau yn darparu ar gyfer ac yn galluogi gweithio mewn tîm yn hytrach na'i lesteirio.<sup>63</sup>

Yn ddealladwy, gall datblygu timau fod yn anodd oherwydd nifer o ffactorau, megis: gwahanol werthoedd a modelau ymarfer; rhwystrau rhwng gwahanol grwpiau proffesiynol; llinellau rheoli lluosog; canfyddiadau o wahaniaeth mewn statws; gwahaniaethau diwylliannol; a'r ffaith nad yw pob clinigydd eisiau gweithio mewn timau na bod yn atebol i'w gydweithwyr am ei berfformiad clinigol.

Mae gweithredu'n effeithiol fel tîm yn dasg gymhleth ac yn anffodus nid yw timau amlbroffesiynol bob amser yn golygu y bydd cydweithredu a gwaith tîm yn digwydd, ac mae ymarfer yn aml yn golygu gweithio cyfochrog neu mewn seilos.<sup>64</sup> Yn aml, mae unigolion yn cael eu hasesu ar wahân gan sawl gweithiwr proffesiynol sy'n rhan o'r tîm amlbroffesiynol ac a allai fod â rolau cydberthynol, ond sy'n cynnal ffiniau eu disgyblaeth eu hunain.

Mae'r Athro Michael West<sup>65</sup> yn nodi bod hanfodion timau effeithiol yn cael eu gwella drwy sicrhau bod y tair nodwedd a ganlyn yn bresennol:

- ✓ Nifer fach o amcanion ystyrllon sy'n creu ymdeimlad o bwrrpas cyffredin, cydymddiriedaeth a chydgyflawniad
- ✓ Rolau a chyfrifoldebau clir ymhlith aelodau'r tîm
- ✓ Myfyrio ar sut mae'r tîm yn gweithio gyda'i gilydd

Mynegir hyn ymhellach yn yr Egwyddorion Arweinyddiaeth Dosturiol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru, sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni 'Ddatblygu trefniadau cefnogol ac effeithiol o weithio mewn timau a rhwng timau'.<sup>66</sup>

Yn 2020, lansiodd Coleg Brenhinol y Meddygon Teulu (RCGP) ei weledigaeth ar gyfer dyfodol ymarfer cyffredinol<sup>67</sup>. Mae hyn yn cydnabod bod tîm Gofal Sylfaenol estynedig, gan gynnwys Proffesiynau Perthynol i Iechyd, yn gwella mynediad i gleifion ac yn ehangu'r ystod o wasanaethau a ddarperir mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol er mwyn diwallu eu hanghenion.

At hynny, cyhoeddodd RCGP becyn cymorth ar weithio mewn tîm amlddisgyblaeth yn 2020.<sup>68</sup> Ei nod yw cefnogi datblygiad timau Gofal Sylfaenol a chreu ffordd o weithio sy'n gallu diwallu anghenion y boblogaeth leol yn well o ran gofal brys a gofal arferol. Mae'n canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant o gydweithredu arferol a pharch at ei gilydd, yn seiliedig ar y ddealltwriaeth bod creu'r amodau cywir i wahanol weithwyr proffesiynol weithio gyda'i gilydd yn hanfodol i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r pecyn cymorth yn nodi'r gofynion ar gyfer gweithio'n llwyddiannus fel tîm, sy'n cynnwys: eglurder pwrpas, rolau a chyfrifoldebau; cyfathrebu; adeiladu tim; a dysgu a chefnogaeth.

Mae'n bwysig cydnabod bod y cyhoeddiadau hyn yn adlewyrchu cyd-destun cynaliadwyedd Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol, a chryfhau/datblygu llwybr Gofal Sylfaenol arbenigol mewn cyferbyniad â llwybr system gyfan. Yn gadarnhaol, fodd bynnag, mae llawer o'r egwyddorion yn

<sup>63</sup> [How to build effective teams in general practice | The King's Fund](#)

<sup>64</sup> [Developing professional identity in multi-professional teams | Academy of Medical Royal Colleges](#)

<sup>65</sup> [Yr Athro Michael West: What is the difference between a real team and a pseudo team?](#)

<sup>66</sup> [AaGIC: Egwyddorion Arweinyddiaeth Tosturiol ar gyfer iechyd a gofal yng Nghymru](#)

<sup>67</sup> [Fit for the Future: a Vision for General Practice](#)

<sup>68</sup> [RCGP Multidisciplinary Team Working Toolkit](#)

berthnasol i'r amodau sy'n ffafriol i wireddu cynnig y Proffesiynau Perthynol i Iechyd a chyflawni'r Model Gofal Sylfaenol.

Mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd wedi arfer gweithio o fewn llwybrau cymhleth a rhyng-gysylltu ag asiantaethau eraill oherwydd cyflogaeth amrywiol ar draws lleoliadau, ac o ganlyniad, maent yn herio'r strwythur sefydliadol presennol yn rheolaidd ac yn dylanwadu ar y newid sy'n ofynnol i sicrhau gofal cydgysylltiedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a lliniaru gwrthdaro.

Gan arwain a gweithio o fewn ac ar draws timau ambroffesiynol, rhyngddisgyblaethol a thrawsddisgyblaethol, mae Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd yn gwella ansawdd, effeithiolrwydd a chynhyrchiant yn sylweddol ar draws llwybrau gofal, ac mae eu harbenigedd yn ganolog i'r newid mawr o roi'r gorau i fod yn orddibynnol ar ofal ysbyty ac ymyriadau proffesiynol.

Un o'r negeseuon allweddol yn sgil gwaith cwmpasu ar ymarfer cyfredol a'r hyn a ddysgwyd o'r dystiolaeth a gwerthusiadau arfer gorau yw nad oes angen llawer o arbenigwyr wrth ddatblygu'r Tîm Gofal Sylfaenol. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae cyffredinolwyr, sy'n gallu cynnig gwybodaeth arbenigol a chyfeirio pobl at yr arbenigedd sy'n diwallu eu hanghenion, yn hanfodol.

Yn nodedig, defnyddiwyd y term tîm rhyngddisgyblaethol yn y papur hwn. Mae hyn yn disgrifio'r model Gofal Sylfaenol mwyaf cyffredin lle mae aelodau'n dod ynghyd i drafod eu hasesiadau unigol a datblygu cynllun gwasanaeth ar y cyd ar gyfer unigolion. Mae'r tîm rhyngddisgyblaethol yn integreiddio gwybodaeth a dulliau, gan gymylu rhai agweddau ar y rôl o fewn cwmpas ymarfer proffesiynol yn aml, ond gan ddal i gynnal sylfaen disgyblaeth-benodol, a chyflwyno synthesis o ran ymagwedd tuag at ofal a nodau cyffredin. Dangosir hyn yn dda yng Nghwm Taf Morgannwg a'r Timau Gofal Sylfaenol a Chymunedol sy'n datblygu, sy'n darparu dull un tîm o amgylch pobl, gyda darpariaeth a chydlyniant wedi'i arwain gan y clwstwr. Trefnir y timau hyn drwy weithio mewn partneriaeth gydweithredol a chytundeb ar draws lleoliadau, gan ddefnyddio'r Gronfa Trawsnewid drwy lens y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.<sup>69</sup>

Fodd bynnag, mae datblygu'r model tîm trawsddisgyblaethol, lle mae aelodau'r tîm yn rhannu rolau yn ogystal â nodau, hefyd yn rhan bwysig o'r continwrm darpariaeth tîm ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol. Mae hyn yn cael ei lywio gan anghenion a gofynion lleol, gydag addysg ryngbroffesiynol a Schwartz Rounds<sup>70</sup> yn creu undod o ran fframweithiau deallusol y tu hwnt i bersbectif disgyblaethau, a chyfle i'r tîm fyfyrion ar sut y mae'n cydweithio a sut y gallai wella.

Mae'r model tîm trawsddisgyblaethol yn ei gwneud yn ofynnol i ymarferwyr arbenigol rannu eu sgiliau, gan gefnogi a galluogi eraill i ddysgu a defnyddio'r sgiliau hyn, ynghyd â datblygu sgiliau newydd mewn meysydd eraill gan ymarferwyr eraill. Y canlyniad yw tîm mwy cyfunol sy'n rhannu'r ddau amcan a llawer o setiau sgiliau craidd i gyflawni'r nod cyffredinol.<sup>71</sup> Mae hyn yn ganolog i lywio'r anghenion addysg a hyfforddiant sy'n ofynnol i gefnogi trawsnewid y gweithlu Gofal Sylfaenol ac, yn arwyddocaol, dyma'r model tîm y mae'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd wedi'i fabwysiadu'n llawn.

Mae Prestatyn Iach<sup>72</sup> yn enghraifft ddefnyddiol o effaith gadarnhaol model y tîm trawsddisgyblaethol mewn Gofal Sylfaenol a gwneud y gorau o set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gan

<sup>69</sup> Rhaglen Trawsnewid y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

<sup>70</sup> Schwartz Center Rounds® | The King's Fund

<sup>71</sup> Understanding and improving multidisciplinary team working in geriatric medicine | Age and Ageing | Oxford Academic (oup.com)

<sup>72</sup> Healthy Prestatyn Iach | Healthy Prestatyn Iach

gwmpasu'r tair nodwedd sylfaenol a awgrymwyd gan yr Athro West. Defnyddiwyd model microdîm, yn seiliedig ar System Gofal Nuka,<sup>73</sup> gydag Ymarferydd Cyffredinol a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill gan gynnwys y Proffesiynau Perthynol i Iechyd, yn dod ynghyd i ffurfio tîm trawsddisgyblaethol allweddol a gefnogir wedyn gan ystod ehangach o weithwyr proffesiynol sy'n gweithio fel rhan o Dîm Gofal Sylfaenol rhyngddisgyblaethol estynedig.

Yn hanfodol, cydnabuwyd pwysigrwydd cyfleu'r model hwn i'r boblogaeth leol er mwyn sicrhau bod y profiad a'r gwerthusiad o ofal yn gadarnhaol, gan ei gwneud hi'n haws i gleifion feithrin ymddiriedaeth a pherthnasoedd parhaus â'u tîm gofal iechyd 'allweddol', ac i'r tîm hwnnw allu symud i fodel gofal mwy rhagweithiol.

Yr hyn sy'n amlwg yw bod deall a gwneud y gorau o'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w gynnig a'u set sgiliau fel rhan o'r Tîm Gofal Sylfaenol, boed yn drawsddisgyblaethol neu'n rhyngddisgyblaethol, yn hynod bwysig. O ganlyniad, yn hytrach na dim ond darparu'r un gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn lleoliadau newydd, mae angen i'r ffordd y mae gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn cael eu trefnu drawsnewid o ran gweithgaredd, ynghyd â haenu'r defnydd o'i set sgiliau yn unol ag anghenion pobl, er mwyn cyflawni'r uchelgais o gontinwrm system gyfan o ddarpariaeth ddi-dor yn seiliedig ar le.

## 6. Adran 4

Mae gan bob Proffesiwn Perthynol i Iechyd rôl o ran cyflawni uchelgais Cymru iachach wrth ddarparu'r Model Gofal Sylfaenol, ac mae cynnig rhai yn fwy disylw nag eraill.

Mae'r adran hon yn darparu eglurder ynghylch pob cynnig Proffesiynau Perthynol i Iechyd sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn llywio a chefnogi galluoedd cynllunio a datblygu. Mae'n manylu ar set sgiliau pob Proffesiwn Perthynol i Iechyd er mwyn llywio'r defnydd ohonynt a sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio i'r eithaf fel rhan o lwybr system gyfan amlbroffesiynol cydweithredol, yn hytrach na mabwysiadu dull mwy traddodiadol sy'n seiliedig ar rôl ganfyddedig neu ddynodedig a'r amgylchedd y mae'n gweithredu ynddo.

Mae hyn yn sail i'r egwyddorion a argymhellir o drefnu adnodd Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn unol â'r set sgiliau ofynnol i ddiwallu anghenion a blaenoriaethau rhanbarthol, gan alluogi ymateb cyfannol gan wasanaethau sylfaenol a chymunedol i ddiwallu anghenion y pedwar prif grŵp poblogaeth y mae COVID-19 yn effeithio arnynt.

Yn nodedig, nid yw'r cysyniad hwn o ddefnyddio sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn un newydd, gyda gwasanaethau lymffoedema, er enghraifft, lle mae nifer o'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd - Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol a Pharafeddygon - yn ymarferwyr lymffoedema. Mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at y prosiect addysg On The Ground ar hyn o bryd, a'i nod yw codi ymwybyddiaeth a chydabod oedema cronig a choesau gwlyb, er mwyn gwella sut y caiff y cyflyrau hyn eu rheoli. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â nyrsys cymunedol i godi cymhwysedd, hyder a sgiliau mewn gosod rhwymau cywasgu ymysg y gweithlu gofal sylfaenol a chymunedol ehangach. Mae'r gwasanaeth yn cefnogi defnydd darbodous o adnoddau ac atal yr

<sup>73</sup> [Nuka System of Care - Southcentral Foundation](#)

ymarfer mewn seilos sydd i'we weld ar draws Gwasanaethau Lymffoedema, Clinigau Clwyfau, a'r gweithlu Gofal Sylfaenol a Chymunedol.<sup>74 75</sup>

Daw enghraifft allweddol o arweinyddiaeth a defnyddio set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd i ddiwallu anghenion cleifion a blaenoriaethau rhanbarthol mewn ymateb i COVID-19 gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe. Mewn ymateb i Ddeddf y Coronafeirws,<sup>76</sup> ffurfiodd Arweinydd Clinigol y Gwasanaeth Asesu a Thriniaeth Clinigol ar gyfer Podiatreg, Orthoteg a Chyflyrau Cyhyrsgerbydol a Gwasanaethau Poen Parhaus, dîm o Broffesiynau Perthynol i Iechyd a Gwyddonwyr Gofal Iechyd a roddodd Wasanaeth Gwirio Marwolaeth 24/7 ar waith gan sicrhau capasiti i gynnig gofal da mewn profedigaeth a gofal o ansawdd ar ôl marwolaeth.

Yn sail i'r gwasanaeth hwn mae polisi cynhwysfawr, proffil rôl, rhaglen hyfforddiant mewnol a cymhwysedd, ac mae'n cael ei ddyfynnu a'i rannu gan Lywodraeth Cymru fel enghraifft o drefniadau llywodraethu clir, cryf, gyda'r tîm yn darparu cymorth emosiynol amhrisiadwy i'r rhai yr effeithir arnynt. At hynny, cafodd y gwasanaeth ei gynnwys yn Oriol y Gwobrau Gofal Iechyd Cenedlaethol fel tîm sy'n gwneud gwaith rhagorol sy'n tynnu sylw at gyfraniad Proffesiynau Perthynol i Iechyd, gwyddonwyr gofal iechyd a'r rhai sy'n gweithio ochr yn ochr â nhw yn ystod yr argyfwng COVID-19.<sup>77 78</sup> Dyfarnwyd Aelod o Urdd yr Ymerodraeth Brydeinig (MBE) i'w Arweinydd Clinigol am wasanaethau i'r GIG a'r rhai mewn profedigaeth yn ystod COVID-19.<sup>79</sup>

O ganlyniad, er mwyn cydnabod nad oedd hyn yn ymwneud â 'llenwi bwlch', ond yn hytrach defnyddio sgiliau unigryw ac arbenigedd trosglwyddadwy'r Proffesiynau Perthynol i Iechyd er mwyn gwella profiad cleifion a'u canlyniadau, mae'r gwasanaeth yn parhau i ddatblygu a llunio'r ffordd ymlaen wrth i ni symud tuag at ailgodi ac adfer.

## 6.1 Therapïau Celfyddydau

Mae therapïau celfyddydau yn broffesiynau rheoledig: **Seicotherapi Celf**, **Therapi Cerdd** a **Therapi drama**, a dim ond y rhai sydd wedi cwblhau rhaglen gymeradwy y Deyrnas Unedig (DU) ac sydd wedi cofrestru gyda'r Cyngor y Proffesiynau Iechyd a Gofal, all ymarfer y Therapi Celfyddydau o'u dewis yn y DU.

Yn 2020, i gydnabod y cyfraniad pwerus y gall y celfyddydau ei wneud at gefnogi iechyd a llesiant ein cenedl, llofnododd Cydffederasiwn GIG Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth newydd o'r enw '*Hyrwyddo'r Celfyddydau, Iechyd a Lles.*' Adnewyddodd hyn eu hymrwymiad i godi ymwybyddiaeth o fanteision y celfyddydau ac ymgorffori mentrau celfyddydau ac iechyd ledled y GIG yng Nghymru, gan roi'r celfyddydau wrth galon trawsnewid gwasanaethau.<sup>80</sup>

Yn 2021, cynhaliodd AaGIC a Gofal Cymdeithasol Cymru Ddigwyddiad Therapïau Celfyddydau rhithwir 5 diwrnod, lle y dangoswyd astudiaethau achos, gweithdai a chyflwyniadau gan Seicotherapi Celf a Therapyddion Cerdd a Drama. Roedd hyn yn rhoi cipolwg ar sut y maent yn cael eu defnyddio ar gyfer iechyd a llesiant meddyliol a pha fanteision all ddod yn eu sgil.<sup>81</sup>

<sup>74</sup> [Managing chronic oedema and wet legs in the community: a service evaluation | 2017](#)

<sup>75</sup> [National lymphoedema service gets research boost \(swansea.ac.uk\)](#)

<sup>76</sup> [Deddf y Coronafeirws 2020 \(deddfwriaeth.gov.uk\)](#)

<sup>77</sup> [Esteem Gallery - Advancing Healthcare Awards \(ahawards.co.uk\)](#)

<sup>78</sup> [Ymateb i COVID-19 yn Ennill Enwebiadau am Wobr Genedlaethol \(nhs.wales\)](#)

<sup>79</sup> [Mae gweithwyr Bae Abertawe wedi'u henwi ar Restr Anrhydeddau Pen-blwydd y Frenhines - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe \(nhs.wales\)](#)

<sup>80</sup> [Promoting Arts, Health and Wellbeing – NHS Employers](#)

<sup>81</sup> [Digwyddiad Therapïau Celfyddydau 2021 - AaGIC \(nhs.wales\)](#)

## 6.2 Seicotherapi Celf

Mae Therapi Celf yn fath o seicotherapi sy'n defnyddio deunyddiau a chyfryngau celfyddydau gwledol fel ei brif ddull mynegiant a chyfathrebu. Yn y cyd-destun hwn, ni ddefnyddir celf fel offeryn diagnostig ond yn hytrach fel dull cyfathrebu a mynegiant.

Mae Seicotherapyddion Celf wedi datblygu ystod eang o ddulliau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn gweithio gyda phobl o bob oed o blant i'r henoed, waeth beth fo'u profiad artistig. Maent yn defnyddio Therapi Celf fel cymorth i annog unigolion i archwilio amrywiaeth o faterion emosiynol, ymddygiadol, iechyd meddwl neu les.

Mae Seicotherapyddion Celf yn gweithio gyda phobl ar draws ystod eang o anawsterau, anabledau neu ddiagnosis, ar sail unigolyn a grŵp, ac, yn enwedig cyn y pandemig, drwy ddefnyddio technoleg teleiechyd.<sup>82</sup> Ymysg yr enghreifftiau cenedlaethol mae: iechyd meddwl amenedigol; oedolion hŷn a dementia; oncoleg a chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd; iechyd meddwl oedolion; a therapi celf ar sail meddwl ar gyfer pobl ifanc.<sup>83 84</sup> Enghraifft ychwanegol yw prosiect cydweithredol rhwng Seicotherapi Celf a Chwnsela ar ôl Profedigaeth, a chyfraniad sylweddol Seicotherapi Celf at y gwasanaeth gofal lliniarol ehangach, gan gynnig hyfforddiant, sesiynau adeiladu tîm, gwytnwch a chefnogaeth i weithwyr proffesiynol a gwirfoddolwyr sy'n gweithio ym maes gofal diwedd oes.

Mae Seicotherapi Celf yn ymddangos fel astudiaeth achos yn Adroddiad Astudiaeth Arloesi a Thrawsnewid GIG Cymru COVID-19, gan ddangos sut y gall creadigrwydd a'r celfyddydau helpu i gefnogi darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant, llesiant teuluoedd, a chynnig cysylltiad a chysur yn ystod y cyfyngiadau symud, gan helpu i oresgyn anawsterau gydag ynysigrwydd cymdeithasol ac unigrwydd.<sup>85</sup>

## 6.3 Therapi Cerdd

Therapi Cerdd yw'r defnydd rhagnodedig o gerddoriaeth i sicrhau newidiadau cadarnhaol yng ngweithrediad seicolegol, corfforol, gwybyddol neu gymdeithasol unigolion sy'n cael trafferth â'u hiechyd a'u llesiant corfforol a meddyliol.

Mae Therapyddion Cerdd yn defnyddio rhinweddau cynhenid cerddoriaeth i gefnogi pobl o bob oed a gallu ac ar bob cam o fywyd, yn amrywio o helpu i wella iechyd babanod cynamserol a chefnogi rhieni i greu bond gyda'u babanod,<sup>86</sup> i gynnig gofal lliniarol hanfodol, sensitif a thosturiol ar ddiwedd oes. Maent yn ennyn diddordeb pobl mewn rhyngweithio cerddorol byw i hyrwyddo eu llesiant emosiynol a gwella eu sgiliau cyfathrebu.

Nid oes angen i unigolion feddu ar unrhyw brofiad blaenorol o chwarae offeryn (neu hyd yn oed ganu) gan fod yr ymyrraeth glinigol seicolegol sefydledig hon yn defnyddio eu cysylltiad unigryw â cherddoriaeth a'r berthynas a sefydlwyd â'u therapydd i helpu i ddatblygu a hwyluso sgiliau cyfathrebu, gwella hunanhyder ac annibyniaeth, gwella hunanymwybyddiaeth ac ymwybyddiaeth o eraill, a gwella sgiliau canolbwyntio a thalu sylw.

<sup>82</sup> [Exploring rural palliative care patients' experiences of accessing psychological support through telehealth: A longitudinal approach | 2020](#)

<sup>83</sup> [Therapi Celf - AaGIC \(nhs.wales\)](#)

<sup>84</sup> [Arddangosfa wedi'i hysbrydoli gan therapi celf iechyd meddwl Eryri yn agor yn Ysbyty Gwynedd - Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr \(nhs.wales\)](#)

<sup>85</sup> [NHS-Wales-COVID-19-innovation-transformation-study-annex-DP.pdf \(nhsconfed.org\)](#)

<sup>86</sup> <https://heiw.nhs.wales/files/blog-music-therapy-improves-the-health-of-premature-babies/>

Yn benodol, canfuwyd bod therapi cerdd yn ymyrraeth effeithiol i'r rhai na allant siarad oherwydd anabledd, salwch neu anaf, oherwydd gellir cefnogi eu hanghenion seicolegol, emosiynol, gwybyddol, corfforol, cyfathrebu a chymdeithasol drwy'r rhyngweithio cerddorol â'u Therapydd Cerdd.

Mae enghreifftiau cenedlaethol yn bodoli o effaith sylweddol wrth weithio gyda phlant sy'n dioddef o orbryder, trawma datblygiadol, ymlyniad ac Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd (ADHD) ac ystod o anableddau dysgu cymhleth. Yn ogystal, mae yna enghreifftiau o Therapyddion Cerdd yn gweithio gyda phlant ac oedolion ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, yn cefnogi pobl o bob oed mewn ysbytai ar gyfer anghenion iechyd corfforol a meddyliol, yn ogystal â chefnogi canolfannau digartrefedd a chanolfannau adnoddau'r glasoed, a phobl â dementia. Mae corau affasia-gyfeillgar ac iechyd yr ysgyfaint yn enghreifftiau pellach o'r cymorth a gynigir gan Therapyddion Cerdd.<sup>87</sup>

## 6.4 Therapi Drama

Math o therapi seicolegol yw Therapi Drama ac mae'n ddefnydd systematig a bwriadol o brosesau, cynhyrchion a chymdeithasau drama / theatr i gyflawni nodau therapiwtig.

Mae'n ddull gweithredol, gan gefnogi unigolyn i archwilio amrywiaeth eang o wahanol faterion ac anghenion mewn ffordd anuniongyrchol gan arwain at newidiadau seicolegol, emosiynol a chymdeithasol. Mae'n defnyddio chwarae, symud, symud gyda sain a chyffwrdd, actio, adrodd straeon a gwaith byrfyfyr i fynegi a chyfathrebu'r hyn a all fod yn anodd ei ddweud. Gall hyn gynnig ffordd i fynegi neu wneud synnwyr o emosiynau, perthnasoedd neu ddigwyddiadau anodd yn ddiogel, drwy fod yn chwareus, yn greadigol a defnyddio'r dychymyg.<sup>88</sup>

Nid oes angen i bobl fod wedi cael unrhyw brofiad nac arbenigedd blaenorol mewn drama er mwyn defnyddio Therapi Drama. Mae Therapyddion Drama yn gweithio gydag unigolion a grwpiau, ac maent i'w cael mewn llawer o leoliadau amrywiol fel ysgolion, ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, carchardai ac yn y sector gwirfoddol.

## 6.5 Deieteg

Yn arwyddocaol, mae 96% o bobl sy'n byw gyda diffyg maeth wedi'u lleoli yn y gymuned, gyda salwch sy'n gysylltiedig â bwyd yn gyfrifol am oddeutu 10% o'r holl afiachedd a marwolaethau yn y DU sy'n costio £6 biliwn y flwyddyn i'r GIG.<sup>89</sup> Nodir deiet a gordewdra fel y prif ffactor, neu un o'r prif ffactorau, sydd i'w briodoli i achosog llawer o gyflyrau hirdymor neu Gyflyrau Sensitif Gofal Dydd, lle y gall gofal cymunedol a rheoli achosion y n briodol helpu i atal neu leihau'r angen i rywun gael ei dderbyn i ysbyty (neu gael gofal fel claf mewnol) gan gynnwys diabetes, gorbwysedd, strôc, clefyd y galon, hyperlipidemia ac iechyd meddwl. Mae hyn yn golygu bod cymorth deietegol yn ffactor allweddol o ran eu rheoli.

Deietegwyr yw'r unig arbenigwyr maeth rheoledig a gallant gefnogi unigolion (o'r cyfnod cyn beichiogi i farwolaeth), ymarferwyr cyffredinol a'r tîm gofal sylfaenol ehangach mewn nifer o ffyrdd cost-effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae sgiliau cyfathrebu datblygedig a hyfforddiant newid ymddygiad deietegwyr yn eu galluogi i ddarparu gofal cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

<sup>87</sup> [Therapi Cerdd - AaGIC \(nhs.wales\)](https://nhs.uk/therapeutic-drama)

<sup>88</sup> [Therapi Drama - AaGIC \(nhs.wales\)](https://nhs.uk/therapeutic-drama)

<sup>89</sup> [Dietitians in Primary Care \(bda.uk.com\)](https://bda.uk.com)



Mae ymarfer deietegwyr yn rhychwantu pob grŵp oedran ac mae'n cynnwys darparu gwasanaeth cwnsela i unigolion neu addysg grŵp, cefnogi hybu iechyd, iechyd yn y gweithle, atal clefydau, triniaeth ac adsefydlu. Maent yn rhan hanfodol o ofal pediatreg, ac yn chwarae rhan allweddol mewn rheoli cyflyrau cronig, gan fod deiet iach a chytbwys yn cyfrannu at atal, oedi a rheoli cyflyrau fel Clefyd Coronaidd y Galon, Strôc, Canser, Clefyd yr Arennau a'r Afu, Diabetes Math 2 a Chyflyrau Cyhyrsgerberbydol. Gellir osgoi 80% o achosion o Glefyd Coronaidd y Galon, strôc a diabetes Math 2, a 40% o achosion o ganser os caiff ffactorau risg cyffredin yn ymwneud â ffordd o fyw eu dileu. Mae deietegwyr yn cael effaith sylweddol ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol, yn enwedig wrth reoli Diabetes Math 2, Gordewdra a Syndrom Coluddyn Llidus.<sup>90</sup>

Yn sicr mae cyfle i gryfhau rôl Deietegwyr o ran Cyflyrau Cyhyrsgerberbydol, gan mai rheoli pwysau ddylai'r myyrraeth gyntaf fod.<sup>91 92 93</sup> Gall deietegwyr gefnogi datblygu gwybodaeth a sgiliau ynghylch deiet iach er mwyn gwella hunaneffeithiolrwydd a mabwysiadu ffyrdd o fyw iachach, gwynwch a strategaethau ymdopi, yn ogystal â rheoli emosiynau negyddol a galluogi newid ymddygiad yn yr hirdymor.

Gall deietegwyr feithrin gallu o fewn y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol, a datblygu gweithlu sy'n hyderus i drafod pynciau sensitif fel rheoli pwysau. Gallant nodi pryderon sy'n ymwneud â maeth er mwyn cefnogi myyrraeth gynnar. Mae deietegwyr yn cefnogi newid deiet a ffordd o fyw drwy'r rhaglen Sgiliau Maeth am Oes™, gan gynnwys y rhaglen Bwyd Da Am Oes, gan ddarparu hyfforddiant a sicrwydd ansawdd i weithwyr cymorth gofal iechyd clwstwr a phartneriaid presgripsiynu cymdeithasol i ddarparu ymyriadau maeth, gan gyfrannu at adeiladu asedau cymunedol.

Mae deietegwyr yn darparu cyfraniad hanfodol at Lwybr Gordewdra Llywodraeth Cymru Gyfan.<sup>94</sup> Yn ogystal, mae'r rhaglen arloesol Cymru Gyfan, Ymyriadau Byr ar gyfer Cyflwr Cyn-ddiabetes â Sicrwydd Ansawdd, a ddatblygwyd gan y Grŵp Gweithredu ar Ddiabetes Cymru Gyfan (AWDIG),<sup>95</sup> yn dangos dull wedi'i dargedu o nodi'r bobl sydd angen y gwasanaeth fwyaf, ac mae bellach yn darparu sylfaen Rhaglen Atal Diabetes Cymru Gyfan oherwydd ei chanlyniadau trawiadol, ei defnydd darbodus o adnodd Deieteg a'i gallu i ehangu yn unol â'r galw.<sup>96</sup>

At hynny, gall Deietegwyr sy'n Uwch Ymarferwyr Clinigol sydd wedi'u hyfforddi i ddod yn bresgripsiynwyr atodol wneud y defnydd gorau o feddyginiaethau. Fel arbenigwyr ym maes rheoli Sylweddau Ffyniol Maethol, fel bwydydd heb glwten, atchwanegiadau maethol drwy'r geg, bwydo drwy'r ymysgaroedd a fformiwlâu babanod, mae ganddynt werth ac effaith amlwg mewn Gofal Sylfaenol wrth gefnogi diagnosis amserol a phresgripsiynu priodol. Mae gan ddeietegwyr rôl arbennig o bwysig o ran Alergedd Protein Llaeth Buwch, lle y gallant fynd i'r afael ag ymarfer amrywiol ac annheg, a chael effaith gadarnhaol sylweddol ar iechyd y plentyn a bwyd y teulu.

Mae'n werth nodi hefyd, mewn gwerthusiad diweddar i ddangos pwysigrwydd Deietegwyr fel rhan o dîm ambroffesiynol Drws Ffrynt yr Adran Achosion Brys yng Nghymru, bod data wedi dangos bod

<sup>90</sup> [Long-term symptom severity in people with irritable bowel syndrome following dietetic treatment in primary care. Seamark, et al., 2021 | Journal of Human Nutrition and Dietetics](#)

<sup>91</sup> [BDA Dieticians in Primary Care | 2017](#)

<sup>92</sup> [Overview | Osteoarthritis: care and management | Guidance | NICE](#)

<sup>93</sup> [https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/dogfen-ymgyngori\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-03/dogfen-ymgyngori_0.pdf)

<sup>94</sup> [llwybr-gordewdra.pdf \(llyw.cymru\)](#)

<sup>95</sup> [Prevention, Remission and Early Diagnosis - Quality In Care](#)

<sup>96</sup> [All Wales Quality Assured Brief Intervention Pre-Diabetes Pilot - Quality In Care](#)

28% o'r bobl a oedd yn dod yno o'r gymuned wedi'u nodi fel rhai sydd mewn perygl o ddiodeff o ddiffyg maeth ac fe'i cyfeiriwyd at y Deietegydd. Yn dilyn hynny, cafodd 37% o'r bobl hyn ddiagnosis a nododd eu bod yn diodeff o ddiffyg maeth clinigol gan ddefnyddio maen prawf Cymdeithas Maeth a Metabolaeth Clinigol Ewrop (ESPEN)<sup>97</sup>.

O ganlyniad, mae gan ddeietegwyr ran hanfodol i'w chwarae ar draws y llwybr system gyfan, gan gefnogi'r Model Gofal Sylfaenol a strategaeth a chynllun cyflawni Pwysau Iach Cymru Iach 2020 i 2022.<sup>98 99</sup> Mae ganddynt rôl bwysig hefyd o ran lliniaru effeithiau COVID-19 ar y grwpiau bregus hynny y nodwyd bod ganddynt risgiau uwch.<sup>100</sup>

Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae gallu Deietegwyr i gynyddu eu cynnig mewn Gofal Sylfaenol yn cael ei gyfaddawdu gan y gofynion gofal eilaidd sy'n cystadlu am y gweithlu cyfyngedig hwn.

At hynny, er bod dysgu o dystiolaeth a gwerthusiadau arfer gorau yn dangos canlyniadau sylweddol o ran hunanreolaeth ac effaith system gyfan,<sup>101 102</sup> mae pwyslais ar gapasiti meddygon teulu a chynaliadwyedd y gwasanaeth meddygol cyffredinol ac absenoldeb ffocws neu gyllid system gyfan, hefyd wedi cyfrannu at gyfygu ar allu Deietegwyr i ymchwilio i gyfleoedd i drawsnewid y gwasanaeth a ddarperir

Neges allweddol y deietegwyr yw'r uchelgais i gael mwy o bresenoldeb mewn Gofal Sylfaenol, gan ddarparu mynediad hawdd i'w gwybodaeth arbenigol mewn modd amserol. Maent yn cynnig bod continwrm eu darpariaeth yn cwmpasu Gofal Sylfaenol er mwyn cyflawni'r uchelgais o gyflwyno model gofal system gyfan yn seiliedig ar le, gyda Deietegwyr yn cael eu cydnabod fel aelod hanfodol o'r Tîm Gofal Sylfaenol.

Yn gadarnhaol, mae'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n ofynnol i gefnogi'r trawsnewidiad hwn ar gyfer y gweithlu hefyd yn cael eu cefnogi drwy ddatblygu fframwaith cymwysterau Uwch Ymarfwyr Cliniogol Deieteg.<sup>103</sup>

## 6.6 Therapi Galwedigaethol

Therapyddion Galwedigaethol yw'r unig Broffesiynau Perthynol i Iechyd sydd wedi'u hyfforddi i lefel gradd fel gweithwyr proffesiynol gofal iechyd meddyliol yn ogystal â chorfforol. Maent wedi'u haddysgu mewn iechyd corfforol, seicolegol a meddyliol, ac mewn penderfynyddion cymdeithasol iechyd. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi pobl sy'n profi materion cymhleth ar draws y sbectrwm hwn o anghenion cleifion. Gan fabwysiadu dull person cyfan tuag at anghenion iechyd a llesiant corfforol a meddyliol, mae Therapyddion Galwedigaethol yn grymuso ac yn galluogi pobl i gyflawni eu potensial llawn, gan gynyddu annibyniaeth swyddogaethol, iechyd ac adferiad i'r eithaf, fel y gallant wneud y gweithgareddau (neu'r galwedigaethau) hynny sydd o bwys iddyn nhw, yn yr amgylchedd sydd orau ganddyn nhw.<sup>104 105</sup>

Mae deall effaith cyflyrau iechyd datblygiadol, corfforol a meddyliol ar weithrediad dyddiol a galluogi pobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau yn gyfraniadau unigryw a phwysig gan Therapyddion

<sup>97</sup> [ESPEN](#)

<sup>98</sup> [Strategaeth pwysau iach \(Pwysau Iach Cymru Iach\) | GOV.WALES](#)

<sup>99</sup> [Cynllun Cyflawni Pwysau Iach: Cymru Iach 2020 i 2022](#)

<sup>100</sup> [Rehabilitation Guidance for Vulnerable Groups identified as having higher risks of the impacts of COVID-19 | SPPC](#)

<sup>101</sup> [Dietitian support in primary care | Hickson et al. 2020](#)

<sup>102</sup> [Effectiveness of Dietetic Consultations in Primary Health Care: A Systematic Review of Randomized Controlled Trials | Mitchell et al. 2017](#)

<sup>103</sup> [Advanced Practice \(bda.uk.com\)](#)

<sup>104</sup> [What is Occupational Therapy? OT Explained - RCOT](#)

<sup>105</sup> [Making personalised care a reality: The role of Occupational Therapy | RCOT](#)

Galwedigaethol.<sup>106 107 108 109</sup> Mae eu hymarfer yn rhychwantu pob grŵp oedran, ac mae ganddynt arbenigedd mewn atal, ymyrraeth gynnar a hunanreolaeth.

Mae hyn yn golygu bod Therapyddion Galwedigaethol yn gallu gweithredu fel clinigwyr iechyd meddwl cymeradwy, gan ehangu eu rôl broffesiynol graidd a chymryd rhan mewn lefel uwch o ymarfer yng nghyd-destun rôl ymarferydd iechyd meddwl.<sup>110</sup>

Maent hefyd yn cyd-fynd yn dda â hybu iechyd, yn yr ystyr eu bod yn gwerthfawrogi pwysigrwydd hybu llesiant meddyliol a chorfforol ac iechyd yn y gweithle, gan ddarparu hyblygrwydd a gallu i addasu wrth ddefnyddio Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol i ddiwallu anghenion y boblogaeth leol.<sup>111 112</sup>

Mae Therapyddion Galwedigaethol mewn Gofal Sylfaenol yn rhoi cyfle i bobl gael gafael ar y cymorth cywir yn gynharach, a lleihau effaith problemau iechyd meddwl drwy ganolbwyntio ymyriadau ar y canlyniadau sy'n bwysig iddyn nhw mewn gwirionedd.<sup>113</sup> O ganlyniad, nodwyd eu bod yn 'gweddu i'r dim' i Ofal Sylfaenol<sup>114 115 116</sup> a chrynhwyd y prif fanteision amlwg fel y gallu i:

- ✓ Leihau'r galw ar feddygon teulu drwy fynd i'r afael â materion gweithredol sylfaenol sydd wrth wraidd cysylltiadau lluosog a rheolaidd ag Ymarfer Cyffredinol, a datrys y materion hynny
- ✓ Defnyddio gwybodaeth unigryw ac arbenigol i wella'r Tîm Gofal Sylfaenol, gan ddarparu sgiliau galluogi a datrys problemau ymarferol i gynorthwyo pobl i fyw bywyd yn eu ffordd eu hunain, ynghyd â chwmpas eang o ymarfer sy'n darparu'r gallu i addasu er mwyn cyflawni blaenoriaethau'r boblogaeth leol.
- ✓ Rhyddhau capasiti proffesiynol drwy fynd i'r afael â dirywiad swyddogaethol, galluogi pobl i wneud y gorau o'u potensial eu hunain, hyrwyddo hunanreolaeth, atal afiechyd a dibyniaeth, a defnyddio adnoddau'n ddarbodus.
- ✓ Datrys problemau iechyd a chymdeithasol yn rhagweithiol ar gam cynnar, gan leihau sefyllfaoedd argyfwng sy'n arwain at gyflwyno / derbyn i wasanaethau gofal eilaidd
- ✓ Darparu asesiad swyddogaethol Therapi Galwedigaethol arbenigol er mwyn nodi a chyfleu arwyddion o afiechyd a chefnog diagnosis gwahaniaethol

Yn nodedig, ar hyn o bryd mae Therapyddion Galwedigaethol yn gweithio'n llwyddiannus mewn amrywiaeth o leoliadau Gofal Sylfaenol yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig ehangach mewn amrywiaeth o rolau a lefel ymarfer, fel rhan o fodolau tîm Gofal Sylfaenol trawsddisgyblaethol a rhyngddisgyblaethol, yn ogystal ag o fewn y continwmm ehangach o Ddarpariaeth Gofal Sylfaenol, sy'n cael effaith gadarnhaol ar drawsnewid gwasanaethau.

Mae hyn yn arbennig o amlwg mewn meysydd fel eiddilwch a hunanreoli cyflyrau hirdymor, sy'n aml yn defnyddio dull gofal rhagweladwy i sicrhau'r effaith orau, ymgysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol, iechyd meddwl (gan gynnwys rolau ymarferydd iechyd meddwl), gwybyddiaeth ac

<sup>106</sup> [The emerging role of occupational therapy in primary care | Donnelly et al., 2014](#)

<sup>107</sup> <https://primarycareone.nhs.wales/files/ot-resources/rcot-factsheet-gp-services-2015-pdf/>

<sup>108</sup> [Leading fulfilled lives Occupational therapy supporting people with learning disabilities | RCOT](#)

<sup>109</sup> [Occupational therapy: Unlocking the potential of children and young people | RCOT](#)

<sup>110</sup> [mental-health-act-1983-approval-of-approved-clinicians-wales-july-2018.pdf \(gov.wales\)](#)

<sup>111</sup> [The integration of occupational therapy into primary care: a multiple case study design - PubMed \(nih.gov\)](#)

<sup>112</sup> [Good work for good health: The difference Occupational Therapy makes | RCOT](#)

<sup>113</sup> [Getting my life back: Occupational therapy promoting mental health and wellbeing in Wales | RCOT 2018](#)

<sup>114</sup> [Therapyddion Galwedigaethol - Gofal Sylfaenol Un \(nhs.wales\)](#)

<sup>115</sup> [Sustainability and Transformation Plans | British Journal of General Practice 2017](#)

<sup>116</sup> [Primary care in Singapore: an occupational therapy perspective - Ruth Usher, Deirdre Connolly, 2019 \(sagepub.com\)](#)

asesu'r cof ac adsefydlu.<sup>117</sup> Yn ogystal, mae Therapyddion Galwedigaethol yn ymgymryd ag asesiadau ffit i weithio sy'n defnyddio Adroddiad Iechyd a Gwaith Proffesiynau Perthynol i Iechyd sy'n darparu cymorth adsefydlu galwedigaethol penodol wedi'i deilwra, ac maent yn gyfranwyr allweddol at strategaethau cenedlaethol sy'n hyrwyddo'r cysylltiadau rhwng gwaith ac iechyd. Maent yn cefnogi eu cymheiriaid i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i godi'r cwestiwn yn ymwneud â gwaith yn rheolaidd gyda'u defnyddwyr gwasanaethau o oedran gweithio a darparu cyngor cysylltiedig â gwaith pan fo hynny'n briodol.<sup>118</sup>

Enghraifft dda o hyn yw cynnwys Therapyddion Galwedigaethol sydd â lefelau uwch o ymarfer clinigol yn Ardal / Clwstwr Sir Benfro, gan dynnu sylw at eu cynnig mewn perthynas ag iechyd yn y gweithle ac Adroddiad Iechyd a Gwaith y Proffesiynau Perthynol i Iechyd.<sup>119</sup> Mae Therapyddion Galwedigaethol yn cael effaith sylweddol fel rhan o fodel darpariaeth rhyngddisgyblaethol ac yn galluogi trawsnewid y Gwasanaeth Therapi Galwedigaethol cymunedol ehangach i ddarparu llwybr system gyfan. Yn ddiweddar, cyfeiriodd Comisiwn Bevan at fodel Ardal / Clwstwr Sir Benfro fel Esiampl Bevan wrth addasu ymarfer Therapyddion Galwedigaethol yn ôl gwerth ac effaith.<sup>120</sup>

Yn ogystal, cyfeiria'r Kings Fund<sup>121</sup> at gynnwys Therapyddion Galwedigaethol fel Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf fel rhan o'r Tîm Gofal Sylfaenol trawsddisgyblaethol sydd o fewn Prestatyn Iach<sup>122</sup>, fel cam hynod o fuddiol, ac mae wedi creu'r newid sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r Model Gofal Sylfaenol.

Maes ffocws sy'n datblygu yw'r cynnig a ddarperir gan Therapyddion Galwedigaethol pediatreg wrth gynorthwyo rhieni gyda phryderon cynyddol am lesiant a gweithrediad eu plant. Mae hyn wedi'i gyplysu â chynnydd yn nifer y rhieni sy'n cysylltu â'u meddyg teulu i gael cymorth oherwydd anawsterau'n ymwneud â llesiant, agweddau corfforol ar straen a phryder, ac iselder ysgafn, sy'n aml yn gysylltiedig â straen yn sgil magu plant ac effeithiau andwyol y pandemig, yn enwedig magu plentyn ag anghenion ychwanegol.

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn enghraifft o'r uchod, gan ddarparu cymorth a chynghor ar ffurf Therapi Galwedigaethol hygyrch, amserol a grymusol i wella hunanefeithiolrwydd, gwynwch a llesiant teuluoedd. Mae hyn yn golygu gweithio ar draws sectorau gydag addysg a phartneriaid yn y trydydd sector, drwy amrywiaeth o linellau cyngor, grwpiau rhithwir unigol ac anffurfiol, gan sicrhau mynediad agored nad yw'n seiliedig ar feini prawf ond sy'n cael ei arwain gan anghenion.<sup>123</sup>

Fodd bynnag, mae'r enghreifftiau hyn o ddatblygu ymarfer yn rhai ad hoc, sy'n aml yn digwydd mewn ymateb i drafodaeth fanteisgar, cyfleoedd cyllido, ac sy'n cyd-fynd â llwybrau presennol o ddarpariaeth mewn seilios sy'n aml yn gwahanu eu set sgiliau o ran ymateb i anghenion iechyd corfforol neu feddyliol, ac fel arfer yn cael ei ragfynegi gan fesuriadau proses darparwyr cysylltiedig, e.e. capasiti meddygon teulu. Er bod gwerthusiadau yn nodi bod y set sgiliau a'r cynnig cysylltiedig o Therapyddion Galwedigaethol mewn Gofal Sylfaenol yn werthfawr o ran anghenion iechyd y boblogaeth a dylanwad y system gyfan, mae absenoldeb datrysiad cyllid system gyfan cysylltiedig yn y pen draw yn effeithio ar eu defnydd. Mae ffynhonnell ariannu gynaliadwy aneglur yn cyfyngu ar drawsnewidiad ehangach y gwasanaeth a ddarperir ar draws y continwrm Gofal Sylfaenol.

<sup>117</sup> [Innovative treatment for people with mental health issues - Cwm Taf Morgannwg University Health Board](#)

<sup>118</sup> [The Wellbeing & Health Benefits Of Employment - RCOT](#)

<sup>119</sup> [Using occupational therapists in vocational clinics in primary care: a feasibility study | BMC Family Practice](#)

<sup>120</sup> [Hafan | Comisiwn Bevan](#)

<sup>121</sup> [Innovative Models of General Practice | The King's Fund 2018](#)

<sup>122</sup> [Healthy Prestatyn Iach | Healthy Prestatyn Iach](#)

<sup>123</sup> [Cefnogi Llinell Gyngor Rhianta Cadarnhaol - Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe \(nhs.wales\)](#)

Er gwaethaf galwad i gydnabod eu gwerth a'u pwysigrwydd wrth wireddu uchelgais Cymru iachach a chyflawni'r Model Gofal Sylfaenol,<sup>124</sup> nid yw Therapyddion galwedigaethol yn cael eu defnyddio fel mater o drefn mewn Gofal Sylfaenol er gwaethaf eu potensial i ddarparu sgiliau, cymorth ac adnoddau gwerthfawr i'r Tîm Gofal Sylfaenol.<sup>125</sup>

At hynny, er bod corff cynyddol o lenyddiaeth ryngwladol yn tynnu sylw at y cyfraniad y gall Therapi Galwedigaethol ei wneud fel Proffesiwn Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol,<sup>126 127 128 129</sup> mae eu rôl, eu sgiliau a'u cynnig dilynol yn aml yn cael eu camddeall, gyda Therapyddion Galwedigaethol yn aml yn cael eu hanwybyddu o ran cyfleoedd i gryfhau a thrawsnewid y Tîm Gofal Sylfaenol. Mae hyn wedi arwain at ddisgrifio Therapyddion Galwedigaethol fel y proffesiwn sy'n cael ei danddefnyddio fwyaf mewn Gofal Sylfaenol.<sup>130</sup>

Mae cwmpasu ymarfer cyfredol a dysgu o'r sylfaen dystiolaeth a gwerthusiadau arfer gorau yn datgelu bod y defnydd o Therapyddion Galwedigaethol mewn Gofal Sylfaenol yn cael ei ddylanwadu'n sylweddol gan eu hargaeledd. Mae Therapyddion Galwedigaethol yn cefnogi dyletswyddau statudol fel rhan o lwybrau cyflwyno haenedig presennol, gan gynnwys Mesur Iechyd Meddwl (Cymru)<sup>131</sup> a defnyddio eu sgiliau a'u gwybodaeth arbenigol wrth ddarparu addasiadau cartref cymhleth a defnyddio Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl.<sup>132 133</sup> Maent yn gweithio o fewn ac ar draws ffiniau sefydliadol iechyd a gofal gan gynnwys tai, cyflogaeth a'r trydydd sector i gefnogi dull gofal wedi'i bersonoli, ac yn aml nhw yw'r prif weithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd o fewn gofal canolraddol a gwasanaethau osgoi derbyniadau cysylltiedig. Mae Therapyddion Galwedigaethol yn defnyddio eu dull person cyfan o asesu anghenion cleifion ar y pwynt mynediad er mwyn galluogi pobl i gyflawni'r gweithrediad gorau posibl yn yr amgylchedd o'u dewis.<sup>134</sup> Mae gan hyn oblygiadau yn arbennig i boblogaethau sydd ar hyn o bryd ond yn gallu cael gafael ar wybodaeth arbenigol sydd o fewn y set sgiliau Therapi Galwedigaethol drwy wasanaethau gofal eilaidd e.e. poblogaeth 2 a Chyflyrau Cyhyrsgerbydol.

Yn gadarnhaol, mae tystiolaeth a dealltwriaeth gynyddol o werth Therapi Galwedigaethol mewn Gofal Sylfaenol o ran sicrhau bod unigolyn yn derbyn y gwasanaeth a'r gefnogaeth briodol. Mae hyn wedi'i fframio gan ddealltwriaeth o'r cymorth ymarferol y maent yn ei darparu mewn rhai meysydd ymarfer mewn perthynas ag offer ac addasiadau sy'n grymuso pobl i hwyluso eu hadferiad a goresgyn rhwystrau sy'n eu hatal rhag gwneud y pethau sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, mae ehangder y defnydd o set sgiliau Therapi Galwedigaethol mewn Gofal Sylfaenol mor bellgyrhaeddol fel nad yw'n syndod y dangoswyd ei fod yn llai tebygol o gael ei ddeall nag unrhyw ddarparwr iechyd Gofal Sylfaenol arall.<sup>135</sup>

Ar ben hynny, canfuwyd bod y pwyslais ar gynnwys presgripsiynu cymdeithasol mewn modelau gwasanaeth Gofal Sylfaenol i fynd i'r afael â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd, fel unigrwydd

<sup>124</sup> [Reducing the pressure on hospitals: A report on the value of occupational therapy in WALES | RCOT](#)

<sup>125</sup> [Occupational therapy in primary care: exploring the role of occupational therapy from a primary care perspective | British Journal of General Practice \(bjgp.org\)](#)

<sup>126</sup> [Occupational therapy's role in preventing acute readmissions | Roberts & Robinson 2014](#)

<sup>127</sup> [Occupational therapy in primary care: exploring the role of occupational therapy from a primary care perspective. Chamberlain et al., 2019 | British Journal of General Practice \(bjgp.org\)](#)

<sup>128</sup> [Scoping review: occupational therapy interventions in primary care | Bolt et al., 2019](#)

<sup>129</sup> [Occupational therapy and primary care | Bolt et al., 2019](#)

<sup>130</sup> [Interprofessional Primary Care: The Value of Occupational Therapy | Dahl-Popolizio et al., 2016](#)

<sup>131</sup> [Mesur Iechyd Meddwl \(Cymru\)](#)

<sup>132</sup> [Adaptations without delay: A guide to planning and delivering home adaptations differently | RCOT](#)

<sup>133</sup> [Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

<sup>134</sup> [Relieving the pressure on social care the value of occupational therapy | RCOT](#)

<sup>135</sup> [The integration of occupational therapy into primary care: A multiple case study design | Donnelly et al. 2013](#)

sy'n cael dylanwad sylweddol ar ddefnydd y gwasanaeth iechyd a chanfyddiadau o symptomau fel poen a phryder, yn ychwanegu dryswch o ran yr hyn a gynigir gan Therapi Galwedigaethol.

Felly, er bod galluogi cyfranogiad cymdeithasol yn rhan greiddiol o sgiliau ac arbenigedd Therapyddion Galwedigaethol ac y gall hynny wella continwmm gwasanaethau presgripsiynu cymdeithasol<sup>136</sup> - yn arbennig gweithio gyda phobl ag anghenion cymhleth sydd angen cymorth i ymgysylltu â phresgripsiynu cymdeithasol - nid presgripsiynwyr cymdeithasol ydyn nhw. Fodd bynnag, mae Therapyddion Galwedigaethol yn bartneriaid delfrydol i ddatblygu, adeiladu, goruchwylio a chefnogi datblygiad mentrau presgripsiynu cymdeithasol a fframwaith darpariaeth.<sup>137</sup>

Nid yw'n syndod bod y profiad bywyd o gael Therapyddion Galwedigaethol yn rhan o'r Tîm Gofal Sylfaenol, sydd yn ei dro yn hwyluso dealltwriaeth o'r set sgiliau Therapi Galwedigaethol, wedi bod yn amhrisiadwy i'w defnyddio'n ddarvoudus.

## 6.7 Orthopteg

Mae orthoptyddion yn gweithio'n annibynnol ym maes symudedd y llygaid a datblygiad gweledol o fewn arbenigedd ehangach Offthalmoleg, yn ogystal â gweithio ochr yn ochr ag arbenigeddau eraill gan gynnwys niwroleg, endocrinoleg, gwasanaethau strôc a phediatreg, fel rhan o dîm amlbroffesiynol ehangach sy'n helpu pobl i reoli symptomau gweledol eu cyflwr.

Maent yn arbenigwyr ar ddarganfod a thrin diffygion mewn symudiad llygaid a golwg deulygadog, a achosir gan broblemau gyda'r cyhyrau o amgylch y llygaid neu namau ar y nerfau sy'n galluogi'r ymennydd i gyfathrebu â'r llygaid.<sup>138</sup> Maent yn chwarae rhan annatod wrth asesu, gwneud diagnosis, rheoli, monitro ac adsefydlu anhwylderau'r llygaid a golwg ar draws pob oedran o enedigaeth i ddiwedd oes. Gall hyn gynnwys symptomau fel golwg gwaeth (amblyopia) neu olwg aneglur, golwg osgiliadol neu olwg dwbl (diplopia), camliniad (strabismus neu lygad croes) neu symudiad afreolus y llygaid a safleoedd annormal y pen.

Fel darparwyr annatod gwasanaethau iechyd llygaid sylfaenol mae'n hanfodol bod Orthoptyddion yn cyfrannu at wasanaethau sy'n defnyddio eu sylfaen sgiliau i sicrhau'r canlyniadau gorau a gofal o'r ansawdd gorau.

Wedi'u lleoli mewn lleoliadau gofal eilaidd a chlinigau allgymorth cymunedol, mae Orthoptyddion yn cynnig asesiadau arferol ac argyfwng i bobl, ac maent yn rhan annatod o'r weledigaeth a'r trawsnewidiad sy'n datblygu i ddarparu darpariaeth gofal llygaid di-dor ledled Cymru<sup>139</sup> a datblygiad parhaus gofal yn nes at adref. Mae orthoptyddion yn gweithio gydag Ymarferwyr cyffredinol, fferyllwyr, offthalmolegwyr, gweithwyr adsefydlu ac eraill ar draws lleoliadau i ddarparu gwasanaeth gofal llygaid integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau bod pobl yn cael mynediad amserol gan y gwasanaeth mwyaf priodol i ddiwallu eu hanghenion mewn lleoliad hygyrch.

Yn bwysig, mae Orthoptyddion yn arwain y gwaith o adrodd ar Sgrinio Golwg mewn ysgolion yng Nghymru, gan gymryd atgyfeiriadau uniongyrchol gan gydweithwyr Gofal Sylfaenol sy'n Ymwelwyr Iechyd ac yn Nyrsys Iechyd. Yn fwy diweddar, maent yn ymgymryd â rolau Ymarferydd Arbenigol

<sup>136</sup> [Occupational Therapy role -social prescribing | RCOT](#)

<sup>137</sup> [RCOT Informed View - Social Prescribing 2020](#)

<sup>138</sup> [What is an Orthoptist? - British and Irish Orthoptic Society](#)

<sup>139</sup> [NHS Wales Eye Health Care - Future Approach for Optometry Services \(gov.wales\)](#)

ym maes offthalmoleg, gan reoli diagnosteg a thrin cyflyrau fel Glawcoma a Macwlopathi sy'n Gysylltiedig ag Oed.

Ar hyn o bryd, mae orthoptyddion yn gallu cyflenwi a rhoi rhai meddyginiaethau o dan esemptiadau ac maent wedi galw am ymestyn hawliau presgripsiynu er mwyn gwneud y gorau o'u cynnig a sicrhau'r effaith fwyaf posibl.<sup>140</sup>

## 6.8 Parafeddygon

Mae parafeddygon wedi'u hyfforddi ym mhob agwedd ar ofal mewn argyfwng cyn-ysbyty, yn amrywio o broblemau aciwt i broblemau brys. Fodd bynnag, yn ogystal â gofal mewn argyfwng a gofal brys, mae cyfran fawr o'r boblogaeth yn defnyddio'r gwasanaeth ambiwlans gydag amrywiaeth o anghenion gan gynnwys cyflyrau hirdymor, cyflyrau sydd wedi gwaethygu i fod yn gyflyrau aciwt, salwch ac anafiadau.

Mewn ymateb, mae'r proffesiwn Parafeddygon wedi esblygu o fod yn ddarparwr triniaeth a chlodiant i fod yn ddarparwr gofal iechyd symudol,<sup>141</sup> gan ddiwallu anghenion newidiol gofal tuag at ddarpariaeth gymunedol a chefnogi pobl i ymdopi yn amgylchedd eu cartref.

Mae hyn yn golygu bod Parafeddygon yn datblygu'r sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol i drin a rheoli anghenion cynyddol gymhleth. Mae'r rhain yn cynnwys cefnogi pobl â chyflyrau hirdymor aciwt-cronig; cefnogi pobl ag anghenion iechyd meddwl aciwt neu sy'n profi argyfwng yn eu hiechyd meddwl; cynnal asesiadau gofal cymdeithasol i osgoi eu cludo'n amhriodol i'r ysbyty a chynorthwyo i benderfynu ar yr ateb mwyaf priodol i gefnogi anghenion cleifion; ac ystod o ofal brys lle caiff claf ddiagnosis o gyflwr am y tro cyntaf.

O ganlyniad, datblygwyd Fframwaith Galluoedd Craidd<sup>142</sup> sy'n nodi'r ystod o alluoedd a ddisgwyllir gan yr arbenigwr Parafeddyg mewn Gofal Sylfaenol a Gofal Brys.

Nid yw'n syndod bod set sgiliau Parafeddygon yn cael ei defnyddio fwyfwy mewn Gofal Sylfaenol, gan gwmpasu Practisau Cyffredinol, unedau mân anafiadau a salwch, canolfannau cerdded i mewn a datblygu Canolfannau Gofal Sylfaenol Brys. Mae hyn yn dangos cydnabyddiaeth o'r cyfraniad y gall parafeddygon ei wneud at ofal effeithiol a diogel mewn lleoliadau cymunedol, yn ogystal â datblygu Tîm Gofal Sylfaenol rhyngddisgyblaethol effeithiol.

Er mwyn cefnogi gwneud y gorau o set sgiliau Parafeddygon a'r hyn sydd ganddynt i'w gynnig, mae'r Coleg Parafeddygon wedi darparu canllaw cyflogwr i ddarparwyr gofal iechyd Sylfaenol a Brys er mwyn deall rôl parafeddygon, a sut y gallant ymarfer a datblygu o fewn Gofal Sylfaenol a Gofal Brys.<sup>143</sup>

Fodd bynnag, mae adolygiad systematig diweddar o gyfraniad Parafeddygon yn y meysydd Gofal Sylfaenol a Gofal Brys<sup>144</sup> wedi canfod nad yw datblygiad y rolau hyn wedi digwydd mewn ffordd gyson, a cheir amrywiaeth o wahanol raglenni, teitlau swyddi a chwmpas ymarfer ar gyfer Parafeddygon sy'n gweithio yn y meysydd hyn. Mewn rhai achosion mae hyn wedi cael effaith negyddol ar ddealltwriaeth neu ganfyddiad y cyhoedd o'u cynnig.

<sup>140</sup> [Independent Prescribing - British and Irish Orthoptic Society](#)

<sup>141</sup> [Primary and Urgent Care \(collegeofparamedics.co.uk\)](#)

<sup>142</sup> [Paramedic Specialist in Primary and Urgent Care Core Capabilities Framework](#)

<sup>143</sup> [CoP Employers Guide PUC 310719.pdf](#)

<sup>144</sup> [Contribution of paramedics in primary and urgent care: a systematic review | British Journal of General Practice 2020 \(bjgp.org\)](#)

At hynny, mae cwmpasu'r ymarfer cyfredol yn datgelu y gall y cynnig Parafeddyg gael ei ddiffinio'n wael a'i deilwra'n aml i'r gwerth a'r effaith a bennir gan y ffynhonnell ariannu, a mesuriadau proses darparwyr cysylltiedig. Efallai na fydd mesuriadau proses o'r fath, fel yr amlygwyd yn flaenorol, yn cyd-fynd â chefnogi trawsnewid system gyfan er mwyn cyflawni'r Model Gofal Sylfaenol, gan gyfrannu at ddefnydd a datblygiad amrywiol Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Mae goblygiadau hyn yn arbennig o arwyddocaol o ran cynllunio'r gweithlu a chyflenwad cynaliadwy a'i siâp.<sup>145</sup>

Nododd yr adolygiad systematig hefyd fod Parafeddygon yn cyfrannu'n bennaf at y gweithlu Gofal Sylfaenol drwy weithio o fewn model tîm, ac roedd eu rôl (waeth beth fo'u teitl) yn canolbwyntio'n gyffredinol ar gefnogi pobl â chyflwr anwahaniaethol neu sydd heb ei ddiagnosis. Yn ogystal, amlygodd yr adolygiad y ffaith y gall Parafeddygon sy'n Uwch Ymarferwyr Clinigol ddod yn bresgripsiynwyr annibynnol a'r cyfle y mae'r gweithlu Parafeddygol yn ei gyflwyno o ran rhyddhau capasiti ymarferwyr cyffredinol. Fodd bynnag, tynnwyd sylw hefyd at y gofyniad am oruchwyliaeth glinigol a allai ymestyn yr amseroedd ymgynghori, cynyddu camau yn nhaith y claf ac felly mae'r effaith ar lwyth gwaith meddygon teulu yn parhau i fod yn aneglur.

Nododd yr adolygiad hefyd fod llawer o Barafeddygon yn ymgymryd â rôl cylchdro yn y maes Gofal Sylfaenol gan gadw'r gwasanaeth ambiwlans fel eu prif gyflogwr, a bod angen gwerthusiad cadarn pellach o sut, pam ac o dan ba amgylchiadau y gellir defnyddio sgiliau Parafeddygol i'r eithaf.

Yn ddefnyddiol, mae'r Rhaglen Ymarferwyr Parafeddygol Uwch a ariennir gan y rhaglen pennu cyfeiriad,<sup>146</sup> a gynhaliwyd gan Academi Gofal Sylfaenol a Chymunedol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BCUHB),<sup>147</sup> yn adeiladu ar astudiaethau dichonoldeb cam cynnar blaenorol o'r model Parafeddyg cylchdro<sup>148</sup> ac yn darparu gwerthusiad o'r fath.

Mae'r rhaglen pennu cyfeiriad hon yn cydnabod, o safbwynt system gyfan, bod modelau cyfredol o ofal iechyd yn aml yn cael eu darparu mewn seilos ac yn aneffeithlon, gyda sefydliadau'n cystadlu am yr un adnoddau staff sy'n cyfaddawdu eu gallu i gyflawni'r Model Gofal Sylfaenol. Pwrpas y prosiect hwn a ariennir gan Lywodraeth Cymru felly yw profi model patrwm gweithio cylchdroadol estynedig, yn dilyn prosiect peilot mewnol llwyddiannus. Mae ei bartneriaid allweddol yn cynnwys y Bwrdd Iechyd, Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwllans Cymru (WAST), a phum Ardal Iechyd a Gofal Cymdeithasol (clystyrau) o fewn ôl troed priodol y Bwrdd Iechyd.

Nod y prosiect pennu cyfeiriad hwn yw deall manteision model cylchdro Gofal Sylfaenol o ran ei addasrwydd a'i hyfywedd, drwy werthuso gan ddefnyddio nifer o ddulliau ar lefel leol a rhanbarthol, gan aelodau o Dîm y Prosiect, clystyrau, a thrwy werthusiad annibynnol ffurfiol, gan ganolbwyntio ar yr elfennau allweddol canlynol o'r prosiect:

- Effaith ar Ofal Sylfaenol a'r clwstwr i gefnogi cynaliadwyedd y gweithlu a phrofiad cleifion, yn ogystal â datblygu'r Tîm Gofal Sylfaenol ar sail 'unwaith i Gymru'
- Effaith ar WAST o ran ailgyflwyno manteision gwybodaeth system glinigol a gofal sylfaenol estynedig i ymarfer clinigol wrth weithio gyda Gwasanaethau Ambiwllans Cymru
- Anghenion dysgu a datblygu Parafeddygon Ymarfer Clinigol Uwch a gofynion seilwaith i gefnogi hyn, gan gynnwys profiad Parafeddygon sy'n Uwch Ymarferwyr

<sup>145</sup> Cymru Iachach: Ein Strategaeth Gweithlu ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol (2020)

<sup>146</sup> Advanced Paramedic Practitioners Programme – Primary and Community Care Academy ([primarycare-online.co.uk](http://primarycare-online.co.uk))

<sup>147</sup> Home | BCUHB Primary and Community Care Academy ([primarycare-online.co.uk](http://primarycare-online.co.uk))

<sup>148</sup> Feasibility Study of the Rotating Paramedics Pilot | 2018 ([hee.nhs.uk](http://hee.nhs.uk))



- Gwerthusiad economaidd o werth ac effaith system gyfan, gyda chefnogaeth Canolfan Gofal Sylfaenol ac Argyfwng Cymru (Canolfan PRIME Cymru)<sup>149</sup>, a'r Ganolfan Gwerthuso Economeg Iechyd a Meddyginiaethau (CHEME)<sup>150</sup>

Mae'r prosiect yn nodi gwerth y model cylchdro ynghyd â ffyrdd effeithiol y gellir integreiddio Parafeddygon sy'n Uwch Ymarferwyr Clinigol yn y Tîm Gofal Sylfaenol ehangach er mwyn gallu gwneud y defnydd gorau o'u cynnig a'u set sgiliau a sicrhau bod ein poblogaeth yn derbyn y gofal gorau posibl.

Fodd bynnag, er bod y prosiect hwn yn dangos gwerth ac effaith dull system gyfan, mae absenoldeb datrysiad cyllido system gyfan cysylltiedig yn peryglu'r prosiect hwn o ran ei gynaliadwyedd a'r strategaeth ymadael gysylltiedig.

## 6.9 Ffisiotherapi

O gofio mai arthritis a chyflyrau Cyhyrsgerberbydol hirdymor eraill yw'r cyflyrau cronig a adroddir amlaf ar draws pob grŵp oedran,<sup>151</sup> mae'r cyfle i ddefnyddio Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd i ddarparu gofal Cyhyrsgerberbydol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ar y pwynt cyswllt cyntaf yn dra hysbys.<sup>152</sup> Gall Proffesiynau Perthynol i Iechyd ryddhau capasiti mewn Gofal Sylfaenol, gwella strategaethau hunanreoli, a chefnogi mynediad at wasanaethau gofal eilaidd a gwneud y defnydd gorau ohonynt. Adlewyrchir hyn yn y cyfleoedd sy'n datblygu mewn perthynas â Chanolfannau Gofal Sylfaenol Brys a mentrau mewn ymateb i'r pandemig sy'n ymwneud â grŵp poblogaeth 2.

Mae gan Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd sy'n cwmpasu Ffisiotherapyddion, Therapyddion Galwedigaethol, Podiatryddion, Parafeddygon, Deietegwyr a Seicolegwyr hanes o lefelau ymarfer uwch o ran rhesymu clinigol a sgiliau diagnostig ar draws gwahanol elfennau o'r llwybr Cyhyrsgerberbydol, yn enwedig rhiwmatoleg, orthopaedeg a rheoli poen. Mae ffisiotherapyddion yn benodol yn datblygu eu cynnig yn sylweddol i gynnwys therapïau pigiadau a phresgripsiynau annibynnol, a threfnu ymchwiliadau diagnostig.

Mae ffisiotherapyddion yn hanfodol bwysig o ran helpu pobl i adfer symudiad a swyddogaeth oherwydd anaf, salwch neu anabledd, drwy symud ac ymarfer corff, therapi â'r dwylo, addysg a chynghor. Gallant hefyd helpu i leihau risg unigolyn o anaf neu salwch yn y dyfodol, a chynnal iechyd i bobl o bob oed, gan gynorthwyo pobl i reoli poen ac atal afiechyd.

Mae'r cynnig Ffisiotherapi ar draws Gofal Sylfaenol a Chymunedol yn eang ac yn arwyddocaol. Mae'n cwmpasu: rheoli cyflyrau hirdymor; adsefydlu ysgyfeiniol; iechyd y pelfis; pob un o bedair colofn gofal canolraddol gan gynnwys osgoi derbyniadau i'r ysbyty, ail-alluogi ac adsefydlu mewn partneriaeth â darparu gwasanaeth cymunedol fel rhan o'r broses rhyddhau i adfer ac asesu modelau; eiddilwch a chwympiadau; cyn ac ar ôl llawdriniaeth orthopaedeg, trawma, ac adsefydlu ar ôl strôc; a gwasanaethau pediatreg. Mae ffisiotherapyddion yn gweithio ar draws llwybrau a lleoliadau gan gynnwys cefnogi pobl â dirywiad gwybyddol a dementia, anableddau dysgu ac anawsterau iechyd meddwl a llesiant. Darperir llawer o wasanaethau Ffisiotherapi ar hyd llwybr penodol neu gontinwmm darpariaeth.

<sup>149</sup> [Canolfan PRIME Cymru](#)

<sup>150</sup> [Croeso | Canolfan Economeg Iechyd a Gwerthuso Meddyginiaethau | Prifysgol Bangor](#)

<sup>151</sup> [Arthritis a chyflyrau cyhyrsgerberbydol | senedd.cymru](#)

<sup>152</sup> [A retrospective review of the influences, milestones | arma.uk.net](#)

Cydnabyddir bod Ffisiotherapyddion yn gwneud cyfraniad hanfodol at garfan ddiagnostig Cyflyrau Cyhyrsgerbydol drwy ddefnyddio eu sgiliau ymarfer craidd a datblygedig. Ar hyn o bryd mae'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi wedi canolbwyntio eu model arfaethedig o ymarfer Gofal Sylfaenol ar Gyflyrau Cyhyrsgerbydol. O ganlyniad, mae hyn yn cael ei hyrwyddo a'i drosi i drafodaethau a datblygiadau'n ymwneud â pholisi a gwasanaeth. Mae'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi wedi diffinio Ffisiotherapydd Ymarferydd Cyswllt Cyntaf fel Ffisiotherapydd sy'n Uwch Ymarferydd sydd â'r sgiliau uwch sy'n angenrheidiol i asesu, diagnosiso a rheoli problemau cyhyrsgerbydol. Maent yn nodi bod y model hwn o ymarfer Ffisiotherapi yn amlwg yn wahanol i hunanatgyfeirio oherwydd bod y clinigydd wedi'i ymgorffori fel rhan o'r Tîm Gofal Sylfaenol.<sup>153 154</sup> Mae ymchwil a gomisiynwyd gan y Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi ar werth ac effaith Ffisiotherapyddion sy'n Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerbydol<sup>155</sup> wedi bod yn sail i ganllaw ar weithredu gwasanaethau Ffisiotherapi mewn ymarfer cyffredinol sy'n benodol i bob un o'r pedair Gwlad,<sup>156</sup> a hefyd gyfres o adnoddau i gefnogi gwasanaethau Ffisiotherapi Ymarferwyr Cyswllt Cyntaf mewn Gofal Sylfaenol.<sup>157</sup>

Yn nodedig, er bod cyrff proffesiynol Proffesiynau Perthynol i Iechyd eraill yn datblygu fframweithiau o gymwysterau Gofal Sylfaenol penodol i nodi a dogfennu galluedd craidd a chefnogi datblygiad rolau Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol, gan sicrhau safonau gofynnol ar gyfer diogelwch ac effeithiolrwydd, mae'r Gymdeithas Siartredig Ffisiotherapi wedi cyfrannu'n sylweddol at Fap Ymarfer ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerbydol Health Education England.<sup>158</sup> Mae'r map hwn yn cyfleu galluedd a gofynion goruchwylio cysylltiedig clinigwyr, er mwyn sicrhau'r gofal gorau i'r boblogaeth â chyflyrau cyhyrsgerbydol. Noda mai dyma'r fframwaith a argymhellir ar gyfer cymwysterau Ffisiotherapi mewn Gofal Sylfaenol ac mae'n nodi blaenoriaeth i gyflyrau cyhyrsgerbydol o ran defnyddio'r gweithlu Ffisiotherapi.

Ar hyn o bryd mae Grŵp Cynghori Arweinwyr Ffisiotherapi Cymru yn adleisio'r ffocws hwn, sy'n gweithio ar y cyd ledled Cymru a gyda'i bartneriaid ehangach i ddatblygu'r cynnig ymarferwyr Ffisiotherapi ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerbydol sy'n gweithio ym maes Gofal Sylfaenol. Mae sylw Grŵp Cynghori Arweinwyr Ffisiotherapi Cymru hyd yma wedi bod ar ddatblygu rolau, manteision, boddhad defnyddwyr, trawsnewid llwybr, hyfforddiant ac addysg.

Yn bwysig, mae astudiaethau sy'n dangos effeithiolrwydd ac yn nodi'r amodau sy'n ffafriol i optimeiddio'r cynnig Ffisiotherapi mewn Gofal Sylfaenol, ac wrth wneud hynny yn tynnu sylw at faterion a allai effeithio ar wireddu potensial llawn y model hwn,<sup>159 160</sup> hefyd yn llywio modelau ymarfer sy'n datblygu.

Dylid nodi'n arbennig y defnydd o fodel sesiynol. Er ei fod yn aml yn deillio o'r galw am weithlu a'r capasiti cysylltiedig, mae hefyd yn galluogi cyflwyno cynllun swydd cymysg sy'n dod â manteision gwybodaeth glinigol estynedig a gwybodaeth estynedig am y system Gofal Sylfaenol yn ôl i gontinwrm ehangach darpariaeth gwasanaeth ffisiotherapi. Fodd bynnag, gall y model darpariaeth sesiynol hwn arwain at ystyried Ffisiotherapydd sy'n Ymarferydd Cyswllt Cyntaf ar gyfer Cyflyrau

<sup>153</sup> [Physiotherapy in primary care - summary briefing | The Chartered Society of Physiotherapy \(csp.org.uk\)](#)

<sup>154</sup> [FCP roles | The Chartered Society of Physiotherapy](#)

<sup>155</sup> [Evidence shows huge benefits of FCP | The Chartered Society of Physiotherapy \(csp.org.uk\)](#)

<sup>156</sup> [A guide to implementing physiotherapy services in general practice | The Chartered Society of Physiotherapy \(csp.org.uk\)](#)

<sup>157</sup> [FCP Physiotherapy resources | CSP](#)

<sup>158</sup> [Multi Professional First Contact Practitioners and Advanced Practitioners in Primary Care: \(Musculoskeletal\) A Roadmap to Practice](#)

<sup>159</sup> [First point of contact physiotherapy: a qualitative study | Goodwin, et al., 2020](#)

<sup>160</sup> [FRONTIER STUDY – FIRST CONTACT PHYSIOTHERAPY IN PRIMARY CARE](#)

Cyhyrsgerberbydol fel clinigwr sy'n ymweld, gan gyfyngu ar ei allu i gydweithio neu gyfathrebu â chydweithwyr, gan effeithio ar ddeinamig tîm ac o bosibl gyfyngu ar ei allu i gyfrannu fel aelod o Dîm Gofal Sylfaenol trawsddisgyblaethol neu ryngddisgyblaethol.

Gellid dadlau nad yw trosglwyddo dull clinigol traddodiadol o ddarparu gwasanaeth, yn lle model trawsnewidiol lle y gellir cymhwyso'r set sgiliau Ffisiotherapi ac ymateb i anghenion cleifion, yn gwneud y defnydd gorau o'u set sgiliau a bod hynny'n ddi-fudd. A hynny oherwydd nad yw dull traddodiadol o ddarparu gwasanaeth mewn clinig yn arwain at y newid gofynnol mewn diwylliant ac ymarfer clinigwyr Proffesiynau Perthynol i Iechyd na'r ymateb cyfannol gofynnol i ddiwallu anghenion ein poblogaeth.

At hynny, mae'r sgiliau a'r cymwysterau a'r fframwaith llywodraethu clinigol cysylltiedig ar gyfer rhai Ffisiotherapyddion a gyflogir yn uniongyrchol gan Glystyrau neu Bractisau yn aml yn aneglur. Adroddwyd am fwy o achosion o osgoi risg ac atgyfeiriadau at wasanaethau Ffisiotherapi Byrddau Iechyd, a thrwy hynny ryddhau capasiti meddygon teulu ond o bosibl lleihau ansawdd y cymorth a ddarperir i'r unigolyn gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd. Yn hanfodol, os yw Ffisiotherapi gan Ymarferydd Cyswllt Cyntaf i gael gwir effaith ac ychwanegu gwerth at ofal yn seiliedig ar le, mae angen dull cyson o ariannu a datblygu sgiliau i ddiwallu anghenion cleifion a blaenoriaethau sy'n cystadlu â'i gilydd.

Bydd y model sesiynol hwn yn parhau yn absenoldeb model cyllido cenedlaethol unedig y cytunwyd arno ar gyfer adnodd Proffesiynau Perthynol i Iechyd. O ganlyniad, gyda'r model hwn wedi'i efelychu ar draws Ffisiotherapyddion a gyflogir yn uniongyrchol a'r rheini ar Gytundebau Lefel Gwasanaeth penodol rhwng clwstwr neu Feddygfa Gyffredinol a'r Bwrdd Iechyd priodol, mae'r effaith gysylltiedig yn sylweddol.

O ystyried cymhlethdod anghenion pobl a allai fod â phroblemau cyhyrsgerberbydol ochr yn ochr ag amlafiacheddau, mae cydnabyddiaeth gynyddol, er bod cyflyrau cyhyrsgerberbydol yn faes hanfodol bwysig sydd angen cefnogaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd, nid yw cyfyngu neu dargedu'r defnydd o'r set sgiliau Ffisiotherapi ar gyfer Cyflyrau Cyhyrsgerberbydol yn unig o reidrwydd yn gwireddu eu cynnig mewn Gofal Sylfaenol. Mae hefyd o bosibl yn peryglu trawsnewid gwasanaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd ehangach fel rhan o gontinwmm darpariaeth Gofal Sylfaenol system gyfan. Yn nodedig, dyma lle mae angen model hyfforddi estynedig i gydnabod a rheoli cymhlethdod.

Mae'r awydd cynyddol i ymchwilio i rolau Ffisiotherapi nad yw'n canolbwyntio ar gyflyrau cyhyrsgerberbydol a allai gael effaith ar y system iechyd gyfan yn cael ei ystyried ar hyn o bryd drwy'r Academi Gofal Sylfaenol<sup>161</sup> a phrosiectau Trawsnewid Gofal Sylfaenol,<sup>162</sup> a fydd yn llywio'r gwaith o ddatblygu Hybiau Hyfforddi Lleol AaGIC a'r fframwaith ar gyfer anghenion dysgu a nodwyd. Mae'r prosiectau hyn yn adlewyrchu'r gwerth a'r effaith gydnabyddedig y mae Ffisiotherapyddion yn eu darparu yn benodol ar draws gofal niwrolegol, gofal y galon a gofal anadlol, eiddilwch a chwmpadau, ac iechyd menywod. Mae'r olaf yn cael ei lywio gan ffocws cynyddol ar wella gwasanaethau iechyd y pelfis gyda dull ymyrraeth gynnar a gwaith atal.<sup>163 164 165</sup> Mae hyn yn rhoi cyfle i drawsnewid y llwybr asesu ar gyfer anymataliaeth wrinol ac ysgarthol, yn ogystal â symptom

<sup>161</sup> [Trainee Extended Scope Clinical Practitioner – Primary and Community Care Academy \(primarycare-online.co.uk\)](https://www.primarycare-online.co.uk)

<sup>162</sup> [Primary Care and Community Services - Cwm Taf Morgannwg University Health Board](https://www.morgannwg.ac.uk)

<sup>163</sup> [Project to evaluate patient self-referral to women's health physiotherapy pilot sites | The Chartered Society of Physiotherapy \(csp.org.uk\)](https://www.csp.org.uk)

<sup>164</sup> [Briefing - Pelvic Health \(csp.org.uk\)](https://www.csp.org.uk)

<sup>165</sup> [NHS in Wales promised £1m a year to transform pelvic health treatment | CSP](https://www.nhs.uk)

cwmp y groth mewn Gofal Sylfaenol, gan gryfhau'r cysylltiadau â Ffisiotherapi arbenigol ar gyfer llawr y pelfis.

Serch hynny, oherwydd blaenoriaethau sylweddol sy'n cystadlu â'i gilydd sy'n ymwneud â chyflyrau cyhyrsgerbydol yn benodol ac agwedd dameidiog tuag at drawsnewid continwrm darpariaeth gwasanaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd (gyda ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yn thema yn y papur hwn drwyddo draw), mae'r defnydd o fodel darpariaeth sesiynol gyda Ffisiotherapyddion mewn Gofal Sylfaenol yn parhau i fod yn gyffredin ar hyn o bryd.

## 6.10 Podiatreg

Mae podiatryddion yn arbenigwyr ym mhob agwedd ar weithrediad ac iechyd y traed a'r coesau. Fel gweithwyr gofal iechyd proffesiynol hynod fedrus wedi'u hyfforddi i wneud diagnosis, trin, adsefydlu ac atal annormaleddau'r traed a'r coesau, maent yn galluogi pobl i reoli poen y traed a'r fferau, rheoli cyflyrau'r croen y coesau a'r traed, trin heintiau'r traed a'r coesau ac asesu a rheoli anhwylderau niwrolegol a chylchrediad yn y traed a'r coesau. O ganlyniad, mae podiatryddion wedi'u cynnwys yn y categori ymarferwyr cyflyrau cyhyrsgerbydol i'w hystyried o fewn y cynlluniau braenaru Gofal Sylfaenol Brys sy'n datblygu.

Mae cymhwyso eu harbenigedd mewn Gofal Sylfaenol fel rhan o'r tîm rhyngddisgyblaethol yn cwmpasu datblygu addysg a sgiliau eu cydweithwyr a'u partneriaid, yn ogystal â darparu elfen hanfodol yn yr agenda iechyd y cyhoedd a gwaith atal.<sup>166</sup> Maent yn hyrwyddo gweithgaredd corfforol, gan gefnogi strategaethau colli pwysau a dewisiadau ffordd iach o fyw, gan leihau ynysigrwydd, a thrwy hynny alluogi pobl i barhau i symud a bod yn egnïol drwy gydol eu bywydau.

Mae arbenigedd y podiatrydd fel Ymarferydd Cyswllt Cyntaf yn eang,<sup>167</sup> gan hwyluso adnabod cyflyrau'n gynnar a chefnogi ystod o gyflyrau. Mae map trywydd yr Ymarferydd Cyswllt Cyntaf ar gyfer Podiatreg yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gan ganolbwyntio'n benodol ar ddermatoleg (canfod melanoma malaen), atal cwympiadau a diabetes, lleihau risg cardiofasgwlaidd, rheoli meddyginiaethau a stiwardiaeth wrthfotig. Mae'r olaf yn cael ei gynnwys oherwydd cwricwlwm israddedig Podiatryddion sy'n eu galluogi i weithredu fel presgripsiynwyr anfeddygol ar gyfer unrhyw gyflwr meddygol sydd o fewn cwmpas eu hymarfer a deddfwriaeth.

Enghraifft arbennig o nodedig o drawsnewid gwasanaeth sy'n rhychwantu continwrm darpariaeth Podiatreg yw mynediad uniongyrchol Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe at fodel Podiatreg a enillodd wobr Gofal Iechyd Darbodus Llywodraeth Cymru yng Ngwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd 2020 y Deyrnas Unedig. Mewn ymateb i'r galw cynyddol, amseroedd aros hwy, a model clinigol traddodiadol o atgyfeiriadau ac apwyntiadau 'phethau'n cael eu gwneud i bobl', trawsnewidiodd y gwasanaeth ei ffocws drwy greu model mynediad cynaliadwy newydd gan ddefnyddio methodoleg Cynllunio-Gwneud-Astudio-Gweithredu (Plan-Do-Study-Act neu PDSA), gyda mynediad agored uniongyrchol i'r rhai â'r angen mwyaf. Roedd yn blaenoriaethu hunanreolaeth a defnydd darbodus o'r gweithlu, gan ddefnyddio manteision dull ble mae clefion yn rheoli eu gofal eu hunain i roi hwb i gyd-gynhyrchu ac annog ymddygiadau iach. Roedd yn gallu dangos gostyngiad cysylltiedig mewn ymyriadau meddygol diangen ar draws lleoliadau, gan gynnwys presgripsiynau gwrthfotigau.

<sup>166</sup> [Podiatry's Role in Primary Care \(wales.nhs.uk\)](https://www.wales.nhs.uk)

<sup>167</sup> [Podiatrists as First Contact Practitioners 2020 \(cymru.nhs.uk\)](https://www.cymru.nhs.uk)

Yn arwyddocaol, nid oedd lleoliad darparu gwasanaeth yn ffactor cyfyngol yn ei lwyddiant, oherwydd ei ffocws ar sicrhau rhwyddineb mynediad, cyfathrebu a dull cydweithredol. Mae cefnogaeth sylweddol i gyflwyno'r model hwn ledled Cymru.

### 6.11 Prostheteg ac Orthoteg

Mae Prostheteg ac Orthoteg yn gymhwyster ar y cyd ac yn broffesiwn bach ac arbenigol. Mae'r model o wasanaethau clinigol a thechnegol ar gyfer Orthoteg a Phrosthetydd yn cael ei lywio gan ddarparwyr a ffactorau daearyddol cysylltiedig.

Mae'n bwysig nodi nad yw hyn yn golygu bod Prosthetyddion ac Orthotyddion yn gweithio ar wahân i Weithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd eraill a fydd yn bartneriaid allweddol wrth ddarparu gofal cyfannol. Er enghraifft, mae gan Brostheteg rôl bwysig yng nghyfnod cychwynnol gofynion unigolyn, gyda Phrosthetyddion yn gweithio ar y cyd â Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd eraill i ddarparu pecyn cyfan o gymorth i ddiwallu ei anghenion. Mae parhad cymorth gydol oes a mynediad uniongyrchol yn nodweddion allweddol o fodel gofal y Prosthetydd er mwyn ymateb i newidiadau mewn anghenion a rheoli dyfeisiau.

O ganlyniad, er nad yw'n briodol cymhwyso egwyddorion craidd adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd a argymhellir yn y papur hwn i Brostheteg ac Orthoteg oherwydd arbenigedd eu cynnig a'r model darpariaeth, mae'n bwysig serch hynny eu bod yn rhan hanfodol o gontinwmm Gofal Sylfaenol a Chymunedol Proffesiynau Perthynol i Iechyd. Felly mae'n hanfodol cynyddu eu cyfraniad i'r eithaf fel rhan o'r tîm ehangach drwy gyfathrebu, yn ogystal â llywio gofynion adsefydlu rhanbarthol a set sgiliau gysylltiedig i gefnogi darpariaeth leol.

### 6.12 Seicoleg

Mae seicolegwyr yn arbenigwyr ar gymhwyso gwybodaeth seicolegol er mwyn lleihau tralod seicolegol, deall ymddygiad iechyd a gwella a hyrwyddo llesiant seicolegol.

Seicoleg Gofal Sylfaenol yw cymhwyso gwybodaeth ac egwyddorion seicolegol i broblemau iechyd corfforol a meddyliol cyffredin y mae pobl yn eu profi drwy gydol eu hoes, ac fe'i cyflwynir mewn Gofal Sylfaenol. Mae cynnig y Seicolegydd yn aml yn canolbwyntio ar:

- Waith seicolegol uniongyrchol gydag unigolion, teuluoedd a gofalwyr
- Cefnogi newid ymddygiad yn ymwneud â ffordd o fyw
- Pennu cyflymder a nodau i gefnogi adsefydlu a hunanreoli
- Paratoi'n seicolegol ar gyfer llawdriniaeth a magu hyder
- Cymorth i'r darparwyr iechyd, addysg a gofal cymdeithasol ehangach, i hyrwyddo meddwl seicolegol a gwella sgiliau seicolegol a chyfathrebu.<sup>168</sup>

Mae'r olaf yn bwysig iawn gan nad yw Seicolegwyr Clinigol yn darparu ymyriadau seicolegol yn unig, ond maent yn rhan o fodel haenedig o ofal seicolegol.

Mae Seicolegwyr Clinigol yn gweithio ochr yn ochr ag ymarferwyr sy'n darparu lefel gydnabyddedig o ofal seicolegol fel rhan o'u hymarfer, fel Therapyddion Galwedigaethol neu'r rhai sydd wedi derbyn hyfforddiant achrededig mewn ystod o ymyriadau dwysedd isel wedi'u llywio gan Therapi

<sup>168</sup> Health psychology in primary care and community settings A guide for GPs and Public Health Practitioners | The British Psychological Society

Ymddygiad Gwybyddol i gefnogi pobl ag anhwylderau gorbryder ac iselder. Gallai hyn hefyd gynnwys Ymarferwyr Llesiant Seicolegol.

Er mwyn sicrhau y gellir darparu lefel yr ymyrraeth sy'n ofynnol gan bobl ag anghenion seicolegol mwy cymhleth, a gwneud y mwyaf o arbenigedd a manteision Seicoleg Glinigol fel rhan o'r Tîm Gofal Sylfaenol<sup>169</sup>, mae'n hanfodol bod defnyddio Seicolegwyr Clinigol yn cael ei ystyried yn rhan o gontinwmm system gyfan o ddarpariaeth ddi-dor yn seiliedig ar le.

Ar ben hynny, mae hefyd yn hanfodol bwysig nad yw grwpiau neu leoliadau proffesiynol unigol yn ymgymryd â datblygu llwybrau gofal seicolegol ar wahân, ond yn gwneud hynny ar y cyd fel dull llwybr system gyfan ac wedi'i lywio gan ddealltwriaeth o'r set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd a'r anghenion iechyd a welir ymysg y boblogaeth. Mae hyn yn osgoi'r risg o anghynladwyedd ac anallu i drawsnewid darpariaeth gwasanaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn unol â'r Model Gofal Sylfaenol. Mae hefyd yn osgoi cystadleuaeth bosibl rhwng adnoddau Proffesiynau Perthynol i Iechyd, a chontinwmm annheg o gefnogaeth seicolegol, yn dibynnu ar argaeledd a'r gwerth a'r effaith a bennir gan ffynhonnell y cyllid a mesuriadau proses y darparwyr cysylltiedig.

Yn gadarnhaol, mewn ymateb i'r pandemig, mae Cymdeithas Seicolegol Prydain wedi sefydlu nifer o ffrydiau gwaith sydd wedi'u cynllunio i ganolbwyntio ar anghenion newidiol a meysydd blaenoriaeth ar gyfer gofal seicolegol.<sup>170 171</sup> Y nod yw cefnogi llesiant staff a gwella gofal seicolegol ar draws lleoliadau, hwyluso cydweithredu a gweithio cydgysylltiedig, a darparu sgiliau i'r gweithlu ehangach ar gyfer sgrinio seicolegol, adnabod yn gynnar a mynediad at gymorth seicolegol.

### 6.13 Therapi Lleferydd ac Iaith

Mae sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu yn hanfodol ar gyfer iechyd cadarnhaol a lleihau anghydraddoldebau iechyd, llesiant, addysg a chanlyniadau cyflogaeth.<sup>172 173</sup> Mae bron i 20% o'r boblogaeth yn profi anawsterau cyfathrebu ar ryw adeg yn eu bywydau, gyda llawer ohonynt yn byw gyda chyflyrau sy'n gofyn am driniaeth feddygol reolaidd a/neu gymorth gofal cymdeithasol gan gynnwys: dementia; cyflyrau niwrolegol a gafwyd fel strôc, anaf i'r ymennydd a gafwyd ac anaf trawmatig i'r ymennydd; a chyflyrau niwrolegol blaengar fel Clefyd Niwronau Motor, Sglerosis Ymledol a Chlefyd Parkinson. Yn ogystal, efallai y bydd angen cymorth lleferydd ac iaith ar bobl ar gyfer anhwylderau llais (fel dysffonia, affonia a pheswch cronig), canser y pen a'r gwddf, anawsterau dysgu, llais ac arddull cyfathrebu ataliol neu drawsryweddol.

Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn arbenigwyr mewn anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu, yn ogystal ag anawsterau bwyta, yfed a llyncu (dysffagia). Ar lefel gwasanaeth arbenigol, maent yn asesu, yn gwneud diagnosis ac yn darparu triniaeth er mwyn rheoli'r risg o niwed a lleihau effaith weithredol yr anhwylderau hyn. Gallant hefyd helpu i nodi anghenion hyfforddi a darparu addysg a datblygu sgiliau perthnasol i gynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth y bobl hynny sy'n cefnogi unigolion ag anhwylderau lleferydd ac iaith a llyncu.

Yn arwyddocaol, mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith eisoes yn rhan o dîm rhyngddisgyblaethol gyda phartneriaid mewn addysg, a'u huchelgais yw ailadrodd y model hwn o ddarparu gwasanaethau ar draws y continwmm gofal sylfaenol a chymunedol. Byddai hyn yn cynnig dull

<sup>169</sup> [Clinical Psychology in Primary Care | Durcan 2020](#)

<sup>170</sup> [COVID-19 Coordinating Group | BPS](#)

<sup>171</sup> [Psychological needs of healthcare staff.pdf \(bps.org.uk\)](#)

<sup>172</sup> [Siarad Gyda Fi \(llyw.cymru\)](#)

<sup>173</sup> [Speech, language and communication: a public health issue across the lifecourse | Paediatrics and Child Health](#)

cydgysylltiedig i bobl ag anghenion lluosog a chymhleth, gan alluogi mynediad cyfleus ac amserol i'w gwybodaeth arbenigol.

Mae galw cynyddol am gefnogaeth i bobl ag anghenion llyncu a/neu gyfathrebu. Wedi'i sbarduno gan ystod o ffactorau gan gynnwys poblogaeth sy'n heneiddio, cynnydd yn nifer yr achosion o glefyd cronig, nodi cyflyrau yn gynharach ar draws pob grŵp oedran, a chyfraddau goroesi gwell ar gyfer babanod cynamserol, y rhai â salwch cronig neu anabled, ac oedolion a chanddynt anhwylderau niwrolegol neu salwch sy'n rhoi bywyd yn y fantol.

O ystyried y newidiadau demograffig hyn, mae nifer o feysydd allweddol lle y gall Therapyddion Lleferydd ac Iaith gefnogi cyflwyno gwell canlyniadau o fewn Gofal Sylfaenol, gan gefnogi dull gofal di-dor a defnydd darbodus o adnoddau. Gall y meysydd hyn gynnwys cymorth gydag uwch gyfarwyddbau, asesu Capasiti Meddyliol a pholisïau 'perylg bwydo' i gynnig dewisiadau eraill yn lle derbyn pobl i'r ysbyty tuag at ddiwedd oes. Yn benodol, gellir defnyddio arbenigedd Therapyddion Lleferydd ac Iaith i gefnogi cartrefi gofal ac unedau lle ceir gwelyau cymunedol, gan ddarparu mynediad uniongyrchol i reoli problemau cyfathrebu a llyncu y rhai sydd dan eu gofal. Yn ogystal, gall Therapyddion Lleferydd ac Iaith ddarparu hyfforddiant i staff cartrefi gofal ac eraill yn y gymuned i reoli dirywiad mewn perfformiad llyncu o ganlyniad i oedran ac afiechyd.

Mae Therapyddion Lleferydd ac Iaith yn wynebu heriau tebyg i'r rhai sy'n wynebu Deietegwyr. Gall y rhain gyfyngu ar eu gallu i archwilio cyfleoedd i drawsnewid gwasanaethau er gwaethaf eu cynnig o ran gofal anadlol, diwedd oes a dysffagia (e.e. mewn cartrefi gofal), yn ogystal â gwybyddiaeth a gofal iechyd meddwl. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o ran cymorth gyda COVID-19 a rheoli anghenion.

Mae enghreifftiau o drawsnewid gwasanaeth Therapi Lleferydd ac Iaith mewn Gofal Sylfaenol yn darparu gwersi trosglwyddadwy o ran datblygu continwwm y ddarpariaeth er mwyn gwneud y defnydd gorau o'u set sgiliau, a'u galluogi i gael eu cydnabod fel aelod hanfodol o'r Tîm Gofal Sylfaenol.

Yn arwyddocaol, mae gan wasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith yng Nghymru hanes sefydledig o ysgogi trawsnewidiad. Mae'r model ar gyfer gwasanaethau Therapi Lleferydd ac Iaith plant wedi cael ei ad-drefnu'n sylweddol dros y degawd diwethaf, gan drawsnewid o wasanaeth arbenigol traddodiadol sydd ar gael drwy atgyfeiriad gan feddyg teulu, i wasanaethau integredig / amlbroffesiynol / amlasiantaethol cydweithredol â mynediad uniongyrchol. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar atal poblogaethau sydd mewn perygl, hyfforddi i uwchsgilio gofalwyr plant, gwelliannau i amgylcheddau plant er mwyn gwella datblygiad iaith a mynediad agored i ofal arbenigol.

Mae newidiadau o'r fath wedi lleihau amseroedd aros ac wedi gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, nid y meddyg teulu yw'r prif atgyfeiriwr mwyach; yn lle hynny, mae ymwelwyr iechyd, athrawon a rhieni wedi'u grymuso fel atgyfeirwyr. Mae hyn yn cefnogi'r newid diwylliannol gofynnol yn y canfyddiad mai'r meddyg teulu yw 'porthor' gwasanaethau.

Yr hyn sy'n arbennig o nodedig yw mabwysiadu model clinig 'galw am sgwrs' (yn seiliedig ar y model clinig 'galw i mewn' podiatreg a ffisiotherapi) a ddefnyddir gyda phlant cyn-ysgol sy'n profi anawsterau lleferydd, iaith a chyfathrebu. Mae'r model hwn yn defnyddio dull Nodau Gofal<sup>174</sup> i

<sup>174</sup> [The Care Aims Framework – Care Aims](#)

ddarparu gwasanaethau, gan alluogi plant a'u teuluoedd i gael eu gweld yn gyflymach ac yn agosach at eu cartrefi drwy ddarparu mynediad uniongyrchol i Therapi Lleferydd ac Iaith, gan ddileu'r gofyniad am system atgyfeirio ar bapur a chylch atgyfeirio, brysbennu, asesu, gydag amseroedd aros cysylltiedig am gymorth. Fel cydnabyddiaeth o'i potensial i gael ei efelychu ledled Cymru, enillodd y model clinig 'galw am sgwrs' y categori Gwella Canlyniadau Iechyd y Cyhoedd yng Ngwobrau 2019 Arloesi mewn Gofal Iechyd Cymru<sup>175</sup> a chyrrhaeddodd rownd derfynol gwobr Llywodraeth Cymru am Ofal Iechyd Darbodus yng Ngwobrau Arloesi mewn Gofal Iechyd 2020 y Deyrnas Unedig.<sup>176</sup>

Serch hynny, mae'n werth nodi bod y trawsnewidiad hwn o wasanaeth a chynaliadwyedd ond yn bosibl drwy ddeisebu penodol ar gyfer cyllid a defnyddio dull unffurf ar draws ôl-troed daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol cyfan. Adroddwyd bod rhywfaint o wrthwynebiad cychwynnol gan Glystyrau a fyddai wedi bod yn well ganddynt gael ffocws amgen ar gyfer y cynnig Therapi Lleferydd ac Iaith.

Fel yr amlinellwyd eisoes, gall nifer o ffactorau achosi gwrthwynebiad cychwynnol i drawsnewid gwasanaethau, gan gynnwys traddodiadau ymarfer a diffyg dealltwriaeth o sut y gellir defnyddio'r set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd i ddiwallu anghenion iechyd y boblogaeth, yn ogystal â ffocws ymhlyg ar gapasiti meddygon teulu a chynaliadwyedd y Gwasanaeth Meddygol Cyffredinol. Mae'n bwysig ystyried y ffactorau hyn wrth geisio dylanwadu ar drawsnewid gwasanaethau. Heb os, byddai cael Therapyddion Lleferydd ac Iaith fel aelodau o dimau gofal sylfaenol ehangach nid yn unig yn cynorthwyo i adeiladu gwasanaethau cynaliadwy ac effeithiol i ddarparu gofal gan y person iawn, ar yr amser iawn yn y lle iawn, ond hefyd yn cefnogi'r system gyfan i sicrhau'r gweithrediad gorau posibl.

Bydd dysgu o'r model siarad hwn hefyd yn llywio prosiectau amlbroffesiynol Gofal Sylfaenol sy'n datblygu mewn ymateb i'r pandemig. Un enghraifft yw datblygu gweithdai rianta ar gyfer plant cyn-ysgol ag anawsterau cyfathrebu cymdeithasol, oherwydd niferoedd cynyddol o blant cyn-ysgol a gyfeiriwyd at Wasanaeth Integredig i Blant ag Anghenion Ychwanegol (ISCAN) i asesu anhwylder sbectrum awtistig posibl ar oedran ifanc, o ganlyniad i newidiadau mewn gwyliadwriaeth gan ymwelwyr iechyd. Mae hyn yn ei dro wedi arwain at atgyfeirio niferoedd cynyddol o blant at gymorth penodol gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd gyda chynnydd cysylltiedig mewn amseroedd aros am asesiad a'r posibilrwydd o greu anghenion cymhleth. Fodd bynnag, pe bai cyngor Proffesiynau Perthynol i Iechyd yn cael ei ddarparu'n gynharach, gallai hyn ddatrys pryderon neu helpu rhieni i ofalu am eu plentyn a gwneud y mwyaf o'u datblygiad.

Mae'r cynnig sy'n deillio o hyn yn defnyddio dull Nodau Gofal, gyda mewnbwn gan y gweithwyr proffesiynol canlynol:

- Therapydd lleferydd ac iaith (i gynorthwyo gyda datblygiad iaith cynnar)
- Deietegydd (i gynorthwyo gydag anawsterau bwyta)
- Therapydd galwedigaethol (i gynghori teuluoedd ar faterion synhwyraidd, chwarae a thoiled)
- Cynghorydd datblygu plant a/neu seicolegydd (i gefnogi chwarae a helpu teuluoedd sy'n dysgu i rianta plentyn ag anghenion ychwanegol)
- Nyrs arbenigol (i gynnig gymorth gyda materion toiled a chysgu)

<sup>175</sup> [Advancing-Healthcare-Awards-Wales-Winners-Guide-2019 \(ahawards.co.uk\)](https://www.ahawards.co.uk/)

<sup>176</sup> [AHA-Winners-Guide-2020](https://www.aha-wales.org/)



Y nod yw bod y plentyn yn derbyn ymyrraeth gynharach, yn hytrach nag aros am ddiagnosis ac yna derbyn ymyrraeth ai peidio. Mae rhieni'n cael eu grymuso i hunanreoli ac mae ganddynt hyder i roi cynnig ar strategaethau datblygu priodol a cheisio cefnogaeth cymheiriaid. Yr uchelgais yw y bydd rhieni hefyd yn meithrin gwell dealltwriaeth o anghenion eu plentyn, a fydd yn byrhau hyd yr ymyrraeth os bydd angen gwasanaethau arbenigol arnynt yn y dyfodol.

## 7. Adran 5: Egwyddorion Craidd Proffesiynau Perthynol i Iechyd

Mae'r adran hon yn ystyried yr holl benodau i ddarparu'r egwyddorion craidd a argymhellir sy'n ofynnol er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd mewn Gofal Sylfaenol a Chymunedol.

Er mwyn gwneud y gorau o werth Proffesiynau Perthynol i Iechyd, mae'n amlwg bod angen i arweinwyr system sicrhau'r canlynol:



Yn y cyd-destun hwn, mae'r adran isod yn nodi'r camau sy'n ofynnol gan arweinwyr system i gyflawni'r defnydd Proffesiynau Perthynol i Iechyd gorau posibl:

## **Camau Gofynnol i Wneud y Gorau o'r hyn sydd gan y Proffesiynau Perthynol i Iechyd i'w Gynnig**

### **Llwybr System Gyfan**

Arweinwyr system i ddod ynghyd i oresgyn y rhwystrau sy'n atal y defnydd gorau o Broffesiynau Perthynol i Iechyd.

Darparu cydlyniant ar raddfa fawr i gefnogi rhoi mwy o ffocws ar:

- Wasanaeth iechyd a llesiant di-dor
- Gwasanaethau adfer ac adsefydlu wedi'u gwreiddio yn y gymuned ac yn gweithredu fel cyfanwaith
- Datblygu a chefnogi strategaeth 'un gweithlu'
- Defnydd mwy effeithiol o adnodd Proffesiynau Perthynol i Iechyd gan gynnwys cymorth clinigol a gwasanaethau corfforaethol
- Mesur y canlyniadau iechyd a llesiant sydd o bwys i bobl
- Gwneud y defnydd gorau o set sgiliau Proffesiynau Perthynol i Iechyd i sicrhau gwell canlyniadau a gwell gwerth er mwyn diwallu anghenion y boblogaeth yn hytrach na diwallu'r galw
- Gwella iechyd y boblogaeth
- Cefnogi pobl i wneud penderfyniadau ynghylch gofalu amdanynt hwy eu hunain ac aros yn annibynnol

### **Trefnu gweithgaredd Proffesiynau Perthynol i Iechyd ar draws ardaloedd daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol**

Cydnabod y bydd y gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd, o safbwynt gweithredol, yn dod o wahanol sefydliadau o fewn ôl troed daearyddol y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, a'i bod yn ofynnol i arweinwyr system:

- Gydweithio rhwng darparwyr ar ôl troed mwy i alluogi dull gweithredu unffurf a chydgyssylltiedig gyda gwaith cynllunio a chyflawni Lleol / Ar Draws Clystyrau yn seiliedig ar anghenion ac amrywiad
- Darparu'r cydbwysedd cywir rhwng datrysiadau rhanbarthol a diwallu anghenion cymhleth (y mae angen eu cynllunio a'u trefnu'n effeithiol dros ardal fwy na 'lle'), ochr yn ochr ag atebion lleol ac arloesi, sy'n lleihau amrywioldeb

### **Cysoni ffrydiau cyllid ag amcanion y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a'r Model Gofal Sylfaenol**

Mae angen cynllunio rhanbarthol ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar arweinwyr system sydd y tu hwnt i'w ffiniau sefydliadol traddodiadol. Mae hyn yn hollbwysig i ddefnyddio Proffesiynau Perthynol i Iechyd cynaliadwy a bydd yn galluogi:

- Blaenoriaethu modelau capasiti a chyflawni i ddiwallu anghenion y boblogaeth
- Dyrannu adnoddau i ymyriadau gwerth uwch

### **Arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i Iechyd cryfach sy'n cwmpasu'r system gyfan**

Mae'n ofynnol i arweinyddiaeth Proffesiynau Perthynol i lechyd fod ar draws y system, yn bresennol, yn cael ei gryfhau, ei gefnogi a'i ddatblygu: mae hyn yn hanfodol i gefnogi gwneud penderfyniadau ar y cyd, llywio blaenoriaethau a dyrannu adnoddau'n ddarvoudus

Rhaid dangos gwerth ac effaith gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i lechyd mewn ffordd gyson i helpu i alinio amcanion strategol sefydliadol a chefnogi cynaliadwyedd a pharhad ar draws gwasanaethau

Rhaid cydnabod bod modelau a dulliau Proffesiynau Perthynol i lechyd newydd yn gofyn am drawsnewid y ffordd yr ydym yn trefnu gwasanaethau, yn lle dim ond darparu'r un gwasanaethau Proffesiynau Perthynol i lechyd mewn lleoliadau newydd, gan ehangu'r gweithlu Proffesiynau Perthynol i lechyd, ar y cyd â datblygu sgiliau a'r ystod o wasanaethau a gynigir

### **Cytundeb cydweithredol a threfnu adnoddau Proffesiynau Perthynol i lechyd ar draws lleoliadau**

Rhaid i gynllunio'r gweithlu fod yn broses barhaus ac yn ymatebol a wneir arweinwyr systemau, sy'n canolbwyntio ar ddatblygu rolau a defnyddio sgiliau i ddiwallu anghenion y boblogaeth a blaenoriaethau rhanbarthol, yn hytrach na theitlau swyddi a llwybrau gyrfa

### **Haenu adnodd Proffesiynau Perthynol i lechyd o ran ymyriadau gofynnol a'r set sgiliau angenrheidiol**

Rhaid i arweinwyr system drefnu adnodd Proffesiynau Perthynol i lechyd o ran yr ymyriadau sydd eu hangen a'i haenu yn erbyn set sgiliau angenrheidiol, gan alluogi mwy o gydweithredu a gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda defnydd doeth a'r defnydd gorau o'r Proffesiynau Perthynol i lechyd

Bydd y dull hwn hefyd yn datgelu lle mae bylchau yn y ddarpariaeth Proffesiynau Perthynol i lechyd a lle mae angen adnoddau ychwanegol

### **Dull gweithredu unffurf sy'n cael ei ddefnyddio'n lleol i gefnogi gwaith cynllunio a chyflawni dan arweiniad clwstwr**

Arweinwyr systemau i sicrhau dull gweithredu unffurf gan ei ddefnyddio'n lleol ar gyfer gwaith cynllunio a chyflawni dan arweiniad clwstwr. Gall y cydgysylltiad ehangach hwn gefnogi:

- Gwella'r cynnig Proffesiynau Perthynol i lechyd drwy ddarparu gwasanaethau mwy cynaliadwy o ansawdd uwch
- Lleihau amrywiad heb gyfiawnhad mewn ymarfer a chanlyniadau clinigol
- Lleihau anghydraddoldebau iechyd, gyda mynediad teg a chyfartal ar draws safleoedd
- Cynllunio'r gweithlu yn well

### **Cytuno ar fframwaith cyfathrebu a modelau tîm**

Cydnabod na fydd un model Tîm a fydd yn addas i bawb, rhaid i arweinwyr system sicrhau:

- Mynediad uniongyrchol at ystod ehangach o Weithwyr Proffesiynol Perthynol i lechyd a rolau Ymarferydd Therapi Cynorthwyol medrus, fel rhan o gontinwmm Gofal Sylfaenol a Chymunedol
- Dull 'arbenigwr cyffredinol' gyda mwy o wybodaeth arbenigol yn y gweithlu ehangach, nid rolau arbenigol yn unig

- Cymhwysio fframwaith 'Team Tetris' sy'n cynnwys: Aelodau Gwybodus, Medrus, Ychwanegol ac Arbenigol y gellir eu mapio yn erbyn anghenion iechyd y boblogaeth leol
- Defnydd digidol i gefnogi cydweithio a chyfathrebu amlbroffesiwn ar sail unigolyn a grŵp

### **Model cyflogaeth a llywodraethu 'cyflogi i ddefnyddio'**

Dylai arweinwyr system gymhwyso model cyflogaeth a llywodraethu 'cyflogi i ddefnyddio'.

Ac felly:

- Mynd i'r afael â risgiau cysylltiedig megis absenoldeb arweinyddiaeth, datblygu llwybrau mewn seilos, absenoldeb trefniadau llywodraethu clinigol a gostyngiad cysylltiedig yn safon y cymorth gan Broffesiynau Perthynol i Iechyd a phrofiad y defnyddiwr
- Osgoi datblygu marchnad lafur dameidiog a chystadleuol ar gyfer adnodd gweithlu gwerthfawr

Bydd hyn yn cefnogi gwaith cynllunio gweithlu effeithiol ar y cyd â phartneriaid, i ddatblygu a thyfu gofynion Proffesiynau Perthynol i Iechyd gan edrych i'r dyfodol a rhagweld anghenion y boblogaeth

Mae hyn yn cynnwys mabwysiadu model cyllido a chyflogaeth cynaliadwy ar sail system gyfan, a gynhelir gan y bwrdd iechyd priodol, awdurdod lleol ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (WAST), gyda gweithgaredd wedi'i drefnu ar y cyd ar draws ardaloedd daearyddol Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol, ac alinio ffrydiau cyllido drwy eu lens hwy.

### **Dysgu a datblygu wedi'u llywio gan flaenoriaethau rhanbarthol a gwaith clwstwr, gyda chefnogaeth Academiâu Gofal Sylfaenol / Hybiau Hyfforddi Ardal gyda llwybrau hyfforddi / addysg cyson a dibynadwy**

Rhaid i arweinwyr system sefydlu cysylltiadau clir rhwng cynllunio'r gweithlu, addysg a hyfforddiant ynghylch meithrin gallu a'r gallu i wneud y defnydd gorau posibl o Broffesiynau Perthynol i Iechyd

Bydd hyn yn sicrhau cyflenwad gweithlu Proffesiynau Perthynol i Iechyd sydd â'r sgiliau, cymwyseddau, gwerthoedd ac ymddygiadau cywir i fodloni gofynion anghenion y boblogaeth leol.

Bydd gweithio gydag Academiâu Gofal Sylfaenol / Hybiau Hyfforddi Ardal sy'n cwmpasu'r gweithlu cyfan yn gwella addysg rhyngbroffesiynol a datblygu tîm

## 8. Atodiadau

### Atodiad 1

Proffesiynau Iechyd Perthynol a Reoleiddir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal yng Nghymru

- Therapyddion Celf
- Therapyddion Cerdd
- Therapyddion Drama
- Deietegwyr
- Therapyddion Galwedigaethol
- Orthoptyddion
- Orthotyddion
- Parafeddygon
- Ffisiotherapyddion
- Podiatryddion
- Seicolegwyr Ymarferwyr
- Prosthetyddion
- Therapyddion Lleferydd ac Iaith